

Diwygiedig Cynllun 2018-2033 Datblygu Lleol

Adroddiad Sgrinio

Aseiad Rheoliadau
Cynefnoedd



Rhagfyr 2018

Contents

1. Cyflwyniad	2
1.1 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARC)	2
1.2 Cymhwyso Rheoliadau Cynefinoedd i Gynlluniau Datblygu	2
1.3 Pwrpas yr adroddiad	4
1.4 Ymgynghoriad	4
1.5 Strwythur yr Adroddiad	5
2. Methodoleg	6
2.1 Cam 1 - Sgrinio	6
2.2 Pennu'r 'effeithiau arwyddocaol tebygol'	6
2.3 Canllawiau ar Werthusiad/Asesiad Priodol Rheoliadau Cynefinoedd	7
Rheoliadau:	7
Canllawiau:	7
3. Sgrinio	8
3.1 Tasg 1: Clustnodi a phennu nodweddion Safleoedd Ewropeaidd	8
3.2 Tasg 2: Sgrinio'r Strategaeth a Ffafir er mwyn clustnodi effeithiau tebygol posibl ar Safleoedd Ewropeaidd	11
Sganio a dewis safleoedd Ewropeaidd yr effeithir arnynt o bosibl.	11
Sgrinio'r Strategaeth a Ffafir	34
3.3 Tasg 3: Ystyried effeithiau yn gyfun â chynlluniau, rhaglenni a phrosiectau eraill.	38
3.4 Tasg 4: Crynodeb o'r Asesiad Sgrinio	40
Atodiadau	41
Atodiad 1. Amcanion cadwraethol safleoedd a glustnodwyd sydd o fewn parth byffer 15km o Sir Gaerfyrddin	41
Atodiad 2 Data Dyddodiadau Nitrogen ar gyfer ACAau/AGAau yn Sir Gaerfyrddin a Pharth Byffer 15km	91
Atodiad 3 Cynlluniau a Rhaglenni ag effeithiau cyfun posibl.	96
Atodiad 4 Sgrinio rhagarweiniol Amcanion Strategol drafft	113
Atodiad 5 Sgrinio rhagarweiniol Polisiâu Strategol drafft	115

1. Cyflwyniad

1.1 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARC)

1.1.1 Mae Cyfarwyddeb Ewropeaidd 92/43/EEC ar Warchod Cynefinoedd Naturiol a Phlanhigion ac Anifeiliaid Gwyllt (e elwir yn 'Gyfarwyddeb Cynefinoedd'), a roddwyd ar waith yn y DU gan Reoliadau Cynefinoedd 2010, yn darparu gwarchodaeth gyfreithiol i ystod o gynefinoedd a rhywogaethau a glustnodir fel rhai o bwysigrwydd Ewropeaidd.

1.1.2 Mae Erthygl 2 y Gyfarwyddeb yn ei gwneud y ofynnol i gynnal a chadw neu i adfer y cynefinoedd a'r rhywogaethau yma mewn cyflwr ffafrïol, a gwneir hynny drwy sefydlu a chynnal ardaloedd gwarchoddedig y cyfeirir atynt fel safleoedd Natura 2000. Mae'r rhain yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a ddynodir dan Gyfarwyddeb Ewropeaidd 92/43/EEC ar Warchod Cynefinoedd Naturiol a Phlanhigion ac Anifeiliaid Gwyllt ('Cyfarwyddeb Cynefinoedd 1992'), a roddwyd ar waith ym Mhrydain gan Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol & c) 2010 ('Rheoliadau Cynefinoedd'); ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) a ddynodwyd dan Gyfarwyddeb yr UE 79/409 ar Gadwraeth Adar Gwyllt ('y Gyfarwyddeb Adar') a safleoedd Ramsar o dan Gonfensiwn Ramsar ar Gadwraeth Gwlypdiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol.

1.1.3 Mae safleoedd a ddynodir fel gwlypdiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol dan Gonfensiwn Ramsar yn ddarostyngedig i'r un darpariaethau â safleoedd Natura 2000.

1.2 Cymhwyso Rheoliadau Cynefinoedd i Gynlluniau Datblygu

1.2.1 Mae Rhan IVA Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol & c.) 1994 ("Rheoliadau Cynefinoedd") yn trosi gofynion erthygl 6(3) a (4) Cyfarwyddeb Cynefinoedd (92/43/EEC) mewn perthynas â "chynlluniau defnyddio tir". Mae'r cynlluniau yma yn cael eu diffinio yn rheoliad 85A ac maent yn cynnwys y canlynol:

- Cynlluniau datblygu lleol a fabwysiadwyd neu a gymeradwywyd o dan Ddeddf 2004; a
- Cynlluniau datblygu unedig a fabwysiadwyd neu a gymeradwywyd dan Ddeddf 1990, yn unol â'r cytundebau pontio.

1.2.2 Mae Nodyn Cyngor Technegol 5 Atodiad 6 LICC yn nodi y dylai proses yr ARC gynnwys yr elfennau canlynol:

- Penderfynu a yw'r cynllun datblygu, ynddo ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill, yn debygol o effeithio'n sylweddol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd neu safleoedd morol Ewropeaidd ar y môr, ac os ydynt, dylid cwmpasu'r "asesiad priodol";
- Cynnal yr "asesiad priodol" (mewn ymgynghoriad â CNC a/neu Natural England) er mwyn nodi unrhyw effeithiau sylweddol all y cynllun datblygu ei achosi ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd neu safleoedd morol Ewropeaidd ar y môr, naill ai yn unigol neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill, gan ystyried amcanion cadwraeth y safleoedd hynny;
- Pan fo'r "asesiad priodol" yn nodi effeithiau sylweddol posibl ar safle Ewropeaidd neu safle morol Ewropeaidd ar y môr, nodi a oes yna atebion amgen posibl neu gamau lliniaru fyddai'n osgoi neu'n gwrthwneud yr effeithiau niweidiol hynny, petaent yn cael eu mabwysiadu;

- Gan ystyried yr “asesiad priodol”, penderfynu a fydd y cynllun datblygu yn effeithio’n niweidiol neu beidio ar uniondeb unrhyw safle Ewropeaidd neu safle morol Ewropeaidd ar y môr, naill ai’n unigol neu mewn cyfuniad a chynlluniau neu brosiectau eraill;
- Pan fo yna bosibilrwydd y gallai’r cynllun achosi effaith niweidiol o’r fath, penderfynu a oes yna unrhyw atebion amgen i’r cynllun datblygu, neu i’r elfennau niweidiol posibl yn y cynllun, fyddai’n osgoi neu’n lleihau effeithiau o’r fath ar y safle(oedd) Ewropeaidd neu safle(oedd) morol Ewropeaidd ar y môr; a
- Phan nad oes yna atebion amgen o’r fath, penderfynu a oes yna resymau hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig dros roi’r cynllun datblygu ar waith.

1.2.3 Mae’r dulliau a’r ymagweddau a ddefnyddir ar gyfer y sgrinio yma yn seiliedig ar ganllawiau sydd ar gael ar hyn o bryd ac ymarfer ymddangosol, sydd yn argymhell yr ymdrinnir â’r ARC fesul pedwar prif gan - a amlinellir yn **Tabl 1** isod. Mae’r adroddiad hwn yn amlinellu’r dull a’r canfyddiadau ar gyfer cam 1 y broses ARC.

Tabl 1 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Camau Allweddol

Cam Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	Pwrpas	Tasg
1. Sgrinio	Proses ar gyfer clustnodi effeithiau cynllun neu brosiect ar safle Ewropeaidd, naill ai’n unigol neu mewn cyfuniad, ac ystyried a fydd yr effeithiau tebygol yn sylweddol.	<ul style="list-style-type: none"> • Disgrifiad o’r cynllun • Clustnodi effeithiau posibl ar Safleoedd Ewropeaidd • Asesu’r effeithiau ar Safleoedd Ewropeaidd.
2. Asesiad Priodol	Ystyried effeithiau ar uniondeb y safle, naill ai’n unigol neu mewn cyfuniad â chynlluniau a phrosiectau eraill, gan ystyried strwythur, swyddogaeth ac amcanion cadwraeth y safle. Pan glustnodir effeithiau niweidiol, asesu opsiynau lliniaru er mwyn clustnodi effeithiau ar uniondeb y safle. Dylai’r cam hwn gynnwys ymgynghoriad. Os na fydd opsiynau lliniaru yn arwain at osgoi effeithiau niweidiol, gellir ond rhoi caniatâd os dilynir y 2 gam dilynol.	<ul style="list-style-type: none"> • Casglu gwybodaeth (cynllun a Safleoedd Ewropeaidd) • Rhagfynegi effaith • Gwerthuso effeithiau o ystyried amcanion cadwraeth
3. Asesu atebion amgen	Adolygu ac archwilio dewisiadau amgen er mwyn cyflawni’r amcanion; a fyddai’r atebion amgen yma yn osgoi neu’n lleihau’r effeithiau niweidiol ar y safleoedd Ewropeaidd?	<ul style="list-style-type: none"> • Pan ystyrir bod yr effeithiau yn effeithio ar nodweddion cymwys, clustnodi opsiynau amgen • Asesu opsiynau amgen • Os nad oes opsiynau amgen yn bodoli, diffinio a gwerthuso

		camau lliniaru pan fo'n anghenrheidiol
4. Asesu unrhyw 'resymau hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig' (IROPI)	Pan nad oes unrhyw ateb amgen addas yn bodoli, a bod effeithiau niweidiol yn dal i fodoli, asesu a yw'r datblygiad yn anghenrheidiol ar gyfer IROPI. Os ydyw, clustnodi camau digolledu posibl er mwyn cynnal uniondeb a chydlyniant y safle gwarchoddedig.	<ul style="list-style-type: none"> • Clustnodi 'rhesymau hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig' (IROPI) • Clustnodi camau digolledu posibl

1.3 Pwrpas yr adroddiad

1.3.1 Y ystod y cam yma o baratoi Cynllun, ac eithrio nifer fechan o safleoedd strategol, ni fydd y Strategaeth a Ffafir yn cynnwys cyfeiriad at glustnodi unrhyw ddyraniadau safle benodol. Bydd hynny yn cael ei wneud fel rhan o lunio'r CDLI Adneuo ar ôl cytuno ar y Strategaeth a Ffafir.

1.3.2 Felly mae'r adroddiad ARC yn cynnwys cam sgrinio cychwynnol lefel uchel (proses ARC) y Strategaeth a Ffafir. Mae'n clustnodi'r safleoedd hynny a ddyrannwyd a/neu bolisiau fyddai'n amlwg ddim yn effeithio ar safleoedd Ewropeaidd fyddai'n caniatáu i'r safleoedd hynny gael eu 'sgrinio allan' o unrhyw asesiadau pellach. Felly, byddai ffocws asesiadau ychwanegol, manylach yn cael ei gymhwyso'n unig i safleoedd dyrannu, neu bolisiau, ble byddai effaith niweidiol debygol yn bosibl. Bydd mwy o sgrinio manwl yn cael ei gynnal yn fersiwn nesaf y CDLI (h.y. y CDLI Adneuo) pan fo'r polisiau wedi eu paratoi ac y cytunwyd ar restr lawn o safleoedd dyrannu. yna byddai safleoedd dyrannu a pholisiau sydd wedi eu cynnwys i gael eu sgrinio'n fanwl yn cael eu hadolygu'n fanylach ar sail y wybodaeth sydd ar gael.

1.4 Ymgynghoriad

1.4.1 Mae'r Rheoliadau Cynefinoedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio/cymwys ymgynghori â'r corff cadwraeth natur priodol statudol (Cyfoeth Naturiol Cymru) os bydd yn cynnal Asesiad Priodol, ond mae ymgynghori a chyrrff eraill a'r cyhoedd yn cael ei adael i ddisgresiwn yr awdurdod cynllunio lleol (rheoliad 85B(3)).

1.4.2 Mae canllawiau LICC yn nodi bod rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am ARC yn ymarfer da, a hynny ar bob cam ymgynghori ffurfiol ar y cynllun datblygu. Felly, yn ychwanegol at yr ymgynghoriad statudol a gynhelir gyda CNC, bydd yr adroddiad hwn ar gael i ymgynghori'n ehangach arno.

1.4.3 Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn ysgrifenedig at:

Cangen Flaen-Gynllunio,
Adran yr Amgylchedd,
7/8 Heol Spilman,
Caerfyrddin,
Sir Gaerfyrddin,
SA31 1JY

neu e-bostio: blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk

neu ar-lein yn www.sirgar.llyw.cymru erbyn

1.4.4 Ar ôl derbyn sylwadau ar yr ymgynghoriad, byddant yn cael eu hadolygu a bydd addasiadau yn cael eu gwneud i adroddiad sgrinio'r ARC fel bo'r angen.

1.5 Strwythur yr Adroddiad

1.5.1 Mae'r adroddiad yma yn nodi proses a chanfyddiadau o gamau sgrinio'r ARC ar gyfer Strategaeth a ffafrir Cyngor Sir Gaerfyrddin. Yn dilyn yr adran ragarweiniol, mae'r ddogfen wedi ei rhannu i'r adrannau canlynol:

Adran 2 sydd yn amlinellu'r methodoleg a'r tasgau allweddol a gyflawnwyd ar gyfer proses sgrinio ARC cam Strategaeth a Ffafrir y CDLI, ac mae'n cynnwys cyfeiriad at y ffynonellau gwybodaeth allweddol a ddefnyddiwyd.

Adran 3 sydd yn amlinellu'r broses a chanfyddiadau crynodol y Broses Sgrinio a'r asesiad yn cynnwys:

- **3.1 Tasg 1:** Clustnodi a phennu nodweddion Safleoedd Ewropeaidd
- **3.2 Tasg 2:** Sgrinio'r Strategaeth a Ffafrir er mwyn clustnodi effeithiau tebygol posibl ar Safleoedd Ewropeaidd
- **3.3 Tasg 3:** Ystyried effeithiau yn gyfun â chynlluniau, rhaglenni a phrosiectau eraill.
- **3.4 Tasg 4:** Crynodeb o'r Asesiad Sgrinio

2. Methodoleg

2.1 Cam 1 - Sgrinio

2.1.1 Gellir rhannu'r broses o Sgrinio i bedwar prif faes tasg. Amlinellir pob tasg isod.

- **Tasg 1:** Clustnodi a phennu nodweddion Safleoedd Ewropeaidd
- **Tasg 2:** Adolygu a sgrinio Cynllun Datblygu er mwyn clustnodi effeithiau posibl a thebygol ar Safleoedd Ewropeaidd.
- **Tasg 3:** Ystyried cynlluniau a phrosiectau eraill allai weithredu 'mewn cyfuniad'.
- **Tasg 4:** Asesiad Sgrinio, cofnodi'r farn a'r wybodaeth ategol a'r dadansoddiad.

2.1.2 Bydd asesiad sgrinio, yn unigol ac yn gyfun, gyda chynlluniau a phrosiectau eraill a arenwyd yn nodi a fydd unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol yn effeithio ar y safle, ac yn casglu a fydd effeithiau sylweddol yn debygol neu beidio.

2.1.3 Os na chlustnodir effeithiau sylweddol, bydd y broses yn dod i ben ar y cam hwn.

2.1.4 Os canfyddir y bydd yna effeithiau sylweddol tebygol, ar ôl cymhwyso'r egwyddor ragofalus, mae'n rhaid i'r cynllun fod yn amodol ar Asesiad Priodol (AA) o'i oblygiadau i'r safle Ewropeaidd gan ystyried amcanion cadwraeth y safle. Dylid defnyddio'r gwaith a wnaethpwyd yn ystod y cam casglu tystiolaeth a'r cam sgrinio er mwyn cynorthwyo wrth asesu effeithiau'r opsiwn cynllunio ar yr amcanion cadwraeth.

2.2 Pennu'r 'effeithiau arwyddocaol tebygol'

2.2.1 Er mwyn penderfynu a yw cynllun datblygu ar un rhyw gam angen asesiad priodol, mae angen cymhwyso dau brawf a nodir yn rheoliad 85B(1) y rheoliadau, sef:

- (1) A yw'r cynllun yn debygol o effeithio'n arwyddocaol ar safle Ewropeaidd neu safle morol Ewropeaidd ar y môr (naill ai'n unigol neu'n gyfun â chynlluniau neu brosiectau eraill?)
- (2) A yw'n uniongyrchol gysylltiedig â rheoli'r safle, neu'n angenrheidiol ar gyfer hynny?

2.2.2 Wrth gynnal yr asesiad yma, mae angen cael ymagwedd ragofalus. Dylid ystyried bod y cynllun datblygu yn 'debygol' o arwain at effaith o'r fath os na all yr awdurdod cynllunio (ar sail gwybodaeth wrthrychol) ddileu'r posibilrwydd y gallai'r cynllun effeithio'n arwyddocaol ar unrhyw safle Ewropeaidd neu safle morol Ewropeaidd ar y môr, naill ai'n unigol neu'n gyfun â chynlluniau neu brosiectau eraill.

2.2.3 Ystyrir y bydd effaith yn 'arwyddocaol' yn y cyd-destun hwn petai'n gallu tanseilio amcanion cadwraeth safle dynodedig Ewropeaidd. Mae'n rhaid asesu'r risg hwnnw (sy'n 'arwyddocaol') yng ngoleuni nodweddion ac amodau amgylcheddol penodol y safle dan sylw, ymysg pethau eraill.

2.2.4 Felly, bydd y cam sgrinio yn sgrinio allan elfennau o'r cynllun na fyddai'n achosi unrhyw effeithiau negyddol o gwbl ar safle Ewropeaidd, oherwydd na does yna unrhyw gysylltiad, na llwybr nac unrhyw berthynas arall rhwng effeithiau'r polisi neu gynnig ac unrhyw safle Ewropeaidd, yn cynnwys achosion pan fo'r cysylltiad wedi ei dorri neu ei ddileu gan bellter, neu oherwydd y byddai unrhyw effeithiau posibl yn gadarnhaol yn hytrach nag yn negyddol.

2.2.5 Os na ellir diystyru tebygolrwydd effeithiau arwyddocaol ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, mae'n rhaid tybio y gall risg o effeithiau arwyddocaol fodoli. Yna bydd raid ymdrin â'r rhain drwy naill ai newidiadau i'r cynllun, osgoi, neu drwy sicrhau camau lliniaru.

2.3 Canllawiau ar Werthusiad/Asesiad Priodol Rheoliadau Cynefinoedd

2.3.1 Mae'r fethodoleg ganlynol a ddatblygwyd ar gyfer sgrinio ARC yn seiliedig ar y rheoliadau a'r dogfennau canllawiau canlynol:

Rheoliadau:

- Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygiad) 2012 (y 'Rheoliadau Cadwraeth').
- Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar Warchod Cynefinoedd Naturiol a Phlanhigion ac Anifeiliaid Gwyllt (y 'Gyfarwyddeb Cynefinoedd').

Canllawiau:

- Asesu cynlluniau a phrosiectau sydd yn effeithio'n arwyddocaol ar safleoedd Natura 2000. Y Comisiwn Ewropeaidd (2001).
- Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (2006). Cynllunio ar gyfer Gwarchod Safleoedd Ewropeaidd: canllawiau ar gyfer Strategaethau Gofodol Rhanbarthol a Dogfennau Datblygu Lleol.
- TAN 5
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Pecyn cymorth i gynorthwyo Sgrinio ARC a Asesiad Priodol o Gynlluniau. Grŵp Cynllunio Strategol De Ddwyrain Cymru (SEWSPG) (2008)
- DTA Publications Limited The Habitats Regulations Assessment Handbook.

3. Sgrinio

3.1 Tasg 1: Clustnodi a phennu nodweddion Safleoedd Ewropeaidd

3.1.1 Gall cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau arwain at oblygiadau gofodol sydd yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau bwriadol y cynllun. Cydnabyddir nad yw pellter ynddo ei hun yn ganllaw pendant mewn perthnasu â thebygolrwydd neu ddifrifoldeb effaith, a bydd ffactorau megis cyfeiriad y prifwynt, cyfeiriad llif afon a chyfeiriad llif dŵr tir yn effeithio ar y pellter perthnasol ble gall effaith ddigwydd. Mae hynny yn golygu y gallai cynllun sydd yn cyfeirio datblygiad beth pellter oddi wrth Safle Ewropeaidd effeithio o hyd ar y safle, ac felly byddai angen ei ystyried fel rhan o'r broses sgrinio.

3.1.2 Mae safleoedd Ewropeaidd y gallai Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin effeithio'n arwyddocaol arnynt o bosibl wedi cael eu nodi drwy ddata a gafwyd drwy Gyfeiriadur Dynodiadau Safleoedd Gwarchoddedig y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) a thrwy gymhwyso byffer 15km o ffiniau'r Sir, er mwyn ystyried yr effeithiau trawsffiniol posibl.

3.1.3 Mae yna 12 o safleoedd dynodedig o fewn ffiniau Sir Gaerfyrddin, ac fe'u rhestrir yn y tabl isod.

Safle Ewropeaidd o fewn Ffiniau'r Cynllun	Dynodiad
Afon Tywi	ACA
Caeau Mynydd Mawr	ACA
Cernydd Carmel	ACA
Twyni Bae Caerfyrddin	ACA
Afon Teifi	ACA
Afonydd Cleddau	ACA
Bae ac Aberoedd Caerfyrddin	ACA
Cwm Doethie – Mynydd Mallaen	ACA
Bae Caerfyrddin	AGA
Elenydd - Mallaen	AGA
Cilfach Tywyn	AGA
Cilfach Tywyn	Mae Sgrinio Ramsar


3.1.4 Wedi clustnodi 13o safleoedd dynodedig eraill sydd o fewn y parth byffer 15 km ac allai ddioddef effeithiau trawsffiniol strategaeth a ffafrir Sir Gaerfyrddin.

safle Ewropeaidd o fewn y byffer 15km o amgylch Ffiniau'r Cynllun	Dynodiad	Pellter o ffiniau'r Cynllun (km)
Bae Ceredigion	ACA	9.2km
Coetiroedd Gogledd Sir Gaerfyrddin	ACA	9.0km
Ucheldir Yerboston	ACA	8.8km
Rhos Llawr-cwrt	ACA	7.5km
Safleoedd Ystlumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton	ACA	6.9km
Coedydd Ynn Gŵyr	ACA	8.8km
Sir Benfro Forol	ACA	4.7km
Tiroedd Comin Gŵyr	ACA	4.0km
Afon Gwy	ACA	1.7km

Gweunydd Blaencleddau	ACA	1.9km
Preseli	ACA	0.5km
Mynydd Epynt	ACA	1.8km
Afon Wysg	ACA	0.2km

3.1.5 Mae Atodiad 1 yn darparu crynodeb o bob un safle Ewropeaidd y credir y bydd Strategaeth Sir Gaerfyrddin yn effeithio arnynt, ac mae'n nodi amcanion cadwraeth ac asesiad cyflwr ar gyfer pob un o'r nodweddion o ddiddordeb ym mhob safle. Mae gwybodaeth am nodweddion safle pob un o'r safleoedd a glustnodir ar gael yn y Cynllun Rheoli Craidd ategol a ffurflen data safonol Natura 2000 ar gyfer pobl safle, y gellir cael mynediad atynt drwy wefan y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur.

Ffigwr 1 Lleoliad safleoedd Ewropeidd mewn perthynas â Sir Gaerfyrddin.



3.2 Tasg 2: Sgrinio'r Strategaeth a Ffafir er mwyn clustnodi effeithiau tebygol posibl ar Safleoedd Ewropeaidd

3.2.1 Mae'r bennod hon yn nodi sgrinio rhagarweiniol effeithiau tebygol arwyddocaol posibl Strategaeth a Ffafir Cyn Adneuo Drafft Sir Gaerfyrddin ar amcanion cadwraeth y safleoedd Ewropeaidd a nodit yn Nhasg 1.


3.2.2 Bydd y safleoedd hynny y nodir bod iddynt Effeithiau Arwyddocaol Tebygol (EAT), o ganlyniad i weithredu'r Strategaeth a Ffafir, neu'r safleoedd Ewropeaidd hynny yr oedd yr effeithiau arnynt yn ansicr, yn cael eu symud ymlaen ar gyfer asesiad sgrinio manwl.

Sganio a dewis safleoedd Ewropeaidd yr effeithir arnynt o bosibl.

3.2.3 Mae'r cam sganio yn clustnodi safleoedd y gall y cynllun effeithio arnynt cyn belled ag sydd yn angenrheidiol ar gyfer safleoedd, ac yn clustnodi cysylltiadau rhwng cynigion y cynllun a nodweddion cymwys y safle.

3.2.4 Mae'r rhestr wirio a ddarperir yn Tabl 2 yn clustnodi ffyrdd posibl i'r Strategaeth a Ffafir effeithio ar safleoedd Ewropeaidd. Mae'r rhestr wirio yma yn adlewyrchu ac yn ymhelaethu ar ganllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), ac mae'n darparu ffordd systematig a thryloyw o adnabod safleoedd fydd y Strategaeth a Ffafir yn effeithio arnynt o bosibl.

Ffigur 2 Ffynhonnell Effaith, llwybr, Model derbynydd



3.2.5 Mae'r broses hon yn galluogi llunio 'rhestr fer' briodol o safleoedd yr effeithir arnynt o bosibl, ac o hon gellir dewis rhestr derfynol o safleoedd fydd yn cael eu cynnwys i'w hasesu ar ôl ystyried y wybodaeth berthnasol. Mae dewis safleoedd yn broses iteraidd, sy'n golygu ystyried ac ailystyried nes y ceir elfen foddhaol o hyder bod yr holl safleoedd y byddir o bosibl yn effeithio'n niweidiol arnynt wedi cael eu dewis.

3.2.6 Os nad oes yna gysylltiad anffurfiol rhwng cynigion y Cynllun a nodweddion cymwys y safleoedd, ni all effaith fodoli. Os oes yna lwybr neu achos 'damcaniaethol', ond yn ymarferol nad oes tystiolaeth gredadwy o wir gysylltiad â'r safle, ni ellir ystyried ei fod yn arwyddocaol o bosibl, naill ai'n unigol nag yn gyfun â chynlluniau neu brosiectau eraill. Nid oes pwynt cynnwys y dybiaeth honno mewn asesiad pellach.

3.2.7 Mae'r sgan yma yn eang, ond mae defnyddio dull systematig yn debygol o sicrhau cydymffurfiaeth a darparu tystiolaeth gredadwy a dangos tystiolaeth o sut y sganwyd ac y dewiswyd safleoedd.

3.2.8 Mae'r rhestr sganio yn cynnwys cynlluniau yn ôl:

- Math - e.e. cynlluniau sydd yn cynyddu maint y datblygiad
- Effaith bosibl ar yr adnodd - e.e. yr amgylchedd dŵr neu rywogaeth symudol

- Natur effeithiau posibl - e.e. cynlluniau sydd yn cyflwyno gweithgareddau newydd allai effeithio ar ansawdd aer.

Tabl 2 Sganio a rhestr dewis safleoedd ar gyfer safleoedd y gallai'r cynllun effeithio arnynt o bosibl.

Mathau o gynllun	Meini prawf dewis safle	Safleoedd a ddewiswyd i'w hystyried ymhellach
1. Pob cynllun (daeareol, arfordirol a morol)	Safleoedd yn ardal y cynllun	ACAau
		<ul style="list-style-type: none"> Afon Tywi Caeau Mynydd Mawr Cernydd Carmel Twyni Bae Caerfyrddin Afonydd Cleddau Afon Teifi Bae ac Aberoedd Caerfyrddin Cwm Doethie – Mynydd Mallaen
		AGA/Ramsar
2. Cynlluniau allai effeithio ar yr amgylchedd dyfrol	Safleoedd i fyny'r afon neu i lawr yr afon o ardal y cynllun yn achos safleoedd sydd yn afonydd neu'n aberoedd	ACAau
		<ul style="list-style-type: none"> Bae ac Aberoedd Caerfyrddin Afon Wysg Afon Gwy
		AGA/Ramsar
Dŵr agored, mawndir, ffen, cors a safleoedd gwlypdir eraill sydd a chysylltiadau hydrolegol perthnasol â thir yn ardal y cynllun, beth bynnag fo'r pellter	Dŵr agored, mawndir, ffen, cors a safleoedd gwlypdir eraill sydd a chysylltiadau hydrolegol perthnasol â thir yn ardal y cynllun, beth bynnag fo'r pellter	ACAau
		<ul style="list-style-type: none"> Afon Teifi Caeau Mynydd Mawr Cernydd Carmel Twyni Bae Caerfyrddin Afonydd Cleddau Gweunydd Blaencleddau Preseli Afon Gwy
		AGA/Ramsar
3. Cynlluniau allai effeithio ar yr amgylchedd morol	Safleoedd y gallai newidiadau mewn ansawdd dŵr, cerrynt neu lif effeithio arnynt; neu effeithiau ar yr ardaloedd rhynglanwol neu islanwol neu wely'r môr neu rywogaethau morol.	ACAau
		<ul style="list-style-type: none"> Twyni a Bae Caerfyrddin Bae ac Aberoedd Caerfyrddin Bae Ceredigion Sir Benfro Forol
		AGA/Ramsar
4. Cynlluniau allai effeithio ar yr arfordir	Safleoedd yn yr un 'gell' arfordirol neu ran o'r un ecosystem arfordirol, neu ble mae yna ryngberthynas gyda neu rhwng	ACAau
		<ul style="list-style-type: none"> Twyni a Bae Caerfyrddin Bae ac Aberoedd Caerfyrddin Bae Ceredigion Sir Benfro Forol
		AGA/Ramsar

	gwahanol brosesau arfordirol ffisegol	<p>AGA/Ramsar</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Cilfach Tywyn ▪ Bae Caerfyrddin
5. Cynlluniau allai effeithio ar rywogaethau symudol	Safleoedd y mae eu nodweddion cymwys yn cynnwys rhywogaethau symudol y gallai'r cynllun effeithio arnynt beth bynnag fo lleoliad y cynlluniau neu p'un a fyddai'r rhywogaeth ar y safle neu beidio pryd y gellid effeithio arnynt.	<p>ACAau</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Afon Tywi ▪ Afon Teifi ▪ Afonydd Cleddau ▪ Bae ac Aberoedd Caerfyrddin ▪ Caeau Mynydd Mawr ▪ Bae Ceredigion ▪ Sir Benfro Forol ▪ Afon Gwy ▪ Afon Wysg ▪ Coetiroedd Gogledd Sir Gaerfyrddin ▪ Safleoedd Ystumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton ▪ Ucheldir Yerboston ▪ Rhos Lawr Cwrt ▪ Preseli ▪ Tiroedd Comin Gŵyr
		<p>AGA/Ramsar</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Bae Caerfyrddin ▪ Cilfach Tywyn
		<p>ACA</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Afon Teifi ▪ Bae ac Aberoedd Caerfyrddin ▪ Twyni Bae Caerfyrddin ▪ Cwm Doethie – Mynydd Mallaen
		<p>AGA/Ramsar</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Cilfach Tywyn ▪ Bae Caerfyrddin ▪ Elenydd - Mallaen
6. Cynlluniau allai gynyddu pwysau hamdden ar safleoedd Ewropeaidd sydd o bosibl yn agored i bwysau o'r fath.	Safleoedd o'r fath yn ardal y cynllun	<p>ACA</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Afon Teifi ▪ Bae ac Aberoedd Caerfyrddin ▪ Twyni Bae Caerfyrddin ▪ Cwm Doethie – Mynydd Mallaen <p>AGA/Ramsar</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Cilfach Tywyn ▪ Bae Caerfyrddin ▪ Elenydd - Mallaen
	Safleoedd o fewn pellter teithio rhesymol i ffiniau ardal y cynllun y gallai pwysau hamdden lleol neu bwysau arall gan ymwelwyr o fewn ardal y cynllun effeithio arnynt.	Dim
	Safleoedd sydd â phellter teithio pellach o ardal y cynllun sydd yn atyniadau twristaidd mawr (yn rhanbarthol a chenedlaethol), megis safleoedd sydd yn Warchodfeydd Natur Cenedlaethol ble mae ymweliadau gan y cyhoedd yn cael eu hyrwyddo, safleoedd mewn Parciau Cenedlaethol, safleoedd arfordirol	Dim

	a safleoedd mewn cyrchfannau twristaidd mawr eraill.	
7. Cynlluniau fyddai'n cynyddu swm y datblygu	Safleoedd yn ardal y cynllun neu du hwnt a ddefnyddir ar gyfer echdynnu dŵr, neu y gallai hynny effeithio arnynt, beth bynnag fo'r pellter o ardal y cynllun	<p>ACAau</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Afon Teifi ▪ Afon Tywi ▪ Afonydd Cleddau ▪ Caeau Mynydd Mawr ▪ Bae Ceredigion ▪ Bae ac Aberoedd Caerfyrddin ▪ Twyni Bae Caerfyrddin ▪ Cernydd Carmel ▪ Cwm Doethie – Mynydd Mallaen ▪ Mynydd Epynt ▪ Preseli ▪ Afon Gwy ▪ Afon Wysg ▪ Ucheldir Yerboston ▪ Safleoedd Ystlumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton ▪ Sir Benfro Forol ▪ Tiroedd Comin Gŵyr <p>AGA/Ramsar</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Cilfach Tywyn ▪ Bae Caerfyrddin
	safleoedd a ddefnyddir ar gyfer gollwng elifion o ddŵr o waith trin dŵr gwastraff neu ffrydiau rheoli gwastraff sydd yn gwasanaethu ardal y cynllun, neu y gallai hynny effeithio arnynt, beth bynnag fo'r pellter.	<p>ACAau</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Afon Teifi ▪ Afon Tywi ▪ Afonydd Cleddau ▪ Bae Ceredigion ▪ Bae ac Aberoedd Caerfyrddin ▪ Cernydd Carmel ▪ Afon Gwy ▪ Afon Wysg ▪ Safleoedd Ystlumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton ▪ Sir Benfro Forol <p>AGAAu/Ramsar</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cilfach Tywyn • Bae Caerfyrddin
	Safleoedd y gallai darparu trafndiaeth newydd neu estynedig neu eilwaith arall effeithio arnynt	Dim
	Safleoedd y gallai cynnydd mewn dyddodiadau llygryddion aer fyddai'n deillio o'r cynllun, yn cynnwys allyriadau o ganlyniad i gynnydd arwyddocaol mewn traffig, effeithio arnynt.	<p>ACAau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Caeau Mynydd Mawr • Bae ac Aberoedd Caerfyrddin • Twyni a Bae Caerfyrddin • Cernydd Carmel • Afonydd Cleddau • Cwm Doethie – Mynydd Mallaen

		<ul style="list-style-type: none"> • Coedydd Ynn Gŵyr • Tiroedd Comin Gŵyr • Gweunydd Blaencleddau • Mynydd Epynt • Safleoedd Ystumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton • Sir Benfro Forol • Preseli • Rhos Llawr-cwrt • Coetiroedd Gogledd Sir Gaerfyrddin • Ucheldir Yerboston
		AGA/Ramsar
		<ul style="list-style-type: none"> • Bae Caerfyrddin • Cilfach Tywyn
8. Cynlluniau ar gyfer datblygiadau llinol neu seilwaith	Safleoedd o fewn pellter penodol o llinell ganol llwybr arfaethedig (neu lwybrau amgen), gallai'r pellter amrywio yn ddibynnol ar fath y safle/nodweddion cymwys, ac yn absenoldeb safonau ymarfer da sefydledig, y corff byd natur statudol fydd yn cytuno ar y pellterau.	Dim (Nid yw'r cynllun yn creu risgiau o'r fath)
9. Cynlluniau sydd yn cyflwyno gweithgareddau newydd neu ddefnydd newydd i'r amgylchedd morol, arfordirol neu ddaearol	Mae gan y safleoedd nodweddion cymwys sydd o bosibl yn agored neu'n sensitif i effeithiau'r gweithgareddau newydd a gynigir gan y cynllun	Dim (Nid yw'r cynllun yn creu risgiau o'r fath)
10. Cynlluniau allai newid natur, ardal, maint, dwysedd, amseru neu raddfa gweithgareddau defnydd presennol.	Mae gan y safleoedd nodweddion cymwys sydd o bosibl yn agored neu'n sensitif i effeithiau'r newid i weithgareddau presennol a gynigir gan y cynllun	Dim (Nid yw'r cynllun yn creu risgiau o'r fath)
11. Cynlluniau allai newid swm, ansawdd, amseru, triniaeth neu liniaru allyriadau neu ollyngiadau i'r aer, dŵr neu dir	Safleoedd yr ystyrir bod ganddynt nodweddion cymwys sydd o bosibl yn agored neu'n sensitif i'r newidiadau mewn allyriadau neu ollyngiadau allai ddeillio o ganlyniad i'r cynllun (yn ychwanegol at y rhai a nodwyd eisoes)	Dim (Nid yw'r cynllun yn creu risgiau o'r fath)
12. Cynlluniau allai newid swm, amseru, cyfradd neu nodweddion eraill sy'n perthyn i	Safleoedd y mae eu nodweddion cymwys yn cynnwys yr adnoddau biolegol y gall y cynllun effeithio arnynt, neu y mae eu nodweddion cymwys yn dibynnu ar yr adnoddau	Dim (Nid yw'r cynllun yn creu risgiau o'r fath)

adnoddau biolegol gaiff eu cynaeafu, a echdynnir neu a ddefnyddir.	biolegol y gall yr cynllun effeithio arnynt e.e. fel rhywogaethau ysglyfaeth neu gynefinoedd cefnogol neu ellid effeithio arnynt o ganlyniad i'r cynaeafu, echdynnu neu ddefnyddio.	
13. Cynlluniau allai newid swm, amseru, cyfradd neu nodweddion eraill sy'n perthyn i adnoddau ffisegol a echdynnir neu a ddefnyddir.	Safleoedd mae eu nodweddion cymwys yn dibynnu ar yr adnoddau anffiolegol y gall y cynllun effeithio arnynt e.e. fel cynefin neu amgylchedd ffisegol y gall cynefin ddatblygu arno neu allai'r echdynnu neu'r defnyddio effeithio arno.	Dim (Nid yw'r cynllun yn creu risgiau o'r fath)
14. Cynlluniau allai gyflwyno, cynyddu neu newid amseru, natur neu leoliad aflonyddwch ar rywogaethau	Safleoedd yr ystyrir bod eu nodweddion cymwys yn agored neu'n sensitif o bosibl i aflonyddwch e.e. o ganlyniad i sŵn, gweithgaredd neu symudiad, neu bresenoldeb nodweddion aflonyddgar allai ddeillio o'r cynllun.	ACAau
		<ul style="list-style-type: none"> • Afon Teifi • Afon Tywi • Afonydd Cleddau • Bae Ceredigion • Bae ac Aberoedd Caerfyrddin • Cwm Doethie • Tiroedd Comin Gŵyr • Coedydd Ynn Gŵyr • Coetiroedd Gogledd Sir Gaerfyrddin • Sir Benfro Forol • Safleoedd Ystlumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton • Afon Gwy • Afon Wysg
		AGA/Ramsar
		<ul style="list-style-type: none"> • Cilfach Tywyn • Bae Caerfyrddin
15. Cynlluniau allai gyflwyno, cynyddu neu newid amseru, natur neu leoliad llygredd golau neu sŵn	Safleoedd yr ystyrir bod eu nodweddion cymwys o bosibl yn agored i effeithiau newid mewn golau neu sŵn allai ddeillio o'r cynllun	ACAau
		<ul style="list-style-type: none"> • Afon Teifi • Afon Tywi • Afonydd Cleddau • Bae Ceredigion • Bae Caerfyrddin • Sir Benfro Forol • Safleoedd Ystlumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton • Afon Gwy • Afon Wysg
		AGAau
		<ul style="list-style-type: none"> • Cilfach Tywyn • Bae Caerfyrddin
16. Cynlluniau allai gyflwyno neu gynyddu achos	Safleoedd yr ystyrir bod eu nodweddion cymwys o bosibl yn agored i ffynhonnell marwoldeb	Dim (Nid yw'r cynllun yn creu risgiau o'r fath)

marwolaeth rhywogaethau o bosibl.	newydd neu gynyddol allai ddeillio o'r cynllun	
-----------------------------------	--	--

3.2.9 Yn seiliedig ar y rhestr wirio a gan ystyried natur, cwmpas, cynnwys a swyddogaeth y Strategaeth a Ffafrir, ystyrir y bydd angen i'r sgrinio ystyried yr ystod canlynol o effeithiau:

- Effeithiau ar yr amgylchedd dyfrol
- Effeithiau ar yr amgylchedd morol
- Effeithiau ar yr arfordir
- Effeithiau ar rywogaethau symudol
- Effeithiau hamdden
- Datblygiadau sy'n gysylltiedig ag effeithiau
 - Echdynnu dŵr
 - Gollwng elifion o ddŵr gwastraff
 - Effeithiau llygredd aer
- Effeithiau aflonyddu ar rywogaethau
- Effeithiau llygredd golau a sŵn

3.2.10 Mae pob mecanwaith effaith yn cael ei ystyried ar lefel generig mewn perthynas â'r strategaeth gyffredinol a ffafrir yn y paragraffau dilynol ac fe'u crynhoir yn Tabl 12, ble mae goblygiadau gwaith sgrinio ychwanegol wedi eu nodi. Pan fo tystiolaeth yn dangos na fydd mecanweithiau effaith penodol yn arwain at Effeithiau Arwyddocaol Tebygol ar safleoedd penodol, maent yn cael eu sgrinio allan yn ystod y cam yma rhag cael eu hasesu eto.

Effeithiau ar yr amgylchedd dyfrol

3.2.11 'Amgylchedd dyfrol' safle fel arfer yw'r corff o ddŵr sydd ar y safle, gan ystyried ei symudiad i, drwy ac allan o'r safle. Mae'r effeithiau a ystyriwyd o dan y pennawd yma yn gysylltiedig ag effeithiau lleol datblygiad ar y dŵr wyneb presennol a symudiad dŵr tir. Mae effeithiau uniongyrchol (megis dŵr ffo gwaddod neu lai o ymdreiddiad dŵr glaw) yn wahanol i effeithiau anuniongyrchol megis echdynnu dŵr a dŵr gwastraff, sydd yn cael eu hasesu ar wahân o dan 'effeithiau sy'n gysylltiedig â datblygu'.

3.2.12 Gall datblygu a newid defnydd tir effeithio ar yr amgylchedd dyfrol. Gall achosi i ddŵr ffo gyflymu drwy gynyddu wynebau caled a lleihau ardaloedd ble gall ymdreiddiad ddigwydd, a gall hynny gynyddu faint o gemegau neu lygryddion eraill sydd yn mynd i mewn y gyrsiau dŵr. Hefyd gellir arafu dŵr ffo, drwy gadw dŵr a chyflwyno systemau draenio cynaliadwy. Gall dŵr wyneb hefyd waddodi o ganlyniad i ddŵr ffo o safleoedd adeiladu neu ddargyfeirio cyrsiau dŵr i ddalgylchoedd eraill.

3.2.13 Mae safleoedd sydd o bosibl yn agored i'r effaith yma yn cael eu nodi yn **Tabl 3**. Yn achos yr holl safleoedd yma, ystyrir bod yr effeithiau ond yn debygol pan fo datblygiad yn agos i gwrs dŵr sydd â dilyniant hydrologig i'r safle, ac oherwydd hynny byddant yn destun sgrinio manwl. Am y rheswm hwnnw mae safleoedd a glustnodir yn cael eu sgrinio i mewn ar y cam yma, ac mae hynny yn cael ei grynhoi yn Tabl 3.

Tabl 3 Sgrinio rhagarweiniol y Safleoedd Ewropeaidd a nodwyd sy'n agored i effeithiau ar yr amgylchedd dyfrol

Safleoedd o nodwyd fel rhai agored i'r effaith yma	Angen Asesu Ychwanegol?	Rhesymau
ACA		
Bae ac Aberoedd Caerfyrddin	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
Afon Wysg	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
Afon Gwy	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
AGA/Ramsar		
AGA Bae Caerfyrddin	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
AGA/Ramsar Cilfach Tywyn	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
Elenydd - Mallaen	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl

Effeithiau ar yr amgylchedd morol

3.2.14 Gall datblygu a thwf arwain at effeithiau ar yr amgylchedd morol. Ystyrir bod yr effeithiau yma yn annhebygol, ond maent yn cael eu sgrinio i mewn ar gyfer yr holl safleoedd a nodir ar gyfer asesiad manwl, er mwyn bod yn rhagofalus. Mae safleoedd sydd yn sensitif i effeithiau ar yr amgylchedd morol a'r asesiad sgrinio rhagarweiniol wedi eu crynhoi yn Tabl 4.

Tabl 4 Sgrinio rhagarweiniol y Safleoedd Ewropeaidd a nodwyd sy'n agored i effeithiau ar yr amgylchedd morol

Safleoedd o nodwyd fel rhai agored i'r effaith yma	Angen Asesu Ychwanegol?	Rhesymau
ACA		
Twyni a Bae Caerfyrddin	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
Bae ac Aberoedd Caerfyrddin	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
Bae Ceredigion	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
Sir Benfro Forol	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
AGA/Ramsar		
AGA/Ramsar Cilfach Tywyn	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
AGA Bae Caerfyrddin	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl

Effeithiau ar yr arfordir

3.2.15 Gall datblygiadau newydd a thwf effeithio ar brosesau arfordirol. Gall gosod strwythurau amddiffyn yr arfordir er mwyn diogelu tir ac eiddo amharu ar symudiad naturiol y tywod ac erydiad, a gall hynny arwain at gywasgu arfordirol ac effeithiau ar ddeinameg arfordirol.

Hefyd mae gan bwysau hamdden cynyddol y potensial i addasu ffactorau a phrosesau cemegol ac amgylcheddol yn yr amgylchedd arfordirol, ac maent yn cael eu hasesu yn fanylach o dan 'effeithiau hamdden'. Ystyrir bod yr effeithiau yma yn annhebygol, ond maent yn cael eu sgrinio i mewn ar gyfer yr holl safleoedd a nodir ar gyfer asesiad manwl, er mwyn bod yn rhagofalus. Mae safleoedd sydd yn sensitif i effeithiau ar yr arfordir asesiad sgrinio wedi eu crynhoi yn Tabl 5.

Tabl 5 Sgrinio rhagarweiniol y Safleoedd Ewropeaidd a nodwyd sy'n agored i effeithiau ar yr arfordir

Safleoedd o nodwyd fel rhai agored i'r effaith yma	Angen Asesu Ychwanegol?	Rhesymau
ACA		
Twyni a Bae Caerfyrddin	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
Bae ac Aberoedd Caerfyrddin	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
Bae Ceredigion	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
Sir Benfro Forol	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
AGA/Ramsar		
AGA/Ramsar Cilfach Tywyn	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
AGA Bae Caerfyrddin	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl

Effeithiau ar rywogaethau symudol

3.2.16 Mae rhywogaethau symudol yn rhai a restrir fel nodweddion safle, sydd yn ddibynnol ar ardaloedd o dir y tu allan i ffiniau'r safle dynodedig, megis adar, ystlumod, pysgod etc. Mae'r rhywogaethau symudol a nodir fel rhai sy'n berthnasol i'r asesiad rhagarweiniol yma a'r safleoedd y maent wedi eu dynodi ynddynt wedi eu nodi yn Tabl 6.

Tabl 6 Sgrinio rhagarweiniol y Safleoedd Ewropeaidd a nodwyd sy'n agored i effeithiau ar yr arfordir

Safleoedd sydd â rhywogaethau symudol fel nodweddion dynodedig	Pellter y tu allan i ffiniau CSG	Rhywogaethau yr effeithir arnynt o Bosibl	Angen Asesu Ychwanegol?
O fewn ffiniau CSG			
ACA Afon Tywi	Ddim yn berthnasol	Gwangen	Na
		Herlyn	Na
		Lampreiod y môr	Na
		Lampreiod yr afon	Na
		Dyfrgwn	Oes
ACA Afon Tywi	Ddim yn berthnasol	Gwangen	Na
		Herlyn	Na
		Lampreiod y môr	Na
		Lampreiod yr afon	Na
		Dyfrgwn	Oes
		Eog yr Iwerydd	Na
ACA Afonydd Cleddau	Ddim yn berthnasol	Lampreiod yr afon	Na
		Lampreiod y môr	Na
ACA Bae ac Aberoedd Caerfyrddin	Ddim yn berthnasol	Gwangen	Na
		Herlyn	Na
		Lampreiod y môr	Na
		Lampreiod yr afon	Na
		Dyfrgwn	Oes
ACA Caeau Mynydd Mawr	Ddim yn berthnasol	Britheg y Gors	Oes
AGA Bae Caerfyrddin	Ddim yn berthnasol	Crynodiad o Adar	Oes
AGA/Ramsar Cilfach Tywyn	Ddim yn berthnasol	Crynodiad o Adar	Oes
Y tu allan i ffiniau CSG			
ACA Bae Ceredigion	9.2km	Dolffin trwyn potel	Na

		Morlo llwyd	Na
		Lampreiod y môr	Na
		Lampreiod yr afon	Na
ACA Sir Benfro Forol	4.7km	Morlo llwyd	Na
		Lampreiod y môr	Na
		Lampreiod yr afon	Na
		Herlyn	Na
		Gwangen	Na
		Dyfrgwn	Oes
Afon Gwy	1.7km	Gwangen	Na
		Herlyn	Na
		Lampreiod y môr	Na
		Lampreiod yr afon	Na
		Dyfrgwn	Oes
		Eog yr Iwerydd	Na
Afon Wysg	0.2km	Gwangen	Na
		Herlyn	Na
		Lampreiod y môr	Na
		Lampreiod yr afon	Na
		Dyfrgwn	Oes
		Eog yr Iwerydd	Na
Coetiroedd Gogledd Sir Gaerfyrddin	9km	Ystlum Du	Oes
Safleoedd ystlumod Sir Benfro	6.9km	Ystlum Pedol Mwyaf	Oes
		Ystlum Pedol Lleiaf	Na
		Dyfrgwn	Oes
Ucheldir Yerbeston	8.8km	Britheg y Gors	Na
Rhos Lawr-cwrt	7.5km	Britheg y Gors	Na
Preseli	0.5km	Britheg y Gors	Oes
Tiroedd Comin Gŵyr	4km	Britheg y Gors	Na

Gwangen, Herlyn, Lampreiod yr afon, Lampreiod y môr ac Eog yr Iwerydd

3.2.17 Mae Gwangen, Herlyn, Lampreiod yr afon, Lampreiod y môr ac Eog yr Iwerydd yn defnyddio llwybrau mudol drwy ACAau morydol ac afonol yn Sir Gaerfyrddin ar adeg gwahanol o'u cylch bywyd. Yn Sir Gaerfyrddin, mae'r rhain yn nodweddion dynodedig yn ACA afonydd Tywi, Teifi a'r Cleddau. Mae Afon Tywi yn arbennig o bwysig i'r herlyn a'r gwangen oherwydd tybir ei bod yn un o bedair afon yn unig yng Nghymru y mae'n hysbys eu bod yn silio.

3.2.18 Mae afonydd Tywi, Teifi a'r Cleddau yn llifo i aberoedd ble mae'r herlyn ar gangen a'r lampreiod yn nodweddion gwarchoddedig. Hefyd mae'r herlyn a'r gwangen a lampreiod yn rywogaethau dynodedig yn afonydd Wysg a Gwy, ac mae eu dalgylchoedd yn rhannol yn Sir Gaerfyrddin.

3.2.19 Mae effaith oddi ar y safle ar nodweddion yn y safleoedd yma yn debygol o fod yn ganlyniad i ansawdd dŵr neu effaith echdynnu Am y rheswm hwn, bydd yr holl effeithiau arwyddocaol tebygol ar herlyn, gwangen, lampreiod neu eog yr Iwerydd yn y safleoedd a restrir yn cael eu hasesu ymhellach ac yn fanylach o dan y pennawd 'effeithiau cysylltiedig â datblygu' ac ni fyddant yn cael eu hystyried ymhellach o dan y llwybr effaith yma.

Britheg y Gors

3.2.20 Mae Britheg y Gors yn nodweddion dynodedig mewn nifer o safleoedd o fewn y parth byffer 15km i'w hystyried o dan ARC. Mae amcanion cadwraeth ar gyfer Britheg y Gors yn nodi '*Bydd yna o leiaf 10ha o gynefin mewn Cyflwr Da (bridio optimaidd) ar neu o fewn radiws o 2km o'r ACA, wedi ei osod mewn matrices o o leiaf 50ha o gynefin mewn Cyflwr Addas*'.

3.2.21 Ystyrir bod y cyfan, heblaw am ACA Tiroedd Comin Gŵyr yn cefnogi cynefin annigonol er mwyn cyflawni statws cadwraeth da o dan yr amcan uchod, ac felly maent yn sensitif iawn i ddarnio a cholli cynefin o ganlyniad i ddatblygu o fewn radiws o 2km i ffiniau'r ACA.

3.2.22 Mae Ucheldir Yerboston, Rhos Lawr Cwrt ACA a Thiroedd Comin Gŵyr wedi eu lleoli dros 2km y tu allan ddylanwad uniongyrchol CDLI Sir Gaerfyrddin, ac felly mae pob un wedi eu sgrinio allan rhag ystyriaeth ymhellach o dan y llwybr effaith yma, oherwydd nad yw'r CDLI yn debygol o effeithio'n arwyddocaol ar ddarnio cynefinoedd yn y safleoedd yma.

3.2.23 Y safleoedd yr ystyrir eu bod yn agored o bosibl i effeithiau ar Fritheg y Gors yw: ACA Caeau Mynydd Mawr a ACA Preseli, oherwydd y gall y CDLI effeithio ar y byffer cynefinoedd 2km o amgylch y ACAu yma, ac felly mae'n rhaid eu hystyried ar y cam sgrinio manwl.

Ystlum Du

3.2.24 Mewn perthynas ag effeithiau posibl oddi ar y safle ar yr Ystlum Du, mae cynllun rheoli Coetiroedd Gogledd Sir Gaerfyrddin yn nodi 'Un bygythiad i ddyfodol yr ystlum du yw bod tua hanner y safleoedd clwydo a'r rhan fwyaf o'r ardaloedd porthianna y tu allan i ffiniau'r ACA, oherwydd bod y ffiniau wedi cael eu pennu cyn i'r ystlumod gael eu darganfod.

Er mwyn mynd i'r afael â hynny, mae gan y cynllun rheoli safle yr amcanion cadwraeth canlynol ar gyfer nodwedd yr Ystlum Du:

'bydd yna gynefin porthianna parhaus o fewn radiws o 16km o amgylch Coedwig Pengelli, yn cynnwys dyffrynnoedd coediog a nentydd, gwrychoedd isel a rhai wedi gordyfu, prysg, porfeydd wedi gordyfu, standiau wedi torri a choetir (all gynnwys planhigfeydd conwydden).'

'Bydd manau clwydo y tu allan i ffin [y ACA] yn cael eu gadael heb aflonyddu arnynt, ac ni fyddir yn rheoli coetir o fewn 50m o fam clwydo Ystlum Du ac ni fyd haen prysg yn cael ei glirio.'

3.2.25 O ganlyniad, bydd angen cynnal sgrinio manwl er mwyn clustnodi effeithiau unrhyw effeithiau posibl ar cynefin porthianna o fewn radiws o 16km o gwmpas Pengelli a ddefnyddir gan yr Ystlum Du.

Yr Ystlum Pedol Mwyaf a Lleiaf

3.2.26 Mae'r Yr Ystlum Pedol Mwyaf a Lleiaf yn nodweddion yn Safleoedd ystlumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton, sydd yn safle pwysig i nifer o rywogaethau o ystlumod, ac mae'n cynnwys ystod o safleoedd clwydo pwysig a safleoedd clwydo meithrin ar gyfer ystod o rywogaethau o ystlumod.

3.2.27 Mae Cynllun Rheoli Safleoedd Ystlumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton yn nodi y bydd rhwng 1-16km o '*systemau gwrychoedd helaeth a chrysiâu dŵr â choed ar y glannau, sydd yn cysylltu safleoedd clwydo a glaswelltiroedd ac ardaloedd porthianna yn cael eu cadw o fewn hyd at 16km o'r safleoedd clwydo yma*' yn yr SSSI cydrannol.

3.2.28 Mae hefyd yn nodi y gellir defnyddio rhwng 7-16 km o'r SSSI cydrannol ar gyfer porthianna, ond gall llwybrau hedfan arwain ymhellach gan gysylltu â safleoedd clwydo eraill. Ac y dylai 'Pob safle clwydo sy'n hysbys i CCC gael eu cynnal heb unrhyw ddirywiad ffisegol nac aflonyddwch, na cholli cyfle i glwydo o fewn radiws o 1-16km o'r safleoedd clwydo allweddol yn y ACA.

3.2.29 Mae Safleoedd Ystlumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton yn fwy na 16km y tu allan i ffin Sir Gaerfyrddin, ac felly ni fydd yna unrhyw effeithiau oddi ar y safle fydd yn effeithio'n arwyddocaol ar yr amcan hwn. Ond, mae'n berthnasol i'r asesiad yma nad yw'r cynllun rheoli yn cyfeirio at gofnodion cronol, sydd yn dangos bod yr Ystlum Pedol Mwyaf yn defnyddio safleoedd clwydo yn rhanbarth Gorllewin Cymru drwyddi draw, yn cynnwys Sir Gaerfyrddin.

3.2.30 Felly ni ystyrir y bydd effeithiau oddi ar y safle o ganlyniad i'r CDLI yn effeithio'n arwyddocaol ar rywogaethau Ystlumod Lleiaf, ac maent wedi eu sgrinio allan o asesiad pellach. Byddai angen gwirio cofnodion er mwyn hysbysu sgrinio unrhyw ardaloedd o'r fath yr ystyrir ar gyfer datblygu mewn perthynas â bygythiadau posibl i Ystlum Pedol Mwyaf, ac oherwydd hynny bydd hyn yn cael ei symud ymlaen ar gyfer sgrinio manwl.

Dyfrgwn Ewropeaidd

3.2.31 Mae dyfrgwn Ewropeaidd yn nodweddion dynodedig mewn nifer o safleoedd Ewropeaidd a ystyrir ar gyfer sgrinio yn y ddogfen hon, yn cynnwys Afon Tywi, Afon Teifi, Afonydd Cleddau, Bae ac Aberoedd Sir Gaerfyrddin, Safleoedd Ystlumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton, Sir Benfro Forol, ACAau Afon Gwy ac Afon Wysg. Mae cynlluniau rheoli ar gyfer yr holl safleoedd y cyfeiriwyd atynt eisoes yn amlygu y gall 'datblygiadau sydd yn effeithio ar safleoedd gorffwys a bridio y tu allan i ffiniau ACA' effeithio ar ddyfrgwn.

3.2.32 Mewn perthynas â ACAau afonol, mae'r cynlluniau rheoli yn nodi bod 'dyfrgwn angen cynnal cynefin torlannol tawel ar gyfer bridio a gorffwys mewn ardaloedd sy'n ffinio â'r ACAau, a bod y ffocws mewn ardaloedd trefol yn aml ar gynnal yr afon fel 'coridor cyfathrebu' heb ystyried gofynion y cynefinoedd ategol amgylchynol, fydd yn galluogi i goridor yr afon weithio'n effeithiol. Felly,

3.2.33 Un maes penodol berthnasol yw cynnydd mewn defnydd ffyrdd, oherwydd amlygwyd bod marwolaethau dyfrgwn ar y ffyrdd yn effeithio'n arwyddocaol o bosibl ar niferoedd mewn dalgylchoedd afonydd.

3.2.34 Hefyd, mae'n debygol iawn bod dyfrgwn yn teithio rhwng cyrsiau dŵr ac ar hyd ar arfordir, gan ddefnyddio cyrsiau dŵr mewndirol ar gyfer bridio, ac ardaloedd arfordirol ar gyfer porthianna. Mae'n hysbys bod dyfrgwn yn defnyddio rhannau o'r arfordir yn ACAau Bae ac Aberoedd Caerfyrddin a Sir Benfro Forol ac ardaloedd ffiniol, ac mae'n debygol bod dyfrgwn sydd yn bresennol mewn safle penodol yn rhan o'r boblogaeth ehangach, ac nad oes yna un safle sydd yn gwbl ynysig. Mae'r cysylltiadau a bwysleisir rhwng y ACAau arfordirol a ACAau afonydd Tywi a Chleddau, sydd o fewn ffiniau Sir Gaerfyrddin, yn berthnasol i'r asesiad yma.

3.2.35 Mae hynny yn dangos bod dyfrgwn yn symudol iawn rhwng y ACAau y cyfeiriwyd atynt eisoes, ac oherwydd hynny maent yn wynebu risg o ganlyniad i effeithiau'r CDLI y tu allan i ffiniau'r ACA.

3.2.36 O ystyried hynny, bydd angen sgrinio manwl er mwyn clustnodi unrhyw ddyraniadau safle allai effeithio ar ddefnyddio ardaloedd tir addas y tu allan i ffiniau'r ACA gan ddyfrgwn.

Dolffin Trwyn Potel a'r Morlo Llwyd

3.2.37 Nid yw rhywogaethau Dolffin trwyn potel na'r Morlo Llwyd yn defnyddio'r dyfrffyrdd sydd yn ardal yn cynllun fel rhan o'u cwmpas naturiol. Fodd bynnag, mae gan faterion ynghylch ansawdd dŵr i fyny'r afon yn y Cleddau a'r Teifi y potensial i effeithio'n negyddol ar y ddau rywogaeth yn ACA Bae Ceredigion a ACA Sir Benfro Forol, ac ar eu hysgylfaeth naturiol. **Byddir yn ymdrin a hynn yn fanylach o dan y pennawd 'effeithiau sy'n gysylltiedig â datblygu' ac felly ni fydd yn cael ei ystyried ymhellach o dan y llwybr effaith yma.**

AGA Crynodiad Adar

3.2.38 Mae'r rhestr o rywogaethau adar AGA Cilfach Tywyn a Bae Caerfyrddin yn cael eu hystyried hefyd fel rhai 'symudol', oherwydd ar lanw uchel mae nifer o'r rhywogaethau hirgoes yn debygol o geisio lloches mewn cynefinoedd ategol y tu allan i ffiniau'r AGA. Mae hynny'n digwydd oherwydd bod cynefinoedd sydd uwch ben y llanw uchel cymedrig yn rhy llawn, neu maent adar sy'n clwydo yn aflonyddu arnynt, pan fo adar sydd yn defnyddio cynefinoedd rhynglanwol yn cael eu gorfodi allan gan y llanw ar ei ffordd i mewn. Felly, bydd raid i'r adar ar adegau penodol ddefnyddio cynefinoedd ategol y tu allan i'r AGA sydd yn aml yn cynnwys tir â'r neu gaeau chwarae hamdden. Yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth i'r gwrthwyneb, gall rhywogaethau adar ddefnyddio unrhyw dir addas o fewn 1km i'r tir o'r AGA fel cynefinoedd ategol ar lanw uchel neu yn ystod tywydd garw.

3.2.39 Bydd angen gwirio cofnodion er mwyn hysbysu sgrinio unrhyw ardal o'r fath yr ystyrir ar gyfer eu datblygu, a byddant yn cael eu hystyried mewn sgrinio manwl pellach.

Effeithiau hamdden

3.2.40 Mae effeithiau pwysau hamdden ar ACAu a AGAau yn bennaf yn gysylltiedig â difrod i gynefinoedd ac aflonyddu ar rywogaethau y dynodwyd y safle ar eu cyfer. Fel arfer bydd difrod i gynefinoedd yn digwydd o ganlyniad i sathru, sydd dros gyfnod o amser yn gallu achosi i lwybrau gael eu sefydlu a'u lledu o ganlyniad i hynny. Hefyd, gall gwisgo llwybrau o ganlyniad i ddefnydd achosi neu gyflym erydiad, sydd yn arwain at fwy o ddifrod i gynefinoedd. Gall mwy o fynediad hefyd gynyddu'r tebygolrwydd o rywogaethau ymwithol anfrodorol yn cael eu cyflwyno i'r ACA.

3.2.41 Mae aflonyddu ar rywogaethau mewn ACAu a AGAau a/neu effeithiau arnynt yn bennaf yn ganlyniad i fwy o ddefnydd o'r safleoedd, a gall hynny arwain at gynnydd mewn gweithgareddau megis mynd â chŵn am dro, pysgota hamdden, yn ogystal â gweithgareddau eco-dwristiaeth, cycha hamdden a llygredd sydd yn gysylltiedig â defnydd anthropogenig o safle. Byddir yn ymdrin ag effeithiau hamdden ar rywogaethau yn fanylach o dan y pennawd 'Effeithiau aflonyddu ar rywogaethau'.

3.2.42 Mae Adran 9 y strategaeth a ffafrir yn nodi y byddai'r opsiwn twf strategol y mae'r strategaeth edi ei seilio arno yn arwain at newid o +16,567 yn y boblogaeth, sydd yn cynrychioli twf o +9.4% yn ystod cyfnod y cynllun. Oni bai bod datblygiad yn digwydd yn agos iawn i safle Ewropeaidd, gellir tybio, ar sail ragofalus, y bydd dyraniadau CDLI yn arwain at gynnydd cymesurool o 9.4% mewn niferoedd ymwelwyr yn ystod cyfnod y cynllun.

3.2.43 Nodir bod 7 safle o bosibl yn sensitif i bwysau hamdden. Mewn perthynas ag effeithiau posibl y gweithgareddau hamdden sydd yn gysylltiedig â'r twf mewn poblogaeth yn *gyffredinol*, ystyrir y bydd y camau rheoli gweithgareddau safle presennol yn gallu sicrhau y bydd safleoedd yn gallu ymdopi â'r cynnydd cyffredinol disgwylidig o tua 0.63% mewn niferoedd ymwelwyr bob blwyddyn heb unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol ar gadwraeth.

3.2.44 Bydd unrhyw effeithiau sydd yn gysylltiedig â datblygu yn agos at safle Ewropeaidd, allai gynhyrchu effeithiau mewn perthynas â mwy o bwysau hamdden, yn cael eu hystyried mewn sgrinio manwl pellach.

3.2.45 Mae crynodeb o sgrinio rhagarweiniol safleoedd Ewropeaidd y clustnodwyd eu bod o bosibl yn agored i effeithiau hamdden ar gael yn Tabl 7

Tabl 7 Sgrinio rhagarweiniol y Safleoedd Ewropeaidd a nodwyd sy'n agored i effeithiau hamdden

Safleoedd o nodwyd fel rhai agored i'r effaith yma	Angen mwy o sgrinio?	Rhesymau
ACA		
Afon Teifi	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
Bae ac Aberoedd Caerfyrddin	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
Twyni Bae Caerfyrddin	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
Cwm – Doethie – Mynydd Mallaen	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
AGA/Ramsar		
AGA Cilfach Tywyn	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
AGA/Ramsar Bae Caerfyrddin	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
Elenydd – Mallaen AGA	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl

Effeithiau o ganlyniad i ddatblygu Echdynnu dŵr

3.2.46 Mae datblygu yn arwain at fwy o alw am gyflenwadau dŵr, a gall effeithiau posibl cynnydd mewn cyfraddau echdynnu ar lefelau dŵr wyneb a dŵr tir gynrychioli effeithiau arwyddocaol tebygol ar safleoedd Ewropeaidd.

3.2.47 Gall cyflenwad dŵr ar gyfer datblygiad newydd gael ei echdynnu o ffynhonnell sydd beth pellter o wir leoliad y datblygiad. O ganlyniad, mae'n rhai i effeithiau posibl datblygu drwy gynydd mewn echdynnu gael ei hysbysu gan Gynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (WRMP) Dŵr Cymru (DCWW).

3.2.48 Mae echdynnu yn cael ei drwyddedu gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC), sef yr awdurdod cymwys o dan y Rheoliadau Cynefinoedd, felly cyfrifoldeb CNC yn bennaf yw osgoi effeithiau niweidiol ar safleoedd Ewropeaidd o ganlyniad i echdynnu. Ond, mae'n rhaid i ARC y Cynllun Adneuo gydnabod bod yr opsiynau caniatáu a rheoli sydd ar gael i CNC yn gyfyngedig oherwydd argaeledd dŵr. Mae'n ddyletswydd ar Dŵr Cymru i gyflenwi datblygiadau newydd, ac mae yna densiwn yn yr ARC os yw'n tybio y gall CNC yn syml ganiatáu unrhyw gynydd cysylltiedig mewn echdynnu mewn modd fydd yn osgoi effeithiau niweidiol ar Safleoedd Ewropeaidd.

3.2.49 Cyfrifoldeb ARC y cynllun adneuo yw sicrhau bod dyrannu tai o ganlyniad i'r Strategaeth a Ffafir yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n golygu bod yna opsiynau hyfyw ar gael i CNC a DCWW er mwyn bodloni galwadau am gyflenwadau dŵr ac osgoi effeithiau niweidiol ar uniondeb unrhyw safle Ewropeaidd.

3.2.50 Mae gofynion adnoddau dŵr Sir Gaerfyrddin yn cael eu bodloni'n gyfan gwbl gan DCWW, ac mae'r sir wedi ei lleoli o fewn system ddefnydd gysylltiol Tywi (Tywi WRZ). Mae Cynllun Rheoli Adnoddau DCWW drafft¹ (WRMP) yn rhagfynegi y bydd gan Tywi WRZ gyfenwadau dros ben drwy gydol cyfnod y CDLI², yn seiliedig ar y cynnydd o 14.6% a ragfynegir mewn niferoedd aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin rhwng 2014 a 2039³, a chynnydd o 82,751 i 89,532 rhwng 2018 a 2033⁴. Mae'r rhagolygon twf cyffredinol yn fy na'r twf o 11.7% a ddarperir ar ei gyfer yn y Strategaeth a Ffafrir.

3.2.51 Bu i CNC ac EA gynnal adolygiad manwl o drwyddedau echdynnu DCWW a dod i'r casgliad bod yna ddau ddeg un o safleoedd ble na ellid diystyru effeithiau arwyddocaol posibl ar rywogaethau gwarchoddedig. Ond mae WRMP yn nodi y cytunwyd ar y diwygiadau angenrheidiol i drwyddedau echdynnu er mwyn sicrhau eu bod ar lefelau addas erbyn hyn, ac i'r dyfodol, a'u bod wedi eu hymgorffori i'r cyfrifiadau allbwn gwaelodlin y gellir eu gosod.

3.2.52 Hefyd, roedd DCWW yn gyfrifol am gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr mwyaf diweddar. Roedd hynny yn cynnwys ystyried yr adolygiad o drwyddedau echdynnu a gynhaliwyd gan EA a CNC, a daeth i'r casgliad na fydd gan 'WRMP unrhyw effeithiau niweidiol, yn unigol neu'n gyfun, ar unrhyw safle Ewropeaidd', ar lefel y cynllun. Yn seiliedig ar yr asesiad ARC manwl a gynhaliwyd gan DCWW, a hysbyswyd gan adolygiad CNC ac EA o ganiatadau oedd yn destun ymgynghoriad eang â'r asiantaethau statudol, mae'n rhesymol i Sir Gaerfyrddin fabwysiadu'r casgliadau at ddiben ARC y strategaeth a ffafrir a'r Cynllun Adneuo. Byddai mwy o waith yn golygu dyblygu gwaith a wnaethpwyd gan CNC a DCWW, a gan mai'r rhain yw'r awdurdodau mwyaf priodol mewn perthynas â'r effeithiau posibl sy'n gysylltiedig a chyflenwad dŵr, ystyrir na fyddai mwy o waith gan Sir Gaerfyrddin yn briodol nac yn angenrheidiol.

3.2.53 Felly, cesglir na fydd y strategaeth a ffafrir yn debygol o effeithio'n arwyddocaol ar unrhyw safle Ewropeaidd mewn perthynas ag effeithiau sy'n gysylltiedig â chyflenwad dŵr. Gellir eithrio effeithiau o'r fath ar sail y wybodaeth wrthrychol sydd ar gael drwy adolygiad EA a CNC o waith a ganiatawyd a ARC diweddaraf Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr DCWW.

3.2.54 Mae crynodeb o sgrinio rhagarweiniol safleoedd Ewropeaidd y clustnodwyd eu bod o bosibl yn agored i effeithiau echdynnu wedi eu sgrinio yn Tabl 8

¹ Adroddiad technegol Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Drafft DCWW, Mawrth 2018.

² Gweler Adran 5.18.4

³ Gweler Tabl 3.16, Adroddiad Amgylcheddol Asesiad Amgylcheddol Strategol Drafft Cynllun Rheoli Adnoddau dŵr Drafft DCWW, 2019.

⁴ Llywodraeth Cymru. Ystadegau Cymru. Ystadegau Cymru. Rhagfynegiadau Aelwydydd yn ôl awdurdodau lleol ac yn eiliedig ar 2011.

Tabl 8 Sgrinio rhagarweiniol y Safleoedd Ewropeaidd a nodwyd sy'n agored i effeithiau cynnydd mewn echdynnu dŵr

Safleoedd o nodwyd fel rhai agored i'r effaith yma	Angen mwy o sgrinio?	Rhesymau
ACA		
Afon Teifi	Na	Yn seiliedig ar ARC diweddaraf Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr DCWW.
Afon Tywi	Na	Yn seiliedig ar ARC diweddaraf Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr DCWW.
Afonydd Cleddau	Na	Yn seiliedig ar ARC diweddaraf Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr DCWW.
Caeau Mynydd Mawr	Na	Yn seiliedig ar ARC diweddaraf Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr DCWW.
Bae Ceredigion	Na	Yn seiliedig ar ARC diweddaraf Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr DCWW.
Bae ac Aberoedd Caerfyrddin	Na	Yn seiliedig ar ARC diweddaraf Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr DCWW.
Twyni Bae Caerfyrddin	Na	Yn seiliedig ar ARC diweddaraf Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr DCWW.
Cernydd Carmel	Na	Yn seiliedig ar ARC diweddaraf Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr DCWW.
Cwm Doethie – Mynydd Mallaen	Na	Yn seiliedig ar ARC diweddaraf Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr DCWW.
Mynydd Epynt	Na	Yn seiliedig ar ARC diweddaraf Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr DCWW.
Preseli	Na	Yn seiliedig ar ARC diweddaraf Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr DCWW.
Afon Gwy	Na	Yn seiliedig ar ARC diweddaraf Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr DCWW.
Afon Wysg	Na	Yn seiliedig ar ARC diweddaraf Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr DCWW.
Ucheldir Yerbeston	Na	Yn seiliedig ar ARC diweddaraf Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr DCWW.
Safleoedd Ystlumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton	Na	Yn seiliedig ar ARC diweddaraf Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr DCWW.
Sir Benfro Forol	Na	Yn seiliedig ar ARC diweddaraf Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr DCWW.
Tiroedd Comin Gŵyr	Na	Yn seiliedig ar ARC diweddaraf Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr DCWW.
AGA/Ramsar		
AGA/Ramsar Cilfach Tywyn	Na	Yn seiliedig ar ARC diweddaraf Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr DCWW.

AGA Bae Caerfyrddin	Na	Yn seiliedig ar ARC diweddaraf Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr DCWW.
---------------------	-----------	--

Effeithiau o ganlyniad i ddatblygu Gollwng dŵr gwastraff

3.2.55 Bydd datblygu yn cynhyrchu dŵr gwastraff fydd angen ei drin cyn ei waredu. Yr opsiwn a ffafrir ar gyfer gwaredu dŵr gwastraff yw drwy gysylltu â'r prif rwydwaith carthffosiaeth, a thriniaeth yn y gweithfeydd trin dŵr gwastraff (WWTW) perthnasol.

3.2.56 Mae gollwng dŵr gwastraff gan DCWW yn cael ei drwyddedu gan Asiantaeth yr Amgylchedd (EA) sydd hefyd yn awdurdod cymwys o dan y Rheoliadau Cynefinoedd. Er mai cyfrifoldeb CNC yn bennaf yw osgoi unrhyw effeithiau niweidiol ar Safleoedd Ewropeaidd o ganlyniad i ganiatáu gollwng, mae'n rhaid i ARC y Cynllun Adneuo gydnabod bod yr opsiynau caniatáu a rheoli sydd ar ôl i CNC yn gyfyngedig oherwydd capasiti seilwaith a'r lefelau llygryddion presennol yn yr amgylchedd derbyn. Mae'n ddyletswydd ar DCWW i dderbyn dŵr gwastraff o unrhyw ddatblygiad newydd, pan fo cysylltiad â'r prif system garthffosiaeth yn hyfyw; mae yna densiwn yn yr ARC os bydd yn tybio y gall DCWW naill ai dderbyn unrhyw gynnydd cysylltiedig mewn dŵr gwastraff beth bynnag fo'r cyfyngiadau capasiti, neu y gellir datrys y cyfryw broblemau capasiti drwy opsiynau caniatáu CNC sydd yn osgoi effeithiau niweidiol ar safleoedd Ewropeaidd.

3.2.57 Mae gan DCWW ddyletswydd gyffredinol o dan adran 94 Deddf Diwydiant Dŵr 1991 i ddraenio'r ardal. os bydd angen capasiti ychwanegol yn y system bresennol, mae'n yn gyfreithiol rhwymedig i ddarparu hynny drwy eu mecanweithiau ariannu arferol. Mae'r ddyletswydd gyffredinol yma yn ymestyn i systemau carthffosiaeth yn ogystal â gweithfeydd trin carthffosiaeth⁵.

3.2.58 Cyfrifoldeb yr ARC yw sicrhau bod dyrannu tai fel rhan o'r Strategaeth a Ffafrir yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n golygu bod yna opsiynau hyfyw ar gael i CNC a DCWW er mwyn bodloni galwadau am ddraeniad dŵr gwastraff, heb effeithiau niweidiol ar uniondeb unrhyw safle Ewropeaidd.

3.2.59 O dan Reoliad 63 Rheoliadau Cynefinoedd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gyfrifol am sicrhau bod effeithiau posibl o ddŵr gwastraff wedi ei drin ar safleoedd Dynodedig Ewropeaidd yn cael eu hystyried fel rhan o Adolygiad o'r holl ganiatadau presennol (RoC). O dan y RoC, bydd caniatadau gollwng a thrwyddedau echdynnu wedi cael eu hystyried er mwyn sicrhau na fy unrhyw effeithiau niweidiol ar fuddiannau cadwraethol mewn safleoedd dynodedig o ganlyniad i'r caniatadau yma.

3.2.60 Bydd angen i ARC terfynol cynllun adneuo y CDLI geisio eglurder gan CNC a DCWW ynghylch capasiti posibl ar gyfer twf i'r dyfodol o fewn terfynau caniatáu gollwng ôl-RoC presennol. Ble gellir cynnwys dyraniadau o fewn terfynau caniatáu gollwng ôl-RoC, gellir ystyried na fydd yna unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol ar safleoedd Dynodedig Ewropeaidd.

3.2.61 Petai'r datblygiad dyranedig efallai'n fwy na'r capasiti a ganiateir sydd ar gael, mae'n debyg y bydd angen caniatâd newydd neu addasedig ar y gwaith trin dŵr gwastraff dan sylw er mwyn darparu ar gyfer y cynnydd mewn galw, a byddai'n rhaid i'r ARC ystyried a fyddai'n dichonadwy i

⁵ Gweler *Barratts Homes Limited v Dwr Cymru Welsh Water* [2009] UKSC13

gapasiti ychwanegol o'r fath gael ei ddarparu heb unrhyw effaith niweidiol ar uniondeb unrhyw Safleoedd Ewropeaidd.

Tabl 9 Sgrinio rhagarweiniol y Safleoedd Ewropeaidd a nodwyd sy'n agored i effeithiau ar ansawdd dŵr

Safleoedd o nodwyd fel rhai agored i'r effaith yma	Angen mwy o sgrinio?	Rhesymau
ACA		
Afon Teifi	Oes	Angen mwy o wybodaeth gan CNC mewn perthynas â RoC. Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl.
Afon Tywi	Oes	Angen mwy o wybodaeth gan CNC mewn perthynas â RoC. Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl.
Afonydd Cleddau	Oes	Angen mwy o wybodaeth gan CNC mewn perthynas â RoC. Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl.
Bae Ceredigion	Oes	Angen mwy o wybodaeth gan CNC mewn perthynas â RoC. Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl.
Bae ac Aberoedd Caerfyrddin	Oes	Angen mwy o wybodaeth gan CNC mewn perthynas â RoC. Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl.
Cernydd Carmel	Oes	Angen mwy o wybodaeth gan CNC mewn perthynas â RoC. Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl.
Sir Benfro Forol	Oes	Angen mwy o wybodaeth gan CNC mewn perthynas â RoC. Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl.
Bae Ceredigion	Oes	Angen mwy o wybodaeth gan CNC mewn perthynas â RoC. Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl.
AGA/Ramsar		
AGA/Ramsar Cilfach Tywyn	Oes	Angen mwy o wybodaeth gan CNC mewn perthynas â RoC. Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl.
Bae Caerfyrddin	Oes	Angen mwy o wybodaeth gan CNC mewn perthynas â RoC. Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl.

Mwy o ddatblygu: effeithiau llygredd aer

3.2.62 Dylanwad ar ansawdd aer gan lefelau llygryddion megis sylffwr deuocsid (SO₂), nitrogen ocsidau (NO_x), amonia (NH₃) ac oson (O₃), yn ogystal â chyfansoddion organig parhaus (POPs), metelau trwm a gronynnau (PM₁₀).

3.2.63 Ar hyn o bryd mae gan Sir Gaerfyrddin dair Ardal Reoli Ansawdd Aer (AQMAau), yn Llandeilo (NO₂), Llanelli (NO₂) a Chaerfyrddin (NO₂). Mae AQMAau hefyd yn bodoli mewn rhai siroedd ffiniol; Abertawe (NO₂), Castell Nedd Port Talbot (PM₁₀) a dwy yn Sir Benfro (NO₂).

3.2.64 Mae datblygiadau tai yn tueddu i fod yn gysylltiedig â chynnydd mewn traffig, a chynnydd mewn allyriadau sy'n gysylltiedig â thraffig o ganlyniad i hynny. Dangoswyd bod allyriadau o draffig yn effeithio ar lystyfiant o fewn 200m o ymyl y ffordd⁶⁷. Y tu hwnt i 200m, ni arsylwyd ar unrhyw effeithiau niweidiol arwyddocaol sy'n gysylltiedig ag allyriadau traffig (yn cynnwys dyddodiadau) mewn astudiaethau gwyddonol. Mae'n hynny'n debygol o fod yn wir oherwydd ar y pellter yma mae llygryddion yn cyfrannu at lefelau cefndirol o lygredd atmosfferig, ac yn gwasgaru i'r graddau nad ydynt yn achosi effaith y gellir ei arsylwi ar lystyfiant lefel tir ar raddfa leol.

3.2.65 Ar sail hynny, ystyrir na fydd yna unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol ar unrhyw safle sydd yn fwy na 200m y tu allan i ffiniau Sir Gaerfyrddin.

3.2.66 Ond, gallai cyfraniadau ychwanegol allai ddeillio o gynnydd mewn traffig fod yn arwyddocaol pan fo'n hysbys bod y safle yn sensitif i effeithiau o'r fath, a phan fo trothwy llwythi a lefelau critigol priodol wedi eu croesi neu yn agos at gael eu croesi. Mae data y Gwasanaeth Gwybodaeth am Lygredd Aer (APIS) yn dangos bod lefelau ansawdd aer presennol eisoes yn uwch na'r llwythi critigol a bennir ar gyfer nifer o'r mathau o gynefinoedd mewn safleoedd Ewropeidd yn Sir Gaerfyrddin (Atodiad 2 **Data Dyddodiadau Nitrogen ar gyfer ACAau/AGAau yn Sir Gaerfyrddin a Pharth Byffer 15km**).

3.2.67 Bydd yr holl safleoedd eraill yr ystyrir eu bod yn sensitif i lygredd aer yn cael eu symud ymlaen am sgrinio manylach, fodd bynnag nid yw ystyriaeth bellach i effeithiau posibl ond yn angenrheidiol pryd y gall dyraniadau safle arwain at gynnydd mewn allyriadau traffig o fewn 200m i safleoedd dynodedig. Mae hynny yn cael ei grynhoi yn Tabl 10.

Tabl 10 Sgrinio rhagarweiniol y Safleoedd Ewropeidd a nodwyd sy'n agored i effeithiau llygredd aer

Safleoedd o nodwyd fel rhai agored i'r effaith yma	Angen mwy o sgrinio?	Rhesymau
ACA		
Caeau Mynydd Mawr	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
Bae ac Aberoedd Caerfyrddin	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
Twyni Bae Caerfyrddin	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
Cernydd Carmel	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl

⁶ Natural England Commissioned Report NECR200: Potential risk of impacts of nitrogen oxides from road traffic on designated nature conservation sites. 2016

⁷ Adroddiad English Nature Research 580: The ecological effects of diffuse air pollution from road transport. 2004.

Afonydd Cleddau	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
Cwm Doethie – Mynydd Mallaen	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
Coedydd Ynn Gŵyr	Na	Dros 200m y tu allan i ffiniau Sir Gaerfyrddin
Tiroedd Comin Gŵyr	Na	Dros 200m y tu allan i ffiniau Sir Gaerfyrddin
Gweunydd Blaencleddau	Na	Dros 200m y tu allan i ffiniau Sir Gaerfyrddin
Mynydd Epynt	Na	Dros 200m y tu allan i ffiniau Sir Gaerfyrddin
Safleoedd ystlumod Sir Benfro	Na	Dros 200m y tu allan i ffiniau Sir Gaerfyrddin
Sir Benfro Forol	Na	Dros 200m y tu allan i ffiniau Sir Gaerfyrddin
Preseli	Na	Dros 200m y tu allan i ffiniau Sir Gaerfyrddin
Rhos Llawr-cwrt	Na	Dros 200m y tu allan i ffiniau Sir Gaerfyrddin
Coetiroedd Gogledd Sir Gaerfyrddin	Na	Dros 200m y tu allan i ffiniau Sir Gaerfyrddin
Ucheldir Yrbeston	Na	Dros 200m y tu allan i ffiniau Sir Gaerfyrddin
AGA/Ramsar		
Bae Caerfyrddin	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
AGA/Ramsar Cilfach Tywyn	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl

Effeithiau aflonyddu ar rywogaethau, effeithiau llygredd golau a sŵn

3.2.68 Mae effeithiau o'r natur yma yn bennaf yn gysylltiedig ag agosrwydd ffisegol datblygiad i safle Ewropeaidd sensitif. **Mae effeithiau o'r fath yn cynnwys aflonyddwch sŵn sydd yn gysylltiedig â materion megis adeiladu, goleuadau a phresenoldeb datblygiad, a bydd yn cael ei ystyried ymhellach mewn asesiad manwl o ddyraniadau safle. Ni ystyrir bod y CDLI yn debygol o effeithio'n arwyddocaol ar safleoedd y tu allan i ffiniau Sir Gaerfyrddin, felly mae'r safleoedd yma wedi eu sgrinio allan o ystyriaeth bellach.**

Mae safleoedd sy'n sensitif i effeithiau aflonyddu ar rywogaethau, llygredd sŵn a golau a chanlyniad y sgrinio rhagarweiniol, wedi eu crynhoi yn Tabl 11

Tabl 11 Sgrinio rhagarweiniol y Safleoedd Ewropeaidd a nodwyd sy'n agored i effeithiau aflonyddwch, effeithiau llygredd golau a sŵn.

Safleoedd o nodwyd fel rhai agored i'r effaith yma	Sgrinio i mewn/allan	Rhesymau
ACA		
Afon Teifi	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
Afon Tywi	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
Afonydd Cleddau	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
Bae Ceredigion	Na	Y tu allan i ffiniau Sir Gaerfyrddin
Bae ac Aberoedd Caerfyrddin	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
Cwm Doethie – Mynydd Mallaen	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
Tiroedd Comin Gŵyr	Na	Y tu allan i ffiniau Sir Gaerfyrddin
Coedydd Ynn Gŵyr	Na	Y tu allan i ffiniau Sir Gaerfyrddin

Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin (2018- 2033)

Coetiroedd Gogledd Sir Gaerfyrddin	Na	Y tu allan i ffiniau Sir Gaerfyrddin
Sir Benfro Forol	Na	Y tu allan i ffiniau Sir Gaerfyrddin
Safleoedd ystlumod Sir Benfro	Na	Y tu allan i ffiniau Sir Gaerfyrddin
Afon Gwy	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
Afon Wysg	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
AGA/Ramsar		
Bae Caerfyrddin	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl
AGA/Ramsar Cilfach Tywyn	Oes	Angen mwy o ystyriaeth mewn asesiad manwl

Crynodeb

3.2.69 Ar ôl ystyried pob un o'r mecanweithiau effaith posibl ac ar ôl eu hystyried ar lefel generig mewn perthynas â'r twf cyffredinol y darperir ar ei gyfer yn y strategaeth a ffafrir, manylir ar y canlyniadau o ran gwaith sgrinio manwl mewn perthynas â dyraniadau unigol yn Tabl 12

Tabl 12 Crynodeb o'r sgrinio rhagarweiniol yn seiliedig ar ragamcaniad twf cyffredinol y Strategaeth a Ffafrir.

Mecanwaith Effaith Posibl	Crynodeb o sgeinio lefel generig	Gofynion sgrinio pellach mewn sgrinio manwl o ddyraniadau penodol
Amgylchedd Dyfrol	Effeithiau ond yn debygol pan fo datblygiad yn agos i gwrs dŵr sydd yn llifo i mewn/allan o safle	Er mwyn clustnodi dyraniadau o'r fath
Amgylchedd Morol	Ystyrir bod yr effeithiau yn annhebygol, ond yn cael eu sgrinio i mewn ar sail ragofalus	Er mwyn sicrhau na fydd effeithiau o'r fath yn digwydd
Arfordir	Ystyrir bod yr effeithiau yn annhebygol, ond yn cael eu sgrinio i mewn ar sail ragofalus	Er mwyn sicrhau na fydd effeithiau o'r fath yn digwydd
Rhywogaethau Symudol	<ul style="list-style-type: none"> • Britheg y Gors - Dylai unrhyw ddatblygiad o fewn 2km o ACA Caeau Mynydd Mawr neu ACA Preseli fod yn destun asesiad pellach. • Ystlum Du - Dylai unrhyw ddatblygiad posibl o fewn radiws o 16km o Goedwig Pengelli fod yn destun asesiad pellach. • Ystlum Pedol Mwyaf - Dylid ystyried cofnodion presenoldeb er mwyn hysbysu sgrinio dyraniadau safleoedd. • Dyfrgwn Ewropeaidd - Bydd angen ystyried unrhyw dir sydd yn addas i'w ddefnyddio gan ddyfrgwn allai gefnogi niferoedd ACA • AGA Crynodiad Adar - Dylai unrhyw dir addas sydd 1km i'r tir o unrhyw AGA fod yn destun asesiad pellach. 	Er mwyn clustnodi dyraniadau o'r fath
Hamdden	Bydd effeithiau hamdden sydd yn gysylltiedig â datblygiad sydd yn agos i safle Ewropeaidd angen asesiad pellach.	Er mwyn clustnodi dyraniadau o'r fath
Datblygu: Echdynnu	Mae effeithiau sydd yn gysylltiedig â chyflenwad dŵr wedi eu sgrinio allan ar sail ARC cynllun rheoli adnoddau dŵr DCWW.	Nid oes angen mwy o sgrinio
Datblygu: Dŵr gwastraff	Mae angen mwy o wybodaeth gan CNC ynghylch capasiti ôl-RoC mewn perthynas ag effeithiau sy'n gysylltiedig â gollyngiadau dŵr Dim ond datblygiadau dyranedig allai groesi trothwy'r capasiti a ganiateir sydd ar gael yr ystyrir y gallan achosi EAT.	Er mwyn clustnodi dyraniadau o'r fath
Datblygu: Llygred aer	Dim ond datblygiadau sydd yn arwain at gynnydd mewn traffig ar ffyrdd o fewn 200m o safleoedd sensitif a glustnodwyd.	Er mwyn clustnodi dyraniadau o'r fath

Aflonyddwch, llygredd sŵn a golau	Dim ond datblygiadau sydd yn agos at safle Ewropeaidd sydd angen ystyriaeth bellach	Er mwyn clustnodi dyraniadau o'r fath
--------------------------------------	--	--

3.2.70 Mae pum safle a glustnodwyd yn Nhasg 1 wedi cael eu sgrinio allan o asesiad manwl pellach oherwydd bod yr holl lwybrau effaith posibl wedi cael eu sgrinio allan ar y cam sgrinio rhagarweiniol yma. Mae hynny yn cael ei grynhoi yn Tabl 13.

Tabl 13 Crynodeb o sgrinio rhagarweiniol safleoedd ble na chlustnodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol.

Safle Ewropeaidd	Dynodiad	Sganiwyd i Mewn	Sgriniwyd Allan
Ucheldir Yerbeston	ACA	Rhywogaeth Symudol - Britheg y Gors	Mwy na 2km y tu allan i ddylanwad uniongyrchol CDLI Sir Gaerfyrddin.
		Echdynnu	Yn seiliedig ar ddim EAT yn cael ei glustnodi yn ARC diweddaraf Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr DCWW.
		Llygredd aer	Dros 200m y tu allan i ffiniau Sir Gaerfyrddin
Rhos Llaur-cwrt	ACA	Rhywogaeth Symudol - Britheg y Gors	Mwy na 2km y tu allan i ddylanwad uniongyrchol CDLI Sir Gaerfyrddin.
		Llygred aer	Dros 200m y tu allan i ffiniau Sir Gaerfyrddin
Coedydd Ynn Gŵyr	ACA	Llygredd aer	Dros 200m y tu allan i ffiniau Sir Gaerfyrddin
		Aflonyddu ar rywogaethau	Ystyrir bod yr effeithiau ond yn debygol pan yn agos. Safle y tu allan i ffiniau Sir Gaerfyrddin
Tiroedd Comin Gŵyr	ACA	Rhywogaeth Symudol - Britheg y Gors	Mwy na 2km y tu allan i ddylanwad uniongyrchol CDLI Sir Gaerfyrddin.
		Echdynnu	Yn seiliedig ar ddim EAT yn cael ei glustnodi yn ARC diweddaraf Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr DCWW.
		Llygredd aer	Dros 200m y tu allan i ffiniau Sir Gaerfyrddin
		Aflonyddu ar rywogaethau	Ystyrir bod yr effeithiau ond yn debygol pan yn agos. Safle y tu allan i ffiniau Sir Gaerfyrddin
Mynydd Epynt	ACA	Llygredd aer	Dros 200m y tu allan i ffiniau Sir Gaerfyrddin

Sgrinio'r Strategaeth a Ffafir

3.2.71 Mae Strategaeth a Ffafir diwygiedig Sir Gaerfyrddin yn nodi'r weledigaeth hirdymor ar gyfer twf a datblygu yn Sir Gaerfyrddin (ac eithrio yr ardal honno ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) a'r amcanion strategol a'r polisiau defnydd tir strategol ar gyfer gwireddu'r weledigaeth honno. Ond, nid y CDLI yw'r Strategaeth a Ffafir, ac yn hytrach mae'n nodi egwyddorion strategol bras ar gyfer datblygu yn ein hardal. Enw'r Cynllun llawn yw'r CDLI Adneuo, a bydd yn cynnwys polisiau manwl a phenodol yn ogystal â dyraniadau safle benodol.

3.2.72 Roedd y Strategaeth a Ffafir yn destun proses sgrinio gychwynnol, ac amcan hynny oedd clustnodi, ar lefel strategol, unrhyw rannau o'r cynllun neu ei bolisiau cysylltiedig na fydd yn effeithio ar safleoedd Ewropeaidd, a'r rhai hynny sydd yn debygol a fod â'r potensial i effeithio'n arwyddocaol. Os canfyddir EAT, maen rhaid eu hystyried yn unigol ac mewn cyfuniad.

3.2.73 Mae'r dull a ddefnyddir yn unol â chanllawiau ar gyfer gwerthuso cynlluniau o dan y Gyfarwydddeb Cynefinoedd, DTA Publications Limited, The Habitats Regulations Assessment Handbook.⁸ Gellir clustnodi'r effeithiau sydd yn gysylltiedig â'r Strategaeth a Ffafir fel un o'r categorïau sgrinio bras canlynol.

Categori	Disgrifiad	Deilliant Sgrinio
A	Datganiadau cyffredinol o bolisi/dyheadau cyffredinol	Sgrinio Allan
B	Polisiau sydd yn rhestru meini prawf cyffredinol ar gyfer profi derbynioldeb/cynaliadwyedd cynigion.	Sgrinio Allan
C	Cynnig y cyfeirir ato ond na chynigir gan y cynllun	Sgrinio Allan
D	Gwarchodaeth amgylcheddol/polisi diogelu safle	Sgrinio Allan
E	Polisiau neu gynigion sydd yn llywio newid mewn ffordd sydd yn diogelu safleoedd Ewropeaidd rhag effeithiau niweidiol	Sgrinio Allan
F	Polisi na allai arwain at ddatblygu neu newid arall	Sgrinio Allan
G	Polisi neu gynnig na allai gael unrhyw effaith dirnadwy ar safle	Sgrinio Allan
H	Polisi neu gynnig (gwirioneddol neu ddamcaniaethol) na allai eu heffeithiau danseilio'r amcanion cadwraethol (naill ai'n unigol neu'n gyfun ag elfennau eraill y cynllun hwn neu gynlluniau neu brosiectau eraill)	Sgrinio Allan
I	Polisi neu gynnig sydd ag effaith arwyddocaol tebygol ar safle yn unigol	Sgrinio i Mewn
J	Polisi neu gynnig sydd yn effeithio ar safle ond nid yn debygol o fod yn arwyddocaol yn unigol, felly angen gwirio am effeithiau arwyddocaol tebygol cyfun	Gwirio am effeithiau cyfun ac ail gategoreiddio fel K neu L

⁸ Tyldesly, D., 2009. The Habitats Regulations Assessment Handbook. Mynedaidd Hydref 2018 <https://www.dtapublications.co.uk/>

K	Polisi neu gynnig nad yw'n debygol o effeithio'n arwyddocaol yn unigol nac yn gyfun.	Sgrinio allan ar ôl y prawf cyfun
L	Polisi neu gynnig sydd yn debygol o effeithio'n arwyddocaol yn gyfun	Sgrinio i mewn ar ôl y prawf cyfun

Penodau 1-6 y Strategaeth a Ffafir

3.2.74 Er cyflawnder, mae Penodau 1-6 yn cynnwys testun rhagarweiniol a chyd-destunol ac nid yw'n bosibl iddo gael unrhyw effaith ar Safleoedd Ewropeaidd. Felly maent wedi eu **sgrinio allan o asesiad pellach** ac nid ydynt yn cael eu hystyried eto.

Penodau 7 ac 8 y Strategaeth a Ffafir

3.2.75 Mae Pennod 7 yn amlinellu gweledigaeth drafft Sir Gaerfyrddin ac adroddir ar hynny isod.

Un Sir Gâr

Bydd Sir Gaerfyrddin yn 2033 yn lle i gychwyn, byw a heneiddio'n dda mewn amgylchedd iach, diogel a ffyniannus, ble mae ei rhinweddau diwyllainol ac amgylcheddol cyfoethog yn cael eu gwerthfawrogi a'u pacrhu.

Bydd ganddi gymunedau ffyniannus, cydlynus a chynaliadwy fydd yn darparu cyfleoedd, ymyriadau a chysylltiadau cynyddol i bobl, llefydd a sefydliadau mewn rhannau gwledig a threfol ein Sir.

Bydd ganddi economi gref syd yn adlewyrchu ei safle fel ysgogydd hyderus ac uchelgisiol ar gyfer Rhanbarth Dinas Bae Abertawe.

3.2.76 Mae'r weledigaeth yn nodi dyhead cyffredinol ac ni ystyrir y bydd yn arwain at unrhyw effeithiau arwyddocaol ar safleoedd Ewropeaidd. **Felly mae'r weledigaeth wedi ei sgrinio allan o dan gategori A.**

3.2.77 Mae pennod 8 yn trafod datblygu amcanion strategol, sydd wedi eu categorio o dan y themâu canlynol, ac wedi eu halinio ag amcanion llesiant Sir Gaerfyrddin.

- Arferion iach - Mae gan bobl ansawdd bywyd da ac maent yn gwneud dewisiadau iach ynglŷn â'u bywydau a'r amgylcheddau.
- Ymyrraeth Gynnar - Sicrhau bod pobl yn cael yr help priodol ar yr adeg briodol, pan fônt ei angen ac yn y ffordd maent ei angen.
- Cysylltiadau Cryf - Pobl, llefydd a sefydliadau sydd â chysylltiadau cryf sydd yn gallu addasu i newid.
- Pobl a Llefydd Ffyniannus - Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i bobl a llefydd yn rhannau gwledig a threfol y sir.

3.2.78 Manylir ar yr amcanion a restrwyd yn erbyn pob un o'r themâu yn Atodiad 4 . **Ystyrir bod pob un o'r amcanion yma yn cael eu sgrinio allan o'r angen am asesiad pellach.** Mae'r categori yr

ystyrir bod pob amcan wedi ei sgrinio allan yn eu herbyn yn cael eu nodi mewn cromfachau ar ôl pob amcan, fel y rhestrir hynny yn Atodiad 4 .

Pennod 9 y Strategaeth a Ffafrir

3.2.79 Mae Pennod 9 yn cynnwys testun sydd yn crynhoi canfyddiadau proses werthuso'r opsiynau twf a gofodol. **Nid yw'n bosibl i'r broses werthuso a grynhwir yn y bennod yma gael unrhyw effaith ar unrhyw safle Ewropeaidd, felly mae wedi ei sgrinio allan o unrhyw asesiad pellach o dan Categori B.** Bydd goblygiadau'r opsiynau twf a gofodol yn cael eu hasesu ymhellach yn y sgrinio manwl, pan fo dyraniadau safle wedi cael eu clustnodi.

Pennod 11 y Strategaeth a Ffafrir - Polisiâu strategol

3.2.80 Mae yna 19 o bolisiâu unigol, ac mae'r canlyniadau sgrinio ar gyfer pob polisi wedi eu nodi yn Atodiad 5.

3.2.81 O sgrinio'r polisiâu strategol daethpwyd i'r casgliad bod y rhan fwyaf o'r polisiâu yn annhebygol o effeithio'n arwyddocaol ar safleoedd Ewropeaidd yn unigol, oherwydd eu bod naill ai'n amcanu at warchod/gwella treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd naturiol neu'n nodi meini prawf dylunio ar gyfer cynigion datblygu. Yn achos rhai polisiâu, ystyriwyd y gellid asesu effeithiau posibl yn fwy priodol ar lefel dyrannu safle, pan fo union natur, maint a lleoliad y datblygiadau yn hysbys.

3.2.82 Nid yw nifer o'r polisiâu yn cynnig datblygu o reidrwydd, ond yn cefnogi rhai mathau a ddatblygiadau sydd â'r potensial i effeithio ar safleoedd dynodedig Ewropeaidd. Mae Polisi SP13 - Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol - yn amcanu at sicrhau nad yw datblygiadau yn effeithio'n negyddol ar yr amgylchedd naturiol, ac mae'n darparu rhai camau lliniaru er mwyn helpu i leihau yr effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd. Mae geiriad wedi ei awgrymu er mwyn cryfhau'r polisi yma, fel y bydd yn lliniaru unrhyw effeithiau tebygol arwyddocaol posibl, pan gaiff ei ystyried ochr yn ochr â'r holl bolisiâu strategol eraill.

3.2.83 Mae Tabl 14 yn crynhoi deilliant sgrinio'r Polisiâu Strategol. Clustnodwyd bod gan Bolisiâu SP1, SP3, SP4, SP6, SP16 a SP19 y potensial i greu effaith arwyddocaol debygol yn unigol ar safleoedd Ewropeaidd. Mae arwyddocâd unrhyw effeithiau o ganlyniad i'r polisiâu yma yn ddibynnol ar union leoliad a maint y datblygiadau, y llwybrau amgylcheddol a sensitifrwydd derbynyddion.

Tabl 14 Crynodeb o sgrinio rhagarweiniol polisiâu Strategol drafft

Polisi	Categori Sgrinio	Deilliant Sgrinio Cychwynnol
SP1 - Twf Strategol	I	Sgriniwyd i Mewn
SP2 - Manwerthu a Chanol Trefi	B	Sgriniwyd Allan
SP3 - darparu Tai Newydd	I	Sgriniwyd i Mewn
SP4 - Tai Fforddiadwy	I	Sgriniwyd i Mewn
SP5 - Safleoedd Strategol	C	Sgriniwyd Allan
SP6 - Cyflogaeth a'r Economi	I	Sgriniwyd i Mewn
SP7 - Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant	F	Sgriniwyd Allan
SP8 - Seilwaith	B	Sgriniwyd Allan
SP9 - darpariaeth i Sipsiwn a Theithwyr	H	Sgriniwyd Allan

Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin (2018- 2033)

SP10 - Economi Ymwelwyr	A	Sgriniwyd Allan
SP11 - Creu Lleoedd, cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Uchel	B	Sgriniwyd Allan
SP12 - Datblygiad Gwledig	A	Sgriniwyd Allan
SP13 - Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol	D	Sgriniwyd Allan
SP14 - Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol	D	Sgriniwyd Allan
SP15 - Newid yn yr Hinsawdd	B	Sgriniwyd Allan
SP16 - Dosbarthiad Cynaliadwy - Fframwaith Aneddiadau	I	Sgriniwyd i Mewn
SP17 - Trafnidiaeth a Hygyrchedd	B	Sgriniwyd Allan
SP18 - Adnoddau Mwynau	G	Sgriniwyd Allan
SP19 - Rheoli Gwastraff	I	Sgriniwyd i Mewn

3.3 Tasg 3: Ystyried effeithiau yn gyfun â chynlluniau, rhaglenni a phrosiectau eraill.

3.3.1 O dan Erthygl 6(3) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, mae'n ofynnol bod ARC yn archwilio y potensial i gynlluniau a phrosiectau effeithio'n arwyddocaol naill ai'n unigol neu 'mewn cyfuniad' â chynlluniau, rhaglenni a phrosiectau eraill (PPPau). Mae asesu PPPau eraill wedi golygu defnyddio dull pragmatig o ystyried ystod eang y PPPau sydd ar y gweill yn yr ardal amgylchynol. Roedd y dull a ddefnyddiwyd yn ymwybodol o'r pwyslais yng nghanllawiau arfaethedig LICC ar ystyried bod potensial effeithiau 'mewn cyfuniad' yn rhan greiddiol o ddarparu ARC cydnerth/rhagofalus.

3.3.2 Wrth ystyried PPPau eraill, canolbwyntiwyd y sylw ar y rhai oedd yn amcanu at ddarparu twf gofodol cynlluniedig, a'r rhai mwyaf arwyddocaol oedd y rhai oedd yn ceisio darparu tai, cyflogaeth a seilwaith. Roedd y adolygiad yn ystyried y cynlluniau mwyaf perthnasol, yn cynnwys y rhai a restrir isod ac y manylir arnynt yn **Atodiad 3**

Cynlluniau Datblygu Lleol

- Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Benfro (2013 - 2021) - Mabwysiadwyd
- Cynllun Datblygu Lleol Abertawe (2010 - 2025) - Adneuo
- Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion (2021 - 2033) - Mabwysiadwyd
- Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Benfro (2011 - 2026) - Mabwysiadwyd
- Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (2007 - 2022) - Mabwysiadwyd

Cenedlaethol

- Cynllun Gofodol Cymru (diweddariad 2008)
- Strategaeth trafndiaeth Cymru (2008)
- Strategaeth Twristiaeth Arfordirol Cymru (2008)
- Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru 2013 -2020
- Cynllun Gweithredu Teithio Actif (2016)
- Cynllun Gweithredu Cerdded a Seiclo i Gymru (2009 - 2013)
- Dŵr Cymru - Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (2015 - 2040)
- Dŵr Cymru - Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Drafft 2019
- Tuag at Ddyfodol Diwastraff - Strategaeth Gwastraff Trosfwaol ar gyfer Cymru

Rhanbarthol

- Strategaeth Adfywio Economaidd rhanbarthol Dinas Bae Abertawe 2013 - 2030
- Bargaen Ddinesig Bae Abertawe 2017
- Cydgyllun Trafnidiaeth Leol ar gyfer De Orllewin Cymru (2015 - 2020)
- Cynllun Rheoli Glannau Larnog i Benrhyn St Ann 2 (2012)
- Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff ar gyfer Rhanbarth De Orllewin Cymru
- Datganiad Technegol Rhanbarthol Partïon Gweithio Agredegig Rhanbarthol (2014)

Lleol

- Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf. (2018)
- Trawsnewidiadau: Cynllun Adfywio ar gyfer Sir Gâr 2015 - 2030
- Cynllun darparu Tai fforddiadwy 2016 - 2020: Cyflenwi mwy o gartrefi i bobl Sir Gaerfyrddin 2015 - 2030
- Cynllun Rheoli Cyrchfannau Sir Gaerfyrddin 2015 - 2020
- Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol (2013)
- Cynllun Rheoli Risg Llifogydd ar gyfer Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru

3.3.3 Defnyddiwyd canfyddiadau'r adolygiad yma wrth sgrinio'r Polisiâu strategol os oedd gan y polisiâu y potensial i effeithio'n arwyddocaol mewn cyfuniad â chynlluniau, rhaglenni a phrosiectau eraill ar Safleoedd Ewropeaidd. Bu i'r asesiad ganfod bod gan Polisiâu Strategol SP1, SP3, SP4, SP6, SP16 a SP19 y potensial i effeithio'n arwyddocaol ar safleoedd Ewropeaidd mewn cyfuniad.

3.4 Tasg 4: Crynodeb o'r Asesiad Sgrinio

3.4.1 Yn unol â gofyniad sgrinio'r Rheoliadau Cynefinoedd, cynhaliwyd asesiad er mwyn penderfynu ar effeithiau arwyddocaol tebygol strategaeth a Ffafrir Cyn Adneuo Drafft ar uniondeb y 25 safle Ewropeaidd sydd y tu mewn a thu allan i ffiniau'r cynllun/cynnig. Hysbyswyd y penderfyniad sgrinio gan:

- Y wybodaeth a gasglwyd am y safleoedd Ewropeaidd – Atodiad 1.;
- Adolygiad o'r Strategaeth a Ffafrir a'i heffeithiau tebygol; oedd yn cynnwys dadansoddiad o'r effeithiau amgylcheddol posibl fyddai'r gweithgareddau datblygu a gyfarwyddwyd gan y CDLI yn eu hachosi; ac
- Adolygiad o gynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill – Atodiad 3;
- canllawiau LICC sydd yn nodi bod ARC ar gyfer cynlluniau fel arfer yn ehangach ac yn fwy strategol na ARC lefel prosiect, a od hynny yn gymesur â manylder y cynllun sydd ar gael

3.4.2 Manylion brif broses sgrinio'r Polisiâu Strategol a nodir yn Atodiad 5 **Sgrinio**

rhagarweiniol Polisiâu Strategol drafft I grynhoi, bu i'r asesiad sgrinio ganfod bod y rhan fwyaf o Bolisiâu'r Strategaeth a Ffafrir yn annhebygol o effeithio'n arwyddocaol ar safleoedd Ewropeaidd yn unigol neu'n gyfun. Mae nifer o argymhellion wedi cael eu gwneud er mwyn atgyfnerthu'r camau lliniaru a ddarperir gan bolisiâu penodol, a dylid eu hymgorffori yn y Strategaeth a Ffafrir er mwyn sicrhau na fydd y polisiâu yma (Polisiâu Strategol SP1, SP3, SP4, SP6, SP16 a SP19) yn effeithio'n arwyddocaol ar safleoedd Ewropeaidd yn unigol nac yn gyfun.

3.4.3 Ar y cam yma, mae gan y polisiâu yma botensial i effeithio'n arwyddocaol yn unigol neu'n gyfun â chynlluniau, rhaglenni a phrosiectau eraill. Ar hyn o bryd mae arwyddocâd yr effeithiau yn aneglur oherwydd bod angen mwy o fanylion am natur, maint a lleoliad y datblygiadau. Bydd cam nesaf y CDLI diwygiedig (Adneuo) yn darparu mwy o bolisiâu manwl a dyraniadau safleoedd fydd yn caniatáu asesiad mwy cynhwysfawr o'r effeithiau a sut y gallent effeithio ar safleoedd Ewropeaidd. Argymhellir bod y gwaith sgrinio pellach yn cael ei wneud ei wneud ar gyfer y CDLI adolygedig pan fo Polisiâu Adneuo a Dyraniadau safleoedd ar gael.

3.4.4 Mae'r Strategaeth a Ffafrir eisoes yn cynnwys polisiâu sydd yn amcanu at warchod a gwella safleoedd Ewropeaidd yn ogystal â lleihau effeithiau y datblygiadau a gynigir. Wrth ddatblygu polisiâu Adneuo manwl dylai'r Cynghorau amcanu at lleihau'r effeithiau posibl a nodwyd yn yr asesiad sgrinio yma drwyddo draw.

3.4.5 Mae'r Adroddiad ARC yma yn sgrinio rhagarweiniol lefel uchel o'r Strategaeth a Ffafrir. Mae'n clustnodi'r polisiâu fyddai'n amlwg ddim yn effeithio ar safleoedd Ewropeaidd fyddai'n caniatáu i'r safleoedd hynny gael eu 'sgrinio allan' o unrhyw asesiadau pellach. Byddai ffocws asesiadau ychwanegol, manylach yn cael ei gymhwyso'n unig i safleoedd dyrannu, neu bolisiâu, ble byddai effaith niweidiol debygol yn bosibl. Bydd mwy o sgrinio manwl yn cael ei gynnal yn fersiwn nesaf y CDLI (h.y. y CDLI Adneuo) pan fo'r polisiâu wedi eu paratoi ac y cytunwyd ar restr lawn o safleoedd dyrannu. Yna byddai safleoedd dyrannu a pholisiâu sydd wedi eu cynnwys i gael eu sgrinio'n fanwl yn cael eu hadolygu'n fanylach ar sail y wybodaeth sydd ar gael.

Afodiadau

Afodiad 1. Amcanion cadwraethol safleoedd a glustnodwyd sydd o fewn parth byffer 15km o Sir Gaerfyrddin.

Enw'r Safle: ACA Afon Tywi Cyfeirnod Grid y Lleoliad: SN687263 Cod Safle JNCCUK0013010 Maint: 363.45 ha			
	Nodweddion Cymwys	Asesiad o Gyflwr	Amcanion Cadwraeth
Atodiad II prif reswm dros ddewis y rhywogaeth	Dyfrgi <i>Lutra lutra</i>	Ffafirol Yn cael ei gynnal	<ul style="list-style-type: none"> Mae niferoedd y dyfrgwn yn y ACA yn sefydlog neu yn cynyddu yn ystod yr hirdymor, a c mae hynny yn adlewyrchu capasiti cynnal y cynefin yn y ACA fel y pennir hynny gan lefelau naturiol digonedd ysglyfaeth ac ymddygiad tiriogaethol cysylltiedig. Nid yw ystod naturiol dyfrgwn yn y ACA yn lleihau ac nid yw'n debygol o leihau yn y dyfodol rhagweladwy. Mae symudiad a gwasgariad diogel unigolion o gwmpas y ACA yn cael ei hwyluso gan y ddarpariaeth, pan fo angen, o gynefin torlannol addas, a thanffyrdd, ysgafellau, ffensio etc. ar bontydd ffyrdd a rhwystrau artiffisial eraill.
	Gwangen <i>Alosa fallax</i>	Anffafirol: Heb ei ddsbarthu (Mai 2012)	
Atodiad II nodwedd gymwys y rhywogaeth	Lampreiod y môr <i>Petromyzon marinus</i>	Anffafirol: Heb ei ddsbarthu (Ionawr 2011)	<ul style="list-style-type: none"> Mae'n rhaid i'r amcan cwrs dŵr a ddiffiniwyd yma XX gael ei gyflawni. Mae niferoedd y nodwedd yn y ACA yn sefydlog neu'n cynyddu dros yr hirdymor. Nid yw ystod naturiol y nodwedd yn y ACA yn lleihau ac nid yw'n debygol o leihau yn y dyfodol rhagweladwy. Mae yna gynefin digon mawr i gynnal niferoedd y nodwedd yn y ACA yn hirdymor, ac mae'n debyg y bydd hynny'n parhau i fod yn wir.
	Lampreiod yr afon <i>Lampetra fluviatili</i>	Anffafirol: Heb ei ddsbarthu (Ionawr 2011)	
	Lampreiod y nant <i>Lampetra planeri</i>	Anffafirol: Heb ei ddsbarthu (Ionawr 2011)	
	Herlyn <i>Alosa alosa</i>	Anffafirol: Heb ei ddsbarthu (Mai 2012)	

	Penbwl <i>Cottus gobio</i>	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Ionawr 2012)	
--	----------------------------	--	--

Enw'r Safle: ACA Caeau Mynydd Mawr

Cyfeirnod Grid y Lleoliad: SN575121

Cod Safle JNCCUK0030105

Maint: 25.06 ha

	Nodweddion Cymwys	Asesiad o Gyflwr	Amcanion Cadwraeth
Atodiad I nodweddion cymwys y cynefinoedd	Dolydd <i>Molinia</i> ar briddoedd calchaid, mawnog neu gleiog-llawn-silt <i>Molinion caeruleae</i>	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Medi 2015)	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd nodwedd ddôl <i>Molinia</i> (M24) yn meddiannu rhwng 25% ac 80% o gyfanswm arwynebedd y safle. • Bydd gweddill y safle yn gynefin rhannol naturiol arall. • Bydd y planhigion canlynol yn gyffredin yn y dolydd <i>Molinia</i>: glaswellt y gweunydd <i>Molinia caerulea</i>; ysgallen y ddôl <i>Cirsium dissectum</i>; tamaid y cythraul <i>Succisa pratensis</i>; hesgen lwydlas <i>Carex panicea</i> a thresgl y moch <i>Potentilla erecta</i>. • Hefyd bydd grug croesddail <i>Erica tetralix</i> a'r grug <i>Calluna vulgaris</i> yn gyffredin mewn rhai ardaloedd. • Ni ddylid gadael i frwyn ledaenu a bydd rhywogaethau sydd yn nodweddiadol o addasu amaethyddol, megis rhygwellt parhaol <i>Lolium perenne</i> a'r feillionen wen <i>Trifolium repens</i>, yn absennol ar y cyfan o'r ddôl <i>Molinia</i>. • Hefyd bydd rhywogaethau prysg megis yr Helygen a'r Fedwen y absennol o'r ddôl <i>Molinia</i>. • Mae'r holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau hyn yn cael eu rheoli.

Atodiad II prif reswm dros ddewis y rhywogaeth	Britheg y Gors <i>Euphydryas aurinia</i>	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Medi 2015)	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y niferoedd yn hyfyw yn yr hirdymor, gan gydnabod amrywiadau eithafol y rhywogaeth o ran niferoedd. • Bydd cynefinoedd ar y safle mewn cyflwr optimaidd er mwyn cefnogi'r metaboblogaeth. • Niferoedd y ACA fydd craidd y metaboblogaeth. Bydd y metaboblogaeth yn cynnwys niferoedd y ACA a'r niferoedd sydd yn bridio o fewn tua 2 cilomedr o ffiniau'r ACA. • Bydd o leiaf 13ha ar draws y SSSIau cydrannol yn laswelltir mawnog sydd yn addasi i gefnogi britheg y gors, a bydd <i>Succisa pratensis</i> yn bresennol dim ond gorchudd o brysg. • Bydd o leiaf 6ha o hyn yn gynefin bridio britheg y gors mewn cyflwr da, ble, yn achos o leiaf 80% o'r pwyntiau sampl, bydd y llystyfiant twmpathog o fewn yr ystod o 12-25 cm o dal a <i>Succisa pratensis</i> yn bresennol o fewn radiws pwynt sampl o 50cm Ni fydd prysg (>0.5m o dal) yn gorchuddio mwy na 10% o'r ardal. • Bydd o leiaf 7ha arall o hyn yn gynefin bridio britheg y gors mewn cyflwr addas ble mae <i>Succisa pratensis</i> yn achlysurol/rheolaidd/helaeth ac mae uchder y llystyfiant fel arfer yn 12-25 cm. Ni fydd prysg (>0.5m o dal) yn gorchuddio mwy na 10% o gyfanswm yr ardal. • Bydd y glaswelltir mawnog wedi ei gysgodi'n dda gan wrychoedd a choed aeddfed. • Mae'r holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau uchod yma yn cael eu rheoli.
<p>Enw'r Safle: ACA Cernydd Carmel</p> <p>Cyfeirnod Grid y Lleoliad: SN592161</p> <p>Cod Safle JNCCUK0030070</p> <p>Maint: 361.14 ha</p>			
	Nodweddion Cymwys	Aseiad o Gyflwr	Amcanion Cadwraeth

Atodiad I prif reswm dros ddewis y cynefin	Tirlynnoedd	Ffafriol Heb ei ddsbarthu (Medi 2011)	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y tirlyn yn llenwi ac yn gwagio yn unol ag amrywiadau tymhorol naturiol y ddyfrhaen dan yr wyneb. Yn nodweddiadol bydd yn llenwi â dŵr yn nghyfnod yr hydref-gwanwyn ac yn gwagio yn ystod misoedd yr haf. • Bydd patrwm naturiol a barthau llystyfiant yn amlwg yn ystod cyfnod sych y tirlyn, fel y pennir hynny gan amrywiad micro-dopograffig ym masn y tirlyn mewn perthynas â'r prif lyncdwll. • Bydd y parthau llystyfiant canlynol, ynghyd â rhywogaethau cysylltiedig nodweddiadol, yn bresennol: parth hydroffytig bryoffit; <i>parth Equisetum fluviatile</i>; parth <i>Carex vesicaria</i>; parth <i>Phalaris arundinacea</i>; parth coetir <i>Salix cinerea-Galium palustre</i>. • Bydd rhywogaethau o blanhigion estron megis <i>Crassula helmsii</i>, <i>Hydrocotyle ranunculoides</i>, <i>Myriophyllum aquaticum</i> ac <i>Azolla filiculoides</i> yn absennol • Bydd yr holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau uchod, yn cynnwys ansawdd dŵr, lefelau dŵr a datblygiad prysg, yn cael eu rheoli.
Atodiad I nodwedd gymwys y cynefin	Rhostir gwlyb Gogledd yr Ierdydd <i>Erica tetralix</i>	Ffafriol Heb ei ddsbarthu (Medi 2016)	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd rhostir gwlyb Gogledd yr Ierdydd yn meddiannu o leiaf 6ha o ACA Cernydd Carmel. • Bydd gan y rhostir gwlyb orchudd uchel (>25%) o gorlwyni, yn cynnwys grug <i>Calluna vulgaris</i>, grug croesddail <i>Erica tetralix</i> a llys <i>Vaccinium myrtillus</i>. • Bydd tyfiant cysylltiedig yn cynnwys eithin gorllewinol <i>Ulex galli</i> a <i>Molinia caerulea</i>, ond dim gorchudd uchel. • Bydd migwyn <i>Sphagnum</i> spp. yn amlwg yn y dywarchen. • Bydd prysg a rhedyn yn absennol ar y cyfan. • Mae'r holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau hyn, yn cynnwys pori a thresbasiad prysg/rhedyn, yn cael eu rheoli.
	Rhostir sych Ewropeaidd	Dinistriwyd: Yn rhannol (Medi 2016)	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd rhostir sych Ewropeaidd yn meddiannu o leiaf 19ha o ACA Cernydd Carmel. • Bydd y rhostir sych yn cael ei feddiannu gan gymysgedd amrywiol o rug <i>Calluna vulgaris</i>, llys <i>Vaccinium myrtillus</i> ac eithin gllewinol <i>Ulex gallii</i>, ond ni ddylai <i>U.gallii orchuddio mwy na 50%</i>. • Bydd prysg, rhedyn, miaren, brwyn tal, dail tafol mawr a danadl yn absennol ar y cyfan. • Ni fydd tir moel yn gorchuddio mwy na 10%. • Mae'r holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau hyn, yn cynnwys pori a thresbasiad prysg/rhedyn, yn cael eu rheoli.
	Cyforgorsydd actif	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Gorff 2016)	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd cyforgorsydd actif yn gorchuddio o leiaf 13ha o ACA Cernydd Carmel. • Bydd o leiaf pum uned o fawndir cyforgors yn bresennol, yn meddiannu cyfres o bantiau mawnog o fewn y gefnegrut melinfaen. • Bydd y llaid yn cefnogi fflora arbenigol yn cynnwys grug <i>Calluna vulgaris</i>, grug croesddail <i>Erica tetralix</i>, clwbfrwynen y mawn <i>Scirpus cespitosus</i>, clwbfrwynen y mynydd <i>Eriophorum vaginatum</i> plu'r gweunydd <i>E.angustifolium</i>, llafn y bladur <i>Bartheicum ossifragum</i> a gwllithlys <i>Drosera rotundifolia</i>. • Bydd migwyn <i>Sphagnum</i> spp, yn helaeth, tra bydd glaswellt y gweunydd <i>Molinia caerulea</i> a mathau arall a laswellt yn brin.

			<ul style="list-style-type: none"> • Bydd wyneb y llaid yn arddangos topograffeg o dwmpathau a cheudodau, gyda lawntiau o fwsogl Sphagnum yn meddiannu'r ceudodau gwlyb. • Bydd prysg a rhedyn yn absennol ar y cyfan. • Bydd yr holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau yma, yn cynnwys lefelau dŵr, lefelau maetholion a phori, yn cael eu rheoli.
	Fforestydd Tilio-Acerion ar lethrau, sgrïau a cheunentydd	Ffatriol Heb ei ddsbarthu (Gorff 2013)	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd coetir Tilio-Acerion yn meddiannu o leiaf 44ha o ACA Cernydd Carmel. • Bydd coetir Tilio-Acerion yn ymddangos fel clytwaith o goedydd bach ac ardaloedd o laswelltir rhyngddynt, gan ffurfio elfen nodweddiadol o batrwm tirlun hanesyddol Cernydd Carmel. Bydd dosbarthiad y coed yn adlewyrchu y patrwm o goetir a fapiwyd yn 1994. • O fewn ardaloedd y fforest uchel, bydd rhwng 10 a 25% o'r coetir yn cynnwys llennyrch agored neu fylchau canopi, er y gall lleoliad y llennyrch/bylchau canopi amrywio dros amser. • Dylai coed a phrysg o ystod eang o oedrannau a meintiau fod yn bresennol, yn cynnwys coed canopi swyddogaethol aeddfed, coed ifanc a haen o brysg actif. • Bydd adfywio coed/prysg cynhenid lleol yn helaeth. • Bydd y canopi yn cynnwys cymysgedd amrywiol o rywogaethau cynhenid yn cynnwys onnen <i>Fraximus excelsior</i>, derwen <i>Quercus spp.</i>, helygen ddeilgron <i>Salix caprea</i>, ywen <i>Taxus baccata</i> a llwyfen lydanddail <i>Ulmus glabra</i>. Bydd rhywogaethau haen prysg yn cynnwys collen <i>Corylus avellana</i>, draenen wen <i>Crateagus monogyna</i>, draenen ddu <i>Prunus spinosa</i>, piswydden <i>Euonymus europaeus</i> a chwyrosyn <i>Rhamnus catharticus</i>. Bydd rhywogaethau estron yn cynnwys y fasarnen <i>Acer pseudoplatanus</i> a'r ffawydden <i>Fagus sylvatica</i> yn absennol ar y cyfan. • Bydd yr haen maes yn cynnwys cymysgedd gyfoethog o berlyisiau coetir yn cynnwys <i>Ranunculus ficaria</i>, <i>Circaea lutetiana</i>, <i>Galium odoratum</i>, <i>Allium ursinum</i>, <i>Hyacinthoides non-scripta</i>, <i>Mercurialis perennis</i>, <i>Conopodium majus</i>, <i>Paris quadrifolia</i>, <i>Lamiastrum galeobdolon</i>, <i>Conopodium majus</i>, <i>Phyllitis scolopendrium</i>, <i>Arum maculatum</i> ac <i>Anemone nemorosa</i>. • Bydd mieri dwys yn absennol ar y cyfan. • Yn ardaloedd y goedwig uchel, bydd coed marw yn bresennol ar ffurf boncyffion/canghennau sydd yn sefyll neu wedi cwmpo. • Mae'r holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau uchod, yn cynnwys pori a blaenbori, yn cael eu rheoli.

Enw'r Safle: ACA Twyni Bae Caerfyrddin

Cyfeirnod Grid y Lleoliad: SN285074

Cod Safle JNCCUK0020019

Maint: 1206.32 ha

	Nodweddion Cymwys	Asesiad o Gyflwr	Amcanion Cadwraeth
Atodiad I prif reswm dros ddewis y cynefinoedd	Twyni symudol embryonig	Ffatriol Wedi ei gynnal (Gorff 2007)	<ul style="list-style-type: none"> Bydd prosesau naturiol yn cael eu caniatáu er mwyn pennu yr amser a'r lleoliad pan fo'r draethell a'r twyni embryonig yn bodoli. Ni fydd y prosesau hyn yn cael eu heffeithio gan ymyrraeth ddynol anuniongyrchol. Bydd traethell yn bresennol am o leiaf un flwyddyn o bob pump yn yr ardaloedd a glustnodwyd. Bydd twyni embryonig yn bresennol ar ochr atfor cefnen y twyni blaen symudol o leiaf un flynedd o bob tair. Mae'r holl ffactorau sydd yn effeithio ar y nodwedd hon yn cael eu rheoli
	"Twyni symudol ar hyd y glannau gydag <i>Ammophila arenaria</i> ("twyni gwyn")"	Ffatriol Wedi ei gynnal (Gorff 2007)	<ul style="list-style-type: none"> Bydd twyni symudol yn bodoli fel rhan o'r prosesau naturiol deinamig sydd yn creu systemau twyni. Bydd yna ryngweithio rhwng y tair system twyni fel y bydd proses naturiol erydiad mewn rhai rhannau a chroniant mewn rhannau eraill yn parhau heb unrhyw aflonyddu dynol uniongyrchol neu anuniongyrchol. Bydd twyni symudol yn cynnwys rhan arwyddocaol o'r system twyni ond bydd yn cynyddu a lleihau o ran maint a lleoliad wrth i brosesau naturiol bennu tirlun y systemau twyni. Mae o leiaf dau o'r tri safle yn y ACA yn bodloni'r cyfyngiadau a amlinellir yn y dangosydd perfformiad isod. Mae'r holl ffactorau sydd yn effeithio ar y nodwedd hon yn cael eu rheoli.
	"Twyni arfordirol sefydlog gyda llystyfiant llysieuol ("twyni llwyd")"	Anffatriol: Heb ei ddsbarthu (Ionawr 2015)	<ul style="list-style-type: none"> Bydd twyni sefydlog gyda llystyfiant llysieuol (twyni llwyd) yn bodoli pan fo twyni symudol hŷn yn dod yn fwy sefydlog ac yn ystod y cyfnodau dilyniannol cynnar yn cael eu coloneiddio gan gennau a rhywogaethau eraill sydd yn nodweddiadol o'r newid o gynefin llai symudol. Bydd y cynefin yn cwmpasu ystod o gyfnodau dilyniannol yn yr ardal yn gyfan gwbl, a hynny yn cael ei bennu gan batrymau o ffactorau naturiol a phori. Bydd twyni llwyd yn cynnwys rhan arwyddocaol o'r system twyni ond bydd yn cynyddu a lleihau o ran maint a lleoliad wrth i brosesau naturiol bennu tirlun y systemau twyni. Mae'r holl ffactorau yn cael eu rheoli.

	Twyni gyda <i>Salix repens</i> ssp. <i>Argentea</i> (<i>Salicion arenariae</i>)	Anffafriol Heb eu Dosbarthu (Awst 2007)	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd twyni gyda <i>Salix repens</i> a llac twyni gwlyb yn bodoli fel rhan o'r system twyni, a bydd eu lleoliad yn cael ei bennu gan brosesau naturiol a rheolaeth briodol ar bori. • Bydd ystod o gyfnodau dilyniannol i'w canfod yn y ddwy nodwedd. • Bydd y ffactorau sydd yn effeithio ar y nodweddion yn cael eu rheoli
	Llac twyni gwlyb	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Ionawr 2015)	
Atodiad II prif reswm dros ddewis y rhywogaeth:	Malwen droellog	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Medi 2016)	<ul style="list-style-type: none"> • Mae cynefin addas digonol yn bresennol i gefnogi niferoedd • Mae'r ffactorau sydd yn effeithio ar y nodwedd hon yn cael eu rheoli
	Llysiau'r afu petalog	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Mai 2016)	<ul style="list-style-type: none"> • gelir canfod y rhywogaeth ble mae'r amodau yn ffafriol a bod digon ohonynt i ffurfio poblogaeth hyfyw a chynaliadwy • Bydd y niferoedd yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar yr amodau, yn arbennig yn ystod blynyddoedd sychach, ond bydd y niferoedd hirdymor yn parhau i fod yn sefydlog a chynaliadwy. • Bydd gan lacau twyni addas rannau o dir moel sydd yn cael eu coloneiddio gan gen gludog (<i>Collema</i> spp.) a mwsogl <i>Barbula</i>. • Mae'r ffactorau sydd yn effeithio ar y nodwedd hon yn cael eu rheoli
	Tegeirian y fign galchog	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Hydref 2014)	<ul style="list-style-type: none"> • Mae cynefin addas digonol yn bresennol i gefnogi niferoedd • Mae'r ffactorau sydd yn effeithio ar y nodwedd hon yn cael eu rheoli

Enw'r Safle: ACA Afon Teifi			
Cyfeirnod Grid y Lleoliad: SN515508			
Cod Safle JNCCUK0012670			
Maint: 715.58 ha			
	Nodweddion Cymwys	Asesiad o Gyflwr	Amcanion Cadwraeth
Atodiad I prif reswm dros ddeuwis y cynefinoedd	Cyrsiau dŵr o lefelau gwastad a mynyddig gyda llystyfiant <i>Ranunculus fluitantis</i> a <i>Callitriche-Batrachion</i>	Ffafriol Heb ei ddsbarthu (Medi 2012)	<ul style="list-style-type: none"> Mae'n rhaid i'r amcan cwrs dŵr a ddiffiniwyd yn 4.1 gael ei gyflawni.. Dylai'r ystod naturiol o gymunedau planhigion a gynrychiolir yn y nodwedd hon fod yn sefydlog ac yn cynyddu yn y ACA. Dylai'r ardal a orchuddir gan y nodwedd o fewn ei ystod naturiol yn y ACA fod yn sefydlog neu'n cynyddu. Dylai statws cadwraethol rhywogaethau nodweddiadol y nodwedd fod yn ffafriol. Mae'r rhywogaethau nodweddiadol yn cael eu diffinio drwy gyfeirio at gyfansoddiad rhywogaethau math o llystyfiant afon JNCC priodol ar gyfer cyrhaeddiad yr afon benodol, oni bai fod hynn yn wahanol i'r math yma oherwydd amrywioldeb naturiol pan fo rhywogaethau nodweddiadol eraill yn gallu cael eu diffinio fel rhai priodol.
Atodiad I nodwedd gymwys y cynefinoedd	Dyfroedd llonydd oligotroffig i fesotroffig gyda llystyfiant <i>Littorelletea uniflorae</i> a/neu <i>Isoetes-Nanojuncetea</i>	Ffafriol Heb ei ddsbarthu (Medi 2003)	<ul style="list-style-type: none"> Mae'n rhaid i'r amcan cwrs dŵr a ddiffiniwyd yn 4.1 gael ei gyflawni.. Bydd cymuned llyn uwchdir dyfrol <i>Littorelletea uniflorae</i> yn bresennol ym mhob un o bump o Byllau Teifi (Llyn Hir, Llyn Teifi, Llyn Egnant, Llyn y Gorlan a Llyn Bach), a byddant yn hunangynhaliol yn yr hirdymor. Bydd cymuned <i>Littorelletea</i> wedi datblygu'n llawn yn bresennol yn Llyn Hir, yn cynnwys yr holl rywogaethau cydrannol sydd yn nodweddiadol o nodwedd y ACA, fel a gynrychiolir yn ACA Afon Teifi. Yn achos Llyn Teifi, Llyn Egnant, Llyn y Gorlan a Llyn Bach, bydd helaethder a chyfansoddiad y gymuned <i>Littorelletea</i> yn sefydlog ac yn cynyddu o ran ei ystod. Ni fydd yna ddirywiad yn statws cadwraethol y nodwedd fel y'i gynrychiolir yn y llynnoedd yma.
Atodiad II	Lampreiod y môr <i>Petromyzon marinus</i>	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Ionawr 2016)	<ul style="list-style-type: none"> Mae'n rhaid i'r amcan cwrs dŵr a ddiffiniwyd yn 4.1 gael ei gyflawni.. Mae niferoedd y nodwedd yn y ACA yn sefydlog neu'n cynyddu dros yr hirdymor.

Atodiad II prif reswm dros ddewis y rhywogaeth	Lampreiod y nant <i>Lampetra planeri</i>	Ffatriol Heb ei ddsbarthu (Hydref 2013)	<ul style="list-style-type: none"> Nid yw ystod naturiol y nodwedd yn y ACA yn lleihau ac nid yw'n debygol o leihau yn y dyfodol rhagweladwy. Mae yna gynefin digon mawr i gynnal niferoedd y nodwedd yn y ACA yn hirdymor, a bydd hynny'n parhau i fod yn wir.
	Lampreiod yr afon <i>Lampetra fluviatilis</i>	Ffatriol Heb ei ddsbarthu (Hydref 2013)	
	Eog yr Ierdydd <i>Salmo salar</i>	Ffatriol Heb ei ddsbarthu (Ionawr 2016)	
	Penbwl <i>Cottus gobio</i>	Anffatriol: Heb ei ddsbarthu (Ionawr 2012)	
	Dyfrgi <i>Lutra lutra</i>	Ffatriol Wedi ei gynnal (Mawrth 2010)	<ul style="list-style-type: none"> Mae niferoedd y dyfrgwn yn y ACA yn sefydlog neu yn cynyddu yn ystod yr hirdymor, a c mae hynny yn adlewyrchu capasiti cynnal y cynefin yn y ACA fel y pennir hynny gan lefelau naturiol digonedd ysglyfaeth ac ymddygiad tiriogaethol cysylltiedig. Nid yw ystod naturiol dyfrgwn yn y ACA yn lleihau ac nid yw'n debygol o leihau yn y dyfodol rhagweladwy. Mae symudiad a gwasgariad diogel unigolion o gwmpas y ACA yn cael ei hwyluso gan y ddarpariaeth, pan fo angen, o gynefin torlannol addas, a thanffyrdd, ysgafellau, ffensio etc. ar bontydd ffyrdd a rhwystrau artiffisial eraill.
Llyriad-y-dŵr arnofiol <i>Luronium natans</i>	Ffatriol Heb ei ddsbarthu (Medi 2012)	<ul style="list-style-type: none"> Mae'n rhaid i'r amcan cwrs dŵr a ddiffiniwyd yn 4.1 gael ei gyflawni.. Bydd niferoedd llyriad-y-dŵr arnofiol yn hyfyw drwy gydol eu dosbarthiad presennol yn y ACA (gan gynnal eu hunain yn hirdymor). Mae'n rhaid i bobl poblogaeth o lyriad-y-dŵr arnofiol allu atgennedlu'n rhywiol a/neu yn llystyfiannol yn llwyddiannus. Mae'n rhaid i botensial am gyfnewidiad genetig rhwng poblogaethau llyriad-y-dŵr arnofiol, yn a/neu y tu allan i'r ACA, fod yn amlwg yn yr hirdymor. Mae'n rhaid i wasgariad llyriad-y-dŵr arnofiol fod yn ddirwystr. Byd gan y ACA ddigon o gynefin addas i gefnogi poblogaethau o lyriad-y-dŵr arnofiol o fewn eu dosbarthiad presennol. Ni fydd yna ddim lleihau ar ddsbarthiad presennol y llyriad-y-dŵr arnofiol yn y ACA. 	

Enw'r Safle: ACA Afonydd Cleddau			
Cyfeirnod Grid y Lleoliad: SM938249			
Cod Safle JNCCUK0030074			
Maint: 751.71 ha			
	Nodweddion Cymwys	Asesiad o Gyflwr	Amcanion Cadwraeth
Atodiad I nodwedd gymwys y cynefinoedd	Cyrsiau dŵr o lefelau gwastad a mynyddig gyda llystyfiant Ranunculus fluitantis a Callitriche-Batrachion	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Ionawr 2012)	<ul style="list-style-type: none"> Mae'n rhaid i'r amcan cwrs dŵr a ddiffiniwyd yn 4.1 gael ei gyflawni.. Dylai'r ystod naturiol o gymunedau planhigion a gynrychiolir yn y nodwedd hon fod yn sefydlog ac yn cynyddu yn y ACA. Dylai'r ardal a orchuddir gan y nodwedd o fewn ei ystod naturiol yn y ACA fod yn sefydlog neu'n cynyddu. Dylai statws cadwraethol rhywogaethau nodweddiadol y nodwedd fod yn ffafriol. Mae'r rhywogaethau nodweddiadol yn cael eu diffinio drwy gyfeirio at gyfansoddiad rhywogaethau math o llystyfiant afon JNCC priodol ar gyfer cyrhaeddiad yr afon benodol, oni bai fod hynn yn wahanol i'r math yma oherwydd amrywioldeb naturiol pan fo rhywogaethau nodweddiadol eraill yn gallu cael eu diffinio fel rhai priodol.
	Cyforgorsydd actif	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Hydref 2012)	<ul style="list-style-type: none"> Ar yr ehangder llaid mae yna o leiaf 3 Calluna vulgaris, Erica tetralix, Eriophorum angustifolium, E.vaginatatum & Trichophorum cespitosum yn gyson, gyda gorchudd cyfun na dyw'n fwy na 80% - Dim rhywogaeth unigol > gorchudd 50% - Mae o leiaf un o blith Andromeda polifolia, Drosera rotundifolia, Empetrum nigrum, Narthecium ossifragum a Vaccinium oxycoccus yn bresennol yn rheolaidd. - Ar ehangder y llaid mae yna o leiaf 2 o'r spp. canlynol yn gyson, gyda gorchudd cyfun o >20%. Sphagnum capillifolium, S. magellanicum, S. papillosum, S. tenellum - Dim lleihad yn ehangder y nodweddion microtopograffig (e.e. pyllau cors).

	Fforestydd llifwaddodol gydag <i>Alnus glutinosa</i> a <i>Fraxinus excelsior</i> (<i>Alno-Padion</i> , <i>Alnion incanae</i> , <i>Salicion albae</i>)	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Tach 2012)	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r canopi wedi ei feddiannu gan edefynnau unigol o <i>Alnus glutinosa</i> neu brysg spp. Mewn coed llifwaddodol gyda phriddoedd draenio rhydd gall fod yna ynn neu dderw yn y canopi, ond yn y coetiroedd llifwaddodol gwlypach mae ynn <i>Fraxinus excelsior</i> yn fwy tebygol o gael eu gyfyngu i ardaloedd o dir cymharol sychach. Cydnabyddir bod strwythur coetir llifwaddodol yn ddeinamig, felly mae presenoldeb coed goraeddfed yn ddymunol ond nid yw'n hanfodol. Dylai'r afon ei hun fod yn ddeinamig er mwyn caniatáu ardaloedd o allolchi a dyddodi y gall coed atgynhyrchu arnynt. mae coed marw sy'n sefyll neu yn gorwedd (>20cm mewn diamedr a >1m o hyd) yn bresennol yn yr holl safleoedd. Dylai'r nodwedd gefnogi fflora tir llifwaddodol yn cynnwys dau o'r canlynol: erwain <i>Filipendula ulmaria</i>, gellesgen felen <i>Iris pseudacorus</i>, dannadl <i>Urtica dioica</i>, corsen <i>Phragmites australis</i>, hesgen rafunog fawr <i>Carex paniculata</i>, eglyn cyferbynddail <i>Chrysosplenium oppositifolium</i>, brwyn <i>Juncus</i> spp, brigwellt garw <i>Deschampsia cespitosa</i>, cegiden y dŵr <i>Onanthe crocata</i>, a llysiâu'r angel <i>Angelica sylvestris</i>.
Atodiad II prif reswm dros ddewis y rhywogaeth	Lampreiod y nant <i>Lampetra planeri</i>	Anffafriol: Wrthi'n adfer (Ionawr 2012)	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r amcan cwrs dŵr a ddiffiniwyd yn 4.1 yn cael ei gyflawni.. Mae'n rhaid i niferoedd y nodwedd yn y ACA fod yn sefydlog neu'n cynyddu dros yr hirdymor. Nid yw ystod naturiol y nodwedd yn y ACA yn lleihau ac nid yw'n debygol o leihau yn y dyfodol rhagweladwy. Ni ddylai symudiad y nodwedd drwy'r ACA gael ei rwystro gan rwystrau artiffisial megis coredau. Mae'r morffoleg sianel nodweddiadol yn darparu'r amrywiaeth o ddyfnderoedd dŵr, cyflymderau cerrynt a'r mathau o swbstradau sydd eu hangen i fodloni gofynion cynefin y nodweddion. Mae agosrwydd y gwahanol gynefinoedd yn hwyluso symudiad pysgod i gynefinoedd newydd a ffafrir wrth fynd yn hŷn.
	Lampreiod yr afon <i>Lampetra fluviatilis</i>	Anffafriol: Wrthi'n adfer (Ionawr 2012)	
	Penbwl <i>Cottus gobio</i>	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Tach 2006)	<ul style="list-style-type: none"> Mae'n rhaid i'r amcan cwrs dŵr a ddiffiniwyd yn 4.1 gael ei gyflawni.. Mae'n rhaid i niferoedd y nodwedd yn y ACA fod yn sefydlog neu'n cynyddu dros yr hirdymor. Nid yw ystod naturiol y nodwedd yn y ACA yn lleihau ac nid yw'n debygol o leihau yn y dyfodol rhagweladwy. Ni ddylai symudiad y nodwedd drwy'r ACA gael ei rwystro gan rwystrau artiffisial megis . Mae'r morffoleg sianel nodweddiadol yn darparu'r amrywiaeth o ddyfnderoedd dŵr, cyflymderau cerrynt a'r mathau o swbstradau sydd eu hangen i fodloni gofynion cynefin y nodweddion. Mae agosrwydd y gwahanol gynefinoedd yn hwyluso symudiad pysgod i gynefinoedd newydd a ffafrir wrth fynd yn hŷn.

	Dyfrgi Lutra lutra	Ffafriol Wedi ei gynnal (Mawrth 2010)	<ul style="list-style-type: none"> • Mae niferoedd y dyfrgwn yn y ACA yn sefydlog neu yn cynyddu yn ystod yr hirdymor, a c mae hynny yn adlewyrchu capasiti cynnal y cynefin yn y ACA . • Bydd gan y ACA ddigon o gynefin, yn cynnwys coed, lystyfiant a gwlypdiroedd torlannol, i gefnogi'r boblogaeth dyfrgwn yn yr hirdymor. • Nid yw ystod naturiol dyfrgwn yn y ACA yn lleihau ac nid yw'n debygol o leihau yn y dyfodol rhagweladwy. • Mae'n rhaid i'r dyfrgwn allu bridio a recriwtio yn llwyddiannus yn y ACA Gall maint y tiriogaethau bridio amrywio yn ddibynnol ar ddigonedd yr ysglyfaeth. • Mae'n rhaid i ffynonellau bwyd eraill fod yn ddigonol er mwyn cynnal y niferoedd. • Mae symudiad a gwasgariad diogel unigolion o gwmpas y ACA yn cael ei hwyluso gan y ddarpariaeth, pan fo angen, o gynefin torlannol addas, a thanffyrdd, ysgafellau, ffensio etc. ar bontydd ffyrdd a rhwystrau artiffisial eraill. • Ni ddylai unrhyw safle bridio dyfrgwn fod yn destun lefel o aflonyddwch allai effeithio'n niweidiol ar lwyddiant bridio. Pan fo angen, mae'n rhaid rheoli lefelau aflonyddwch allai fod yn niweidiol.
Atodiad II nodwedd gymwys y rhywogaeth	Lampreiod y môr Petromyzon marinus	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Ionawr 2012)	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r amcan cwrs dŵr a ddiffiniwyd yn 4.1 yn cael ei gyflawni... • Mae'n rhaid i niferoedd y nodwedd yn y ACA fod yn sefydlog neu'n cynyddu dros yr hirdymor. • Nid yw ystod naturiol y nodwedd yn y ACA yn lleihau ac nid yw'n debygol o leihau yn y dyfodol rhagweladwy. • Ni ddylai symudiad y nodwedd drwy'r ACA gael ei rwystro gan rwystrau artiffisial megis coredau. • Mae'r morffoleg sianel nodweddiadol yn darparu'r amrywiaeth o ddyfnderoedd dŵr, cyflymderau cerrynt a'r mathau o swbstradau sydd eu hangen i fodloni gofynion cynefin y nodweddion. Mae agosrwydd y gwahanol gynefinoedd yn hwyluso symudiad pysgod i gynefinoedd newydd a ffafir wrth fynd yn hŷn.
<p>Enw'r Safle: ACA Bae ac Aberoedd Caerfyrddin</p> <p>Cyfeirnod Grid y Lleoliad: SS357991</p> <p>Cod Safle JNCC: UK0020020</p> <p>Maint: 66092.05</p>			
	Nodweddion Cymwys	Asesiad o Gyflwr	Amcanion Cadwraeth

Atodiad I prif reswm dros ddewis y cynefinoedd	Banciau tywod sydd wedi eu gorchudd ychydig gan ddŵr môr drwy'r adeg.	Anffafriol: Yn dirywio (Tach 2006)	<p>Cyrhaeddiad: Mae dosbarthiad cyffredinol a maint y nodweddion cynefin ar y safle, a phob un o'r prif gydrannau yn sefydlog neu'n cynyddu.</p> <p>Strwythur a swyddogaeth Nid yw strwythur a swyddogaeth ffisegol, biolegol a chemegol sydd eu hangen ar gyfer cynnal hirdymor ac ansawdd y cynefin yn dirywio. Mae'r elfennau pwysig yn cynnwys: daeareg, gwaddodeg, geomorffoleg, hydrograffeg a meteoroleg, cemeg dŵr a gwaddod, rhyngweithio biolegol.</p> <p>Mae hynny yn cynnwys angen i lefelau maetholion mewn colofn ddŵr a gwaddod fod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ar neu'n is na lefelau crynodiadau canllawiau statudol presennol • o fewn ystodau nad ydynt o bosibl yn niweidiol i gynnal poblogaethau rhywogaethau'r nodwedd yn yr hirdymor, eu helaethder a'u cyrhaeddiad. <p>Lefelau halogyddion yn y golofn ddŵr a'r gwaddodau sy'n deillio o weithgaredd dynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ar neu'n is na lefelau crynodiadau canllawiau statudol presennol • yn is na'r lefelau fyddai o bosibl yn arwain at gynnydd mewn crynodiadau halogiad mewn gwaddodau a biota • yn is na lefelau sydd o bosibl yn niweidiol i gynnal poblogaethau rhywogaethau'r nodwedd yn yr hirdymor, eu helaethder a'u cyrhaeddiad. <p>Yn achos dolydd heli mae hynny yn cynnwys morffoleg cilfachau a chletiroedd y morfeydd heli.</p> <p>Rhywogaethau nodweddiadol: Mae presenoldeb, digonedd, cyflwr ac amrywiaeth y rhywogaethau nodweddiadol ar lefelau sy'n golygu nad yw ansawdd y cynefin wedi dirywio. Mae elfennau pwysig yn cynnwys, cyfoeth rhywogaethau, strwythur a deinameg poblogaeth, iechyd ffisiolegol, capasiti atgenhedlu, recriwtio cyrhaeddiad symudedd</p> <p>Fel rhan o'r amcan yma dylid nodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae angen i niferoedd rhywogaethau nodweddiadol sydd yn destun pysgodfeydd masnachol presennol gael lefel o ddigonedd sydd yn hafal i neu yn fwy na'r hyn sydd yn ofynnol er mwyn cynhyrchu'r cnwd cynaliadwy mwyaf posibl a sicrwydd hirdymor, • mae'r ffordd o reoli gweithgareddau neu weithrediadau sydd yn debygol o effeithio'n niweidiol ar nodwedd cynefin yn briodol ar gyfer ei chynnal mewn cyflwr ffafriol a bod hynny yn ddiogel yn yr hirdymor.
	Aberoedd	Ffafriol Wedi eu cynnal (Tach 2006)	
	Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod nad ydynt wedi eu gorchuddio â dŵr môr ar drai	Ffafriol Wedi eu cynnal (Tach 2006)	
	Cilfachau a baeau bas mawr	Ffafriol Wedi eu cynnal (Tach 2006)	
	Salicornia ac unflwyddiaid eraill yn coloneiddio llaid a thywod	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Hydref 2006)	
	Dolydd halen yr Ierdydd (Glaucopuccinellietalia maritimae)	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Ionawr 2012)	

Atodiad II prif reswm dros ddewis y rhywogaeth	Gwangen Alosa fallax	Anffafriol: Dim newid (Tach 2006)	<p>Poblogaeth: Mae'r niferoedd yn cynnal eu hunain yn yr hirdymor fel cydran hyfyw yn eu cynefin naturiol Mae elfennau pwysig yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • maint poblogaeth • strwythur, cynhyrchiant • cyflwr y rhywogaeth ar y safle <p>Fel rhan o'r amcan yma dylid nodi;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae beichiau halogion sy'n deillio o weithgaredd dynol yn is na lefelau allai achosi niwed ffisiolegol, neu'n imiwn i ataliad atgenhedlol.
Atodiad II nodwedd gymwys y rhywogaeth	Lampreiod y môr Petromyzon marinus	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Ebrill 2005)	<p>Cyrhaeddiad: Mae niferoedd y rhywogaeth ar y safle yn golygu nad yw cyrhaeddiad naturiol y boblogaeth yn cael ei leihau nac yn debygol o gael ei leihau yn y dyfodol rhaglweledwy.</p>
	Lampreiod yr afon Lampetra fluviatilis	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Ebrill 2005)	<p>Fel rhan o'r amcan yma dylid nodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid yw eu cyrhaeddiad o fewn y ACA nad ardaloedd rhyng-gysylltiedig cyfagos wedi ei gyfyngu na'i rwystro. • Mae yna ffynonellau bwyd priodol a digonol yn y ACA a thu hwnt. • Mae'r safleoedd a faint o gynefin ategol a ddefnyddir gan y rhywogaethau yma yn hygyrch ac mae eu helaethder a'u hansawdd yn sefydlog neu'n cynyddu. <p>Cefnogi cynefinoedd a rhywogaethau: Mae presenoldeb, digonedd, cyflwr ac amrywiaeth cynefinoedd a rhywogaethau sydd eu hangen i gefnogi'r rhywogaeth ar lefelau sy'n golygu bod dosbarthiad, digonedd a deinameg poblogaethau'r rhywogaeth ar y safle a niferoedd y tu hwnt i'r safle yn sefydlog neu'n cynyddu. Mae ystyriaethau pwysig yn cynnwys;</p> <ul style="list-style-type: none"> • dosbarthiad • helaethder • strwythur • swyddogaeth ac ansawdd cynefin • argaeledd ac ansawdd ysglyfaeth
	Herlyn Alosa alosa	Anffafriol: Dim newid (Tach 2006)	Fel rhan o'r amcan yma dylid nodi;

	Dyfrgi Lutra lutra	Ffafriol Heb ei ddsbarthu (Maiwrth2010)	<ul style="list-style-type: none"> • Mae digonedd rhywogaethau ysglyfaeth sydd yn destun pysgodfeydd masnachol presennol gael lefel sydd yn hafal i neu yn fwy na'r hyn sydd yn ofynnol er mwyn cynhyrchu'r cnwd cynaliadwy mwyaf posibl a sicrwydd hirdymor,. • Mae'r ffordd o reoli gweithgareddau neu weithrediadau sydd yn debygol o effeithio'n niweidiol ar nodwedd rhywogaeth yn briodol ar gyfer ei chynnal mewn cyflwr ffafriol a bod hynny yn ddiogel yn yr hirdymor. • Dylai halogiad rhywogaethau ysglyfaeth posibl fod yn is na chrynodeiadau sydd o bosibl yn niweidiol i'w iechyd ffisiolegol. • Mae aflonyddwch gan weithgaredd dynol yn is na lefelau sydd yn effeithio ar lwyddiant atgennedlu, iechyd ffisiolegol neu ymddygiad hirdymor. • Yn achos dyfrgwn mae yna ddigono ffynonellau yn y ACA a thu hwnt o ddŵr croyw o ansawdd uchel ar gyfer yfed ac ymolchi.
<p>Enw'r Safle: ACA Cwm Doethie- Mynydd Mallaen</p> <p>Cyfeirnod Grid y Lleoliad: SN747458</p> <p>Cod Safle JNCCUK0030128</p> <p>Maint: 4121.73ha</p>			
	Nodweddion Cymwys	Asesiad o Gyflwr	Amcanion Cadwraeth

<p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Atodiad I prif reswm dros ddewis y cynefinoedd</p>	<p>Hen goedydd derwen mes di-goes gyda chelynnen a Gwibredynen yn Ynysoedd Prydain.</p>	<p>Anffafriol: Heb eu Dosbarthu (Awst 2012)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae hen goedydd derwen mes di-goes yn parhau i fod yn nodwedd arwyddocaol ac amlwg o lethrau uwchdir y dyffrynnoedd yn ardal y cynllun Mae'r rhai yn nyffrynnoedd Elan a Chlaerwen ac ardal Rhaeadr, ardal Dinas a Gwenffrwd yn nyffryn Tywi uchaf a dyffryn Cothi i'r gogledd o Fynydd Afallen yn benodol wedi eu datblygu'n dda ac yn helaeth. • Mae'r ffin rhwng y coetir a'r cynefin uwchdir ffiniol yn aml yn un hyblyg ble mae coed yn atgynhyrchu ar dir agored. Mewn nifer o leoliadau mae coetir derw yn ffurfio lleiniau mewn ardaloedd ffridd ble ceir llai o bwysau pori ar wreiddiau'r uwchdir. • Mae gan y coetir derw amrywiaeth o wahanol strwythurau ac mae ei gymeriad yn amrywio o le i le, o hen ardaloedd canopi caeedig i borfeydd coediog agored yn bennaf. • Y coed mwyaf mynych yw'r dderwen mes di-goes, ond mewn mannau mae'r fedwen yn amlycach. Mae coed criafol a choed eraill i'w gweld fel cydran fechan, ac ar odre'r lethrau ble mae coetir derw yn graddol newid i fod yn goetir gwlyb, ceir rhai coed gwern a helyg. Bydd coed estron megis ffawydd a'r fasarnen yn bresennol, ond dim ond mewn niferoedd bychan ac maent yn gyffredinol brin. • Mae prysgwydd isdyfiant yn gyffredinol yn eithaf prin, ond gellir canfod grwpiau gwasgaredig o gollen neu gelynnen mwn rhai coedydd. • Mae'r gorchudd tir yn amrywio'n eang. Bydd rhannau wedi eu gorchuddio â rhedyn, eraill yn welltog, ac mae gan eraill ystod ehangach o blanhigion blodeuog a rhedyn, ac yn aml maent wedi eu gorchuddio â bwtsiasen y gog yn y gwanwyn. Ar briddoedd tenau mewn sefyllfaoedd gwllithog cysgodol mae yna garpedi moethus o fwsogl a llysiâu'r afu, gyda neu heb brysgwydd isdyfiant megis grub a llys. • Mae'r coed mwyaf yn cefnogi amrywiaeth o gen ar eu boncyffion a'u canghennau. • Ym mhob bloc o goetir, mae coed ynn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau oedd yn bresennol, ac mae hen goes yn amlwg mewn rhai ardaloedd, yn arbennig ble ceir porfeydd coediog. • Ym mhob ardal ar wahân i borfeydd coediog, mae yna dystiolaeth o atgynhyrchu gwirioneddol ar ffurf eginblanhigion a glasbrennau neu botensial ar gyfer atgynhyrchu, ac mewn rhai ardaloedd o borfeydd coediog gall plannu a gwarchod coed ifanc, yn arbennig derw, fod yn briodol. • Mae cod marw wedi ei wasgaru'n dda ac weithiau yn helaeth, yn gorwedd ar lawr y coetir ac fel coed marw ar eu traed neu ganghennau coed. • Mae gan y rhan fwyaf o'r coetir dewr ganopi caeedig, ond mae yna rai llennyrch ac ardaloedd llawer mwy sydd yn borfeydd coediog i bob pwrpas. Dylai'r amodau yma fod yn sympathetig i boblogaethau pwysig o fwsogl a llysiâu'r afu ar y naill law a chen ar y llaw arall. • Mae'r coed derw yn cefnogi crynodiad nodweddiadol o adar, megis telor y coed, gwybedog brith a'r tingoch. • Gall patrwm a dosbarthiad coetir sydd wedi neu heb ei bori newid gydag amser wrth i wahanol anghenion cadwraeth godi. • Mae'r holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau hyn yn cael eu rheoli.
---	---	--	--

Atodiad I nodwedd gymwys y cynefinoedd	Rhostir sych Ewropeaidd	Anffafriol: Wrthi'n adfer (Medi 2012)	<ul style="list-style-type: none"> • Mae ehangder, ansawdd ac amrywiaeth llystyfiant y rhostir yn y safleoedd cydrannol yn cael eu cynnal, a phan fo' bosibl mae rhostir sydd wedi diraddio yn cael ei adfer i gyflwr da. • - Mae gan y prif ardaloedd rhostir strwythur oedran amrywiol a chlytwaith o ros ifanc, rhos aeddfed a rhos wedi diraddio. • - Mae llethrau heulog mewn rhai ardaloedd penodol yn cefnogi llystyfiant sydd yn cynnwys grug y mêl a'r eithinen fân, ac mae gan lethrau sydd yn wynebu'r de amrywiaeth eang o fwsogl a llywiau'r afu o dan y canopi o gorlwyni, yn cynnwys migwyn mewn rhai ardaloedd. • - Mae niferoedd planhigion anghyffredin, megis y caineirian bach, yn sefydlog neu'n cynyddu. • - Mae'r ardaloedd rhostir mwyaf yn darparu cynefin addas ar gyfer adar sy'n bridio, yn cynnwys y grugiar a'r cudyll bach. • Mae'r holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau hyn yn cael eu rheoli
--	-------------------------	--	--

Enw'r Safle: ACA Bae Ceredigion Cyfeirnod Grid y Lleoliad: SN214641 Cod Safle JNCC@ UK0012712 Maint: 4121.73ha			
	Nodweddion Cymwys	Aseiad o Gyflwr	Amcanion Cadwraeth
Atodiad I nodwedd gymwys y cynefinoedd	Banciau tywod sydd wedi eu gorchudd ychydig gan ddŵr môr drwy'r adeg.	Heb ei asesu	<p>Cyrhaeddiad: Mae dosbarthiad cyffredinol a maint y nodweddion cynefin ar y safle, a phob un o'r prif gydrannau yn sefydlog neu'n cynyddu.</p> <p>Yn achos nodweddion y riff, mae'r rain yn cynnwys; riffiau craigwely mewnol, cloblau rhynglanwol, cerigos gyda riffiau Sabellaria alveolata (biogenig), riffiau craigwely islanwol, riffiau cerrig, clobau a clogfaen, ogofau morol</p> <p>Strwythur a Swyddogaeth: Nid yw strwythur a swyddogaeth ffisegol, biolegol a chemegol sydd eu hangen ar gyfer cynnal hirdymor ac ansawdd y cynefin yn dirywio. Mae'r elfennau pwysig yn cynnwys: daeareg, gwaddodeg, geomorffoleg, hydrograffeg a meteoroleg, cemeg dŵr a gwaddod, rhyngweithio biolegol</p> <p>Mae hynny yn cynnwys angen i lefelau maetholion mewn colofn ddŵr a gwaddod fod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ar neu'n is na lefelau crynodiadau canllawiau statudol presennol • o fewn ystodau nad ydynt o bosibl yn niweidiol i gynnal poblogaethau rhywogaethau'r nodwedd yn yr hirdymor, eu helaethder a'u cyrhaeddiad. <p>Lefelau halogyddion yn y golofn ddŵr a'r gwaddodau sy'n deillio o weithgaredd dynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ar neu'n is na lefelau crynodiadau canllawiau statudol presennol • yn is na'r lefelau fyddai o bosibl yn arwain at gynnydd mewn crynodiadau halogiad mewn • gwaddodau neu fiota • yn is na lefelau sydd o bosibl yn niweidiol i gynnal poblogaethau rhywogaethau'r nodwedd yn yr hirdymor, eu helaethder a'u cyrhaeddiad., gan ystyried eu biogroniad a biochwyddiad. <p>Rhywogaethau nodweddiadol: Mae presenoldeb, digonedd, cyflwr ac amrywiaeth y rhywogaethau nodweddiadol ar lefelau sy'n golygu nad yw ansawdd y cynefin wedi dirywio. Mae elfennau pwysig yn cynnwys</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfoeth rhywogaethau: • strwythurau a deinameg poblogaethau, • iechyd ffisiolegol, • capasiti atgenhedlu • recrwtio, • symudedd
	Riffiau	Heb ei asesu	

	Ogofau morol suddedig neu rannol suddedig	Ffafriol Wedi eu cynnal (Tach 2006)	<ul style="list-style-type: none"> • cyrhaeddiad <p>Fel rhan o'r amcan yma dylid nodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae angen i niferoedd rhywogaethau nodweddiadol sydd yn destun pysgodfeydd masnachol presennol gael lefel o ddigonedd sydd yn hafal i neu yn fwy na'r hyn sydd yn ofynnol er mwyn cynhyrchu'r cnwd cynaliadwy mwyaf posibl a sicrwydd hirdymor, • mae'r ffordd m reoli gweithgareddau neu weithrediadau sydd yn debygol o effeithio'n niweidiol ar nodwedd cynefin yn briodol ar gyfer ei chynnal mewn cyflwr ffafriol a bod hynny yn ddiogel yn yr hirdymor.
Atodiad II prif reswm dros ddewis y rhywogaeth	Dolffin trwyn potel <i>Tursiops truncatus</i>	Ffafriol: Wedi ei gynnal (Ionawr 2007)	<p>Poblogaethau: Mae'r niferoedd yn cynnal eu hunain yn yr hirdymor fel cydran hyfyw yn eu cynefin naturiol</p> <p>Mae elfennau pwysig yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • maint poblogaeth • strwythur, cynhyrchiant • cyflwr y rhywogaeth ar y safle <p>Fel rhan o'r amcan yma dylid nodi, yn achos y Dolffin Trwyn Potel a'r Morlo Llwyd;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae beichiau halogion sy'n deillio o weithgaredd dynol yn is na lefelau allai achosi niwed ffisiologol, neu'n imiwn i ataliad atgenhedlol. <p>Yn achos y Morlo Llwyd, ni ddylai niferoedd ostwng o ganlyniad i weithgaredd dynol</p> <p>Cyrhaeddiad: Mae niferoedd y rhywogaeth ar y safle yn golygu nad yw cyrhaeddiad naturiol y boblogaeth yn cael ei leihau nac yn debygol o gael ei leihau yn y dyfodol rhaglweledwy.</p> <p>Fel rhan o'r amcan yma dylid nodi, yn achos y Dolffin Trwyn Potel a'r Morlo Llwyd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid yw eu cyrhaeddiad o fewn y ACA nad ardaloedd rhyng-gysylltiedig cyfagos wedi ei gyfyngu na'i rwystro • Mae yna ffynonellau bwyd priodol a digonol yn y ACA a thu hwnt • Mae'r safleoedd a faint o gynefin ategol a ddefnyddir gan y rhywogaethau yma yn hygyrch ac mae • eu helaethder a'u hansawdd yn sefydlog neu'n cynyddu. <p>Cefnogi cynefinoedd a rhywogaethau: Mae presenoldeb, digonedd, cyflwr ac amrywiaeth cynefinoedd a rhywogaethau sydd eu hangen i gefnogi'r rhywogaeth ar lefelau sy'n golygu bod dosbarthiad, digonedd a deinameg poblogaethau'r rhywogaeth ar y safle a niferoedd y tu hwnt i'r safle yn sefydlog neu'n cynyddu. Mae ystyriaethau pwysig yn cynnwys;</p> <ul style="list-style-type: none"> • dosbarthiad • helaethder
Atodiad II nodwedd	Lampreiod y môr <i>Petromyzon marinus</i>	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Ebrill 2005)	
	Lampreiod yr afon <i>Lampetra fluviatilis</i>	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Ebrill 2005)	

	Morlo llwyd <i>Halichoerus grypus</i>	Ffafriol: Wedi ei gynnal (Ionawr 2007)	<ul style="list-style-type: none"> • strwythur • swyddogaeth ac ansawdd cynefin • argaeledd ac ansawdd ysglyfaeth <p>Fel rhan o'r amcan yma dylid nodi;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae digonedd rhywogaethau ysglyfaeth sydd yn destun pysgodfeydd masnachol presennol gael lefel sydd yn hafal i neu yn fwy na'r hyn sydd yn ofynnol er mwyn cynhyrchu'r cnwd cynaliadwy mwyaf posibl a sicrwydd hirdymor,. • Mae'r ffordd o reoli gweithgareddau neu weithrediadau sydd yn debygol o effeithio'n niweidiol ar nodwedd rhywogaeth yn briodol ar gyfer ei chynnal mewn cyflwr ffafriol a bod hynny yn ddiogel yn yr hirdymor. • Dylai halogiad rhywogaethau ysglyfaeth posibl fod yn is na chrynodeiadau sydd o bosibl yn niweidiol i'w iechyd ffisiolegol. • Mae aflonyddwch gan weithgaredd dynol yn is na lefelau sydd yn effeithio ar lwyddiant atgenhedlu, iechyd ffisiolegol neu ymddygiad hirdymor <p>Adferiad: Fel rhan o'r amcan yma dylid nodi, yn achos y Dolffin Trwyn Potel, y dylai niferoedd fod yn cynyddu.</p>
--	---------------------------------------	---	---

Enw'r Safle: ACA Coetiroedd Gogledd Sir Gaerfyrddin Cyfeirnod Grid y Lleoliad: SN046345 Cod Safle JNCC@ UK0030227 Maint: 4121.73ha			
	Nodweddion Cymwys	Aseiad o Gyflwr	Amcanion Cadwraeth
Atodiad I prif reswm dros ddewis y cynefinoedd	Hen goedydd derwen mes di-goes gyda chelynnen a Gwibredynen yn Ynysoedd Prydain.	Anffafriol: Wrthi'n adfer (Mai 2010)	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd yn rhan fwyaf o'r ACA wedi ei orchuddi gan goetir derw. • Ni fydd yna golli coetir rhannol naturiol parhaol y gellir ei fesur. • Bydd y coed yn lleol gynhenid, gyda derw yn amlwg yn y canopi, ac yn cynnwys onnen a choed criafol. • Ni fydd mwy na 5% o'r coed sy'n ffurfio'r canopi yn cynnwys rhywogaethau nad ydynt yn frodorol. • Bydd pob coetir yn cynnwys coed o ystod eang o ddosbarthiadau oed, yn cynnwys hen goed. • Bydd rhwng 10-25% o'r ardal coetir yn cynnwys patrwm bylchau deinamig a symudol: yn yr hirdymor, bydd y rhan fwyaf o'r rhain yn cael eu creu gan brosesau naturiol. • Bydd yna ddigon o atgynhyrchu naturiol i amnewid y canopi yn y bylchau hyn dros amser. • Bydd yna ddigon o goes marw a choed sydd yn marw sydd â thyllau a gwactodau, colofnau pydredd, canghennau wedi eu rhwygo a changhennau wedi pydru. Bydd coed marw, yn sefyll ac wedi cwmpo, yn cael ei cadw er mwyn darparu cynefinoedd i rywogaethau eraill, a bydd yn cynrychioli o leiaf 10% (yn ôl maint) o'r holl goed. • Bydd hen goed yn cael eu ffafrio yn ystod unrhyw gamau rheoli coedamaeth oherwydd eu bod yn cefnogi amrywiaeth eang o rywogaethau, yn cynnwys cen. • Bydd rhywogaethau o gen hen goedwigoedd i'w canfod yn y safle drwyddo draw, yn arbennig ar goed sy'n cael golau da o gwmpas ymylon y coetir a llennyrch. • Bydd rhywogaethau estron ymwithiol, megis rhododendron, llawryf a llysiâu'r dial, yn cael eu dileu maes o law oddi ar y safle, neu'n cael eu cyfyngu i orchudd isel yn unig. • Bydd yna haen o brysg wedi ei ddatblygu yn dda yn y Sac drwyddo draw yn cynnwys collen a chelynnen • Bydd yr haen mae syn amrywiol ac yn cynnwys marchredynnen, coedfrwynen, bwtsiasen y gog, suran y coed, bresychen y cŵn, eglun cyferbynddail, llys, rhedyn, mieri a fioledau. • Byd y coetiroedd yn cefnogi poblogaethau o loynnod, adar a mamaliaid. • Bydd yr holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau uchod yma yn cael eu rheoli.

Atodiad I nodwedd gymwys y cynefinoedd	<p>Fforestydd llifwaddodol gydag <i>Alnus glutinosa</i> a <i>Fraxinus excelsior</i> (<i>Alno-Padion</i>, <i>Alnion incanae</i>, <i>Salicion albae</i>)</p>	<p>Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Mehefin 2016)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd o leiaf 2% o'r ACA wedi ei orchuddi gan goetir llifwaddodol. • Bydd y canopi yn cynnwys coed lleol brodorol, a choed gwern yn fwyaf amlwg yn gyffredinol. Bydd o leiaf 90% o'r coed canopi yn rhywogaethau coetir gwlyb. Ni fydd yna ddim coed anffrodorol yn bresennol yn y canopi. • Yn yr hirdymor, bydd pob coetir yn cynnwys coed o ystod eang o ddsbarthiadau oed, yn cynnwys glas brennau a hen goed. • Ar unrhyw adeg penodol, bydd o leiaf 30% o'r ardal coetir yn cynnwys patrwm symudol, deinamig, o fylchau canopi, yn cael eu cynnal gan brosesau naturiol. • Bydd yna ddigon o atgynhyrchu naturiol yn y bylchau (o hadau neu'n llystyfiannol) er mwyn amnewid y canopi, a bydd 90% o hynny yn wern neu'n helyg. • Bydd yna ddigon o goes marw a choed sydd yn marw sydd â thyllau a gwactodau, colofnau pydredd, canghennau wedi eu rhwygo a changhennu wedi pydru. Bydd coed marw, yn sefyll ac wedi cwmpo, yn cael ei cadw er mwyn darparu cynefinoedd i rywogaethau eraill, a bydd yn cynrychioli o leiaf 10% (yn ôl maint) o'r holl goed. • Ni fydd dim tystiolaeth o glefyd gwern. • Bydd hen goed yn cael eu ffafrio yn ystod unrhyw gamau rheoli coedamaeth oherwydd eu bod yn cefnogi amrywiaeth eang o rywogaethau, yn cynnwys cen. Bydd rhywogaethau o gen hen goedwigoedd i'w canfod yn y safle drwyddo draw, yn arbennig ar goed sy'n cael golau da o gwmpas ymylon y coetir a llennyrch. • Bydd rhywogaethau estron ymwithiol, megis rhododendron, llawryf a llyisiau'r dial, yn cael eu difodi maes o law oddi ar y safle, neu'n destun rhaglen rheoli difodiad. • Bydd yr haen maes yn amrywiol ac wedi ei meddiannu gan rywogaethau llifwaddodol. Bydd dangosyddion sychu (mieri) a gor-bori (blodyn menyn ymlusgol) yn brin. • Bydd yr holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau uchod yma yn cael eu rheoli.
--	--	---	--

Atodiad II prif resymau dros ddewis y rhywogaeth	Ystlum Du <i>Barbastella barbastellus</i>	Ffatriol: Heb eu Dosbarthu (Awst 2012)	<ul style="list-style-type: none"> • Ni fydd yna golli coetir lled naturiol hynafol ar y safle. • Bydd bylchau canopi yn bresennol yn y safle drwyddo draw, a bydd dwy neu ragor o geod ifanc yn tyfu ym mhob un. • Bydd y gorchudd canopi yn 50-90% yn y safle drwyddo draw (ac eithrio mewn caeau o ddraenen wen). • Bydd haen o brysg wedi datblygu'n dda yn bresennol yn y coetir drwyddo draw, er mwyn darparu hinsawdd micro ffatriol ar gyfer ystlumod duon sy'n clwydo. • Caniateir i leiafswm o 4 coeden am bob hectar farw ar eu traed, ac ni fyddant yn cael ei gwaredu na'u torri. Bydd y rhain yn cael eu dosbarthu ar draws y safle a byddant yn cynnwys coed â holltau, coed wedi cwmpo neu'n gwyro a choed gwag. • Bydd eiddew yn cael tyfu ar goed ar y safle drwyddo draw, er mwyn darparu cyfleoedd i glwydo. • Ni fydd yna golli dŵr agored yn gyffredinol. • Ni fydd yna gynnydd mewn aflonyddwch (e.e. llwybrau neu reidiau) yn agos i unrhyw un o'r safleoedd clwydo. • Ni fydd unrhyw safleoedd clwydo yn cael eu colli o ganlyniad i ymyrraeth ddynol. • Bydd llwybrau pasio yr ystlum du yn cael eu canfod ar o leiaf 4 allan o 6 trawslun rhwng 25 Gorffennaf a 7 Medi. • Bydd yna gynefin porthianna addasc yfagos o fewn radiws o 16km o amgylch Coedwig Pengelli, yn cynnwys dyffrynnoedd coediog a nentydd, gwrychoedd isel a rhai wedi gordyfu, prysg, porfeydd wedi gordyfu, rhedyn a choetir (all gynnwys planhigfeydd conwydden). • Bydd manau clwydo y tu allan i ffin y SSSI yn cael eu gadael heb aflonyddu arnynt, ac ni fyddir yn rheoli coetir o fewn 50m o fam clwydo Ystlum Du ac ni fyd haen prysg yn cael ei glirio. Ni ddylid aflonyddu ar geod gor aeddfed yn unrhyw un o'r coetiroedd o fewn 2km o Bengelli, ac eithrio pan maent yn achosi risg i ddiogelwch y cyhoedd, pryd y byddir yn caniatáu mân driniaeth. • Bydd yr holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau uchod yma yn cael eu rheoli.
--	---	---	---

Enw'r Safle: ACA Ucheldir Yerboston Cyfeirnod Grid y Lleoliad: SN057099 Cod Safle JNCC@ UK0030305 Maint: 18.6ha			
	Nodweddion Cymwys	Aseiad o Gyflwr	Amcanion Cadwraeth
Atodiad I nodwedd gymwys y cynefinoedd	Dolydd Molinia ar briddoedd calchaid, mawnog neu gleiog-llawn-silt (Molinion caeruleae)	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Medi 2017)	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd dolydd Molinio yn gorchuddio o leiaf 4ha. • Bydd y planhigion canlynol yn gyffredin ar y dolydd Molinia: glaswellt y geunydd Molinia caerulea; hesg bychan yn cynnwys Carex pulicaris a hostiana, a thamaid y cythraul Succisa pratensis. • Bydd y frwynen fawr Juncus effusus rhywofgaethau sydd yn nodweddiadol o addasu amaethyddol, megis rhygwellt parhaol Lolium perenne a'r feillionen wen Trifolium repens, yn absennol ar y cyfan o'r ddôl Molinia. • Hefyd bydd rhywogaethau prysg megis yr Helygen a'r Fedwen y absennol o'r ddôl • • Bydd yr holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau hyn yn cael eu rheoli
Atodiad II prif resymau dros ddewis y rhywogaeth	Britheg y Gors Euphydryas (Eurodryas, Hypodryas) aurinia	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Medi 2017)	<ul style="list-style-type: none"> • Mae dwysedd gwe larfal yn ystod y sampl yn o leiaf 200 am bob hectar o gynefin bridio. • Mae yna o leiaf 10ha o gynefin Cyflwr Da (bridio optimaidd) ar neu o fewn radiws o 2km i'r SSSI. • • Mae yna o leiaf 50ha o gynefin Cyflwr Addas ar neu o fewn radiws o 2km i'r SSSI. • • Mae cynefin bridio optimaidd yn cynnwys glaswelltir, gyda digonedd o Molinia, ble mae uchder y llystyfiant o fewn ystod o 10 i 20 cm, ac yn o leiaf 80% o'r pwyntiau sampl, mae Succisa pratensis yn bresennol o fewn radiws o 1 m. Ni fydd prysg (> 1 metr o dal) yn gorchuddio mwy na 10% o'r ardal. • Mae'r ffactorau sydd yn effeithio ar y cynefin bridio yn cael eu rheoli. • Ni fydd coed, rhedyn, prysg a glasbrennau yn ddim mwy na gwasgaredig yn y glaswelltir corsiog. • Mae ystod o blanhigion gwlypdir nodweddiadol a phryfed yn bresennol. • Mae rhywogaethau sydd yn arwydd o welliant amaethyddol yn brin neu'n absennol.

Enw'r Safle: ACA Rhos Llawr-cwrt Cyfeirnod Grid y Lleoliad: SN411497 Cod Safle JNCC@ UK0012680 Maint: 45.95ha			
	Nodweddion Cymwys	Asesiad o Gyflwr	Amcanion Cadwraeth
Atodiad II prif resymau dros ddewis y rhywogaeth	Britheg y Gors Euphydryas (Eurodryas, Hypodryas) aurinia	Anffafriol: Yn adfer (Awst 2012)	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y ACA yn parhau i gefnogi poblogaeth o fritheg y gors sydd o bwysigrwydd cenedlaethol. Er y bydd niferoedd y gloynnod aeddfed a larfae yn amrywio'n flynyddol fel ymateb i gacynen barasitig ac amodau tywydd, byd y boblogaeth yn gydnerth, cadarn a hyfyw yn yr hirdymor. • Yn ystod blynyddoedd brig, bydd ymwelydd fydd yn mynd i gerdded ar y safle ar ddiwrnod heulog ym Mehefin yn gweld cannoedd o loynnod aeddfed. Yn ystod y blynyddoedd yma, bydd lindys, fydd yn bwyta'n gymunol mewn gwe sidan ar eu planhigyn porthiannus, tamaid y cythraul, i'w gweld yn eu miloedd yn y ACA drwyddo draw. • Poblogaeth y ACA fydd craidd metaboblogaeth britheg y gors Rhos Llawr Cwrt. Bydd y metaboblogaeth yn cynnwys poblogaeth y ACA, a phoblogaethau sydd yn bridio ar dir y tu allan i'r ACA yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Rhos Llawr Cwrt ac mewn mannau eraill cyfagos (mae ymchwil yn dangos bod metaboblogaeth o fritheg y gors angen o leiaf 50 hectar o gynefin sydd ar gael er mwyn bod yn hyfyw yn yr hirdymor). • Bydd y boblogaeth yn bridio yn y 4 uned yn y ACA, ble bydd yn rhywogaeth allweddol fydd yn ysgogi rheoli pob uned. • Bydd rhoseddi o damaid y cythraul yn niferus iawn ac yn eang yn y ACA drwyddo draw, yn tyfu ymysg tyweirch o laswell byr, hesg a pherlyisiau blodeuog gyda thwmpathau gwasgaredig o laswellt y gweunydd a phrys yn darparu lloches ar gyfer y lindys mewn tywydd gwlyb. Bydd y clytwaith glaswelltir gwlyb lliwgar yma yn ymestyn drwy'r holl unedau rheoli a rhai o'r caeau NNR y tu allan i'r ACA a c ardaloedd eraill cyfagos sydd heb eu dynodi. • Bydd gwrychoedd cymysg dwys o ddraenen wen, collen a cherddin a rhywogaethau lleol brodorol eraill yn tyfu o gwmpas y ffiniau mewnol ac allanol ac yn cynnig lloches hanfodol i'r gloynnod aeddfed sy'n bridio yn ystod tywydd garw mewn tirlun sydd fel arall yn agored iawn ble nad oes llawer o loches ar gael. • Bydd yr holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau uchod yma yn cael eu rheoli.

Atodiad II rhywogaethau cymwys	Mwsogl Drepanocladus (Hamatocaulis) vernicosus	Anffafriol: Heb eu Dosbarthu (Hydref 2005)	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd mwsogl Drepanocladus (Hamatocaulis) vernicosus yn gyffredin ar odre dyffrynnoedd Bwdram a Chletwr, gyda mwy na phum poblogaeth o blanhigion, yn ymddangos fel grwpiau o leiniau gwyrdd tywyll ymysg y glaswelltir corsiog a chymunedau o lystyfiant tegeirian. • Bydd y boblogaeth fwsogl yn tyfu mewn cyfres o dyfiannau, hen doriadau mawn a chloddadau bas, ble mae'r amodau tir yn wlyb drwy gydol y flwyddyn, a'r tabl dŵr ar yr wyneb neu'n agos iddo. Bydd gan y cynefin yma dywarchen agored cymharol fyr, a bydd y prysg wedi ei gyfyngu i wrychoedd ar hen ffiniau caeau. • Bydd dŵr tir ar draws llawr y dyffryn yn amrywio o ychydig yn asid i ychydig yn elfennol. • Bydd perlaysiau, gwellt a hesg cysylltiedig safle benodol yn tyfu yn agos at y poblogaethau mwsogl. Mae'r planhigion yma yn rhannu gofynion cynefin y mwsogl; maent yn cynnwys y llafnlys bach, brwynen lem, glaswellt y gweunydd, hesgen lwydlas, tamaid y cythraul, cycyllog bach, pysen y ceirw fawr, ffeuen y gors, briwydd y gors, hesgen gyffredin, hesgen ylfain, hesgen felen, maeswellt y cŵn, a hesgen y chwain. • • bydd y safle yn parhau i gael ei bore n yr haf gan wartheg; bydd hynny yn cynnal y dywarchen agored fer sydd yn cael ei ffafrio gan y mwsogl. • • Bydd yr holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau uchod yma yn cael eu rheoli.
--------------------------------	--	---	---

Enw'r Safle: Safleoedd Ystlumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton
Safleoedd Ystlum Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton ACA
Cyfeirnod Grid y Lleoliad: SR966954
Cod Safle JNCC@ UK0014793
Maint: 121.26ha

<p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">todiad I prif reswm dros ddewis y cynefin</p>	<p>Dŵr caled oligo-mesotroffig gyda llystyfiant benthig o Chara spp.</p>	<p>Anffafriol: Dim Newid (Rhag 2011)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd gwelyau Chara suddedig (Chara hispida yn bennaf hyd at fedr o hyd) yn ffurfio 'r llystyfiant macrofft suddedig mwyaf niferus yn y rhan fwyaf o'r Canghennau Canolog gorllewinol a Llyn canolog Llynnoedd Bosherton (uned 1a) a gall fod yn bresennol yn y Gangen Ddwyreiniol (uned1b). • Bydd Chara i'w weld yn amlach na 50%o'r am ar hyd trawsluniau archwilio rheolaidd yn y canghennau Gorllewinol a Chanolog. • Bydd rhywogaethau Chara (nid hispifda o reidrwydd) yn bresennol mewn amfaeau a phyllau eraill, yn cynnwys Cangen Ddwyreiniol Llynnoedd Bosherton (uned 1b) a phylau yn Nyffryn Pwll Mere (uned 1d). • Mae'r Canghennau Gorllewinol a Chanolog yn cael eu bwydo gan nant, felly mae lefelau maetholion yma yn aros yn isel. Bydd un o'r prif faetholion (ffosfforws) yn cyrraedd dim mwy na 25 microgram am bob litr mewn ardaloedd sampl arferol. Bydd lefelau nitrogen yn y dŵr yn isel (llai na 1 miligram bob litr) a bydd yn gostwng neu'n sefydlog. • Bydd dŵr y Gangen Orllewinol, y Gangen Ganolog a'r Llyn Canolog yn gymharol glir, ond bydd ynddynt llystyfiant da gyda phlanhigion suddedig a ffiniol. Mewn agoriadau naturiol (e.e. uwch ben nentydd) ymysg gwelyau Chara sydd fel arall yn ddwys, byddir yn gallu gweld disg sechii ar wely'r llyn. • Bydd dyfnder y dŵr yn amrywio o tua 3.5 metr OD (uchafswm yn y gaeaf) i tua 0.5 metr eu lai mewn mannau yn yr haf. • Ar ymylon y gwelyau Chara mae yna welyau o lili'r dŵr Nymphaea alba. Byddant yn parhau yn gymharol niferus yn y Canghennau Gorllewinol a Chanolog, a phoblogaethau llai yn y Llyn Canolog. • Bydd brwyn a chors a chleddlys wedi eu cyfyngu i rannau bas - yn gorchuddio dim mwy na 10% o'r safle. • Mae'r holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau hyn yn cael eu rheoli.
--	--	---	---

Atodiad II prif resymau dros ddewis y	Ystlum Pedol Mwyaf Rhinolophus ferrumequinum	Ffatriol: Heb eu Dosbarthu (Awst 2012)	<ul style="list-style-type: none"> • Mae niferoedd yr Ystlum Pedol Mwyaf yn cynnal eu hunain yn yr hirdymor fel cydran hyfyw yn eu cynefinoedd naturiol. • Byd yr ystod naturiol o ystlumod Pedol Mwyaf ddim yn cael eu lleihau ac ni fyddan yn debygol o gael eu lleihau yn y dyfodol rhagweladwy, a • Bydd yna gynefin digonol i gynnal ei niferoedd yn yr hirdymor. • Bydd o leiaf tri o fannau clwydo mamolaeth SSSI yn cael eu meddiannu'n flynyddol gan ystlumod Pedol Mwyaf a'u babanod; <ul style="list-style-type: none"> • SSSI Gwastadeddau Cwrt Ystangbwl a Gardd Furiog • SSSI Iard Stablau, Selerydd a Thwnnali Slebech • SSSI Felin Llwyngwair • Bydd SSSI Castell Caeriw yn parhau i gael ei ddefnyddio fel man clwydo ystlum Pedol Mwyaf canolradd, yn ystod y gwanwyn a'r hydref, fel man clwydo i'r gwrywod yn yr haf a man clwydo i baru yn ystod yr hydref/gwanwyn. • Bydd niferoedd yr ystlum Pedol Mwyaf yn yr SSSiau cydrannol yn sefydlog neu'n cynyddu. • Bydd yna ardal ddigon mawr o gynefin addas yn amgylchynu'r manau clwydo yma er mwyn cefnogi'r boblogaeth o ystlumod, yn cynnwys rhwydweithiau parhaus o goetiroedd llydanddail cysgodol, llinellau o goed a gwrychoedd yn cysylltu'r amrywiol fathau o fannau clwydo gydag ardaloedd o laswelltir a dŵr agored ble ceir digonedd o bryfed. • Mae'r holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau hyn yn cael eu rheoli.
---------------------------------------	---	---	---

Atodiad II nodweddion gymwys y rhywogaeth	Ystlum pedol lleiaf Rhinolophus hipposideros	Anffafriol: Yn dirywio (Awst 2012)	<ul style="list-style-type: none"> • Mae niferoedd yr Ystlum Pedol Lleiaf yn cynnal eu hunain yn yr hirdymor fel cydran hyfyw yn eu cynefinoedd naturiol. • Byd yr ystod naturiol o ystumod Pedol Lleiaf ddim yn cael eu lleihau ac ni fyddan yn debygol o gael eu lleihau yn y dyfodol rhagweladwy, a • Bydd yna gynefin digonol i gynnal ei niferoedd yn yr hirdymor. • Bydd o leiaf pedwar o fannau clwydo mamolaeth SSSI yn cael eu meddiannu'n flynyddol gan ystumod Pedol Lleiaf a'u babanod; <ul style="list-style-type: none"> • Beech Cottage, Waterwynch SSSI, • Bloc stablau a Selerydd Orierton SSSI, • Adeiladau Allannol Park House SSSI, • SSSI Gwastadeddau Cwrt Ystangbwl a Gardd Furiog • Bydd niferoedd yr ystum Pedol Lleiaf yn yr SSSiau cydrannol yn sefydlog neu'n cynyddu. • Bydd yna ardal ddigon mawr o gynefin addas yn amgylchynu'r mannau clwydo yma er mwyn cefnogi'r boblogaeth o ystumod, yn cynnwys rhwydweithiau parhaus o goetiroedd llydandail cysgodol, llinellau o goed a gwrychoedd yn cysylltu'r amrywiol fathau o fannau clwydo gydag ardaloedd o laswelltir a dŵr agored ble ceir digonedd o bryfed. • Mae'r holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau hyn yn cael eu rheoli.
	Dyfrgi Lutra lutra	Ffafriol: Heb ei ddosbarthu (Maiwrth2010)	<ul style="list-style-type: none"> • Mae niferoedd y dyfrgwn yn cynnal eu hunain yn yr hirdymor fel cydran hyfyw yn eu cynefinoedd naturiol. • Bydd yr ystod naturiol o ddyfrgwn ddim yn cael eu lleihau ac ni fyddan yn debygol o gael eu lleihau yn y dyfodol rhagweladwy, a • Bydd yna gynefin digonol i gynnal ei niferoedd yn yr hirdymor. • Bydd niferoedd y dyfrgwn yn sefydlogi'r cynyddu. • Bydd yna ardal ddigon mawr o gynefin addas i gefnogi poblogaeth o ddyfrgwn sy'n bridio, yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Dŵr agored gydag adnodau bwyd digonol (llyswennod yn benodol a rhywogaethau eraill o bysgod) a • rhwydwaith parhaus o fannau gorffwys cysgodol tawel ar hyd glannau'r llyn - yn cynnwys cors, coetir llydandail a phrysg calchaid. • Mae'r holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau hyn yn cael eu rheoli.

Enw'r Safle: Coedydd Ynn Gŵyr ACA
 Cyfeirnod Grid y Lleoliad: SS574882
 Cod Safle JNCC@ UK0030157
 Maint: 233.15ha

	Nodweddion Cymwys	Aseiad o Gyflwr	Amcanion Cadwraeth
Atodiad I prif reswm dros ddewis y cynefin	Fforestydd Tilio-Acerion forests ar lethrau, sgrïau a cheunentydd	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Mai 2016)	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y dyffrynnoedd â llethrau serth a geir ar draws y rhan fwyaf o'r afle wedi eu gorchuddio â choetir a'r onnen yn fwyaf niferus. • Bydd y llethrau creigiog wedi e gorchuddio â fflora tir cyfoethog yn cynnwys rhywogaethau megis bresychen y cŵn, rhedyn a chraf y geifr. • Bydd coed marw a adawir ar y llawr yn darparu cartrefi i ymlusgiaid a ffyngau. • Bydd y llethrau serth yn atal y coed canopi rhag cyrraedd eu llawn faint. • Ymysg y canopi, yr onnen fyd fwyaf niferus, a bydd rhywogaethau eraill megis y fasarnen fach, y dderwen a'r fasarnen yn bresennol hefyd. • Bydd haenen brysg o gollen, draenen wen, piswydden a glasbrennau onnen yn llenwi'r bylchau rhwng y fflora llawr a'r canopi. • Bydd mwsoglau a rhedyn yn gorchuddio clogfeini calch sydd yn britho'r tir. • Bydd y fflora tir ar y llethrau ac ar y tir mwy gwastad yn llawn lliw yn y gwanwyn, gyda bwtsias y gog a chraf y geifr yn darparu arlliw o las a gwyn. • Bydd coed aeddfed yn pydru yn sefyll ac wedi cwmpo. • Bydd coed ifanc yn tyfu yn y fflora tir a'r haen o brysg, yn barod i gymryd lle coeden sydd wedi cwmpo. • Bydd rhai planhigion fasgwlaidd anghyffredin i'w gweld yn y coed, ac maent yn cynnwys cwlwm cariad, maenhad gwyrddlas, celynnen Fair a chlust yr ewig. • Ar yr ardaloedd mwyaf gwastad, bydd conifferiaid a blannwyd sydd wedi cwmpo y cefnogi mwsogl a rhedyn a bydd ynn yn tyfu rhwng y conifferiaid sydd wedi cwmpo. Bydd hen blanhigfeydd coniffer a ffawydd yn cefnogi coetir onnen sy'n datblygu. • Bydd yr holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau hyn yn cael eu rheoli.

Atodiad I nodweddion cymwys y cynefin	Fforestydd llifwaddodol gydag <i>Alnus glutinosa</i> a <i>Fraxinus excelsior</i> (<i>Alno-Padion</i> , <i>Alnion incanae</i> , <i>Salicion albae</i>)	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Mehefin 2016)	<ul style="list-style-type: none"> • Ar hyd Pennard Pill a nant Llanilltud Gŵyr byd coedydd llifwaddodol yn tyfu yn y silt o'r afon. • Y wernen fydd y mwyaf niferus o'r rhain, ond bydd collen ac ysgaw yn tyfu yma hefyd. • Y blodyn menyf ymlusgol, danadl ac erwain fyd fwyaf niferus ymysg fflora'r llawr. • Ni fydd unrhyw arwydd o aflonyddu megis gor-bori neu dipio, ac ni fydd unrhyw rywogaethau anfrodorol yn tyfu yn yr ardaloedd yma. • Bydd glasbrennau ifanc o wernen a chollen yn niferus ac yn disgwyl i lenwi'r bylchau a adawyd gan y • coed sydd wedi cwmpo. • Bydd yr holl ffactorau eraill yn cael eu rheoli.
Enw'r Safle: ACA Sir Benfro Forol Cyfeirnod Grid y Lleoliad: SM503093 Cod Safle JNCC@ UK0013116 Maint: 138038.50ha			
	Nodweddion Cymwys	Asesiad o Gyflwr	Amcanion Cadwraeth
Atodiad I prif reswm dros ddewis y cynefin	Aberoedd	Anffafriol: Yn dirywio (Tach 2006)	Cyrhaeddiad: Mae dosbarthiad cyffredinol a maint y nodweddion cynefin ar y safle, a phob un o'r prif gydrannau yn sefydlog neu'n cynyddu. Yn achos nodweddion y cildraethau a baeau, mae'r rhain y cynnwys; <ul style="list-style-type: none"> • Amfae Llansanffraid ar Ogwr • Moryd Aberdaugleddau • Amfaeau a childraethau ymylol Yn achos nodwedd lagwnau arfordirol, mae hynny yn destun gofynion cynnal a chadw strwythur croniat artiffisial a chynnal a chadw'r lagwnau at y diben gwreiddiol neu'n ddiben dilynol oedd yn bodoli cyn dosbarthu'r safle. Strwythur a Swyddogaeth: Nid yw strwythur a swyddogaeth ffisegol, biolegol a chemegol sydd eu hangen ar gyfer cynnal hirdymor ac ansawdd y cynefin yn dirywio. Mae'r elfennau pwysig yn cynnwys: daeareg, gwaddodeg, geomorffoleg, hydrograffeg a meteoroleg, cemeg dŵr a gwaddod, rhyngweithio biolegol. Mae hynny yn cynnwys angen i lefelau maetholion mewn colofn ddŵr a gwaddod fod: <ul style="list-style-type: none"> • ar neu'n is na lefelau crynodiadau canllawiau statudol presennol • o fewn ystodau nad ydynt o bosibl yn niweidiol i gynnal poblogaethau rhywogaethau'r nodwedd yn yr hirdymor, eu helaethder a'u cyrhaeddiad. Lefelau halogyddion yn y golofn ddŵr a'r gwaddodau sy'n deillio o weithgaredd dynol: <ul style="list-style-type: none"> • ar neu'n is na lefelau crynodiadau canllawiau statudol presennol
	Cilfachau a baeau bas mawr	Anffafriol: Yn dirywio (Tach 2006)	
	Riffiau	Anffafriol: Yn dirywio (Gorffennaf 2008)	
Atodiad I nodweddion	Banciau tywod sydd wedi eu gorchudd ychydig gan ddŵr môr drwy'r adeg.	Anffafriol: Dim Newid (Rhag 2006)	
	Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod nad ydynt wedi eu gorchuddio â dŵr môr ar drai	Anffafriol: Yn dirywio (Tach 2006)	

	Lagwnau arfordirol	Ffafriol: Wedi eu cynnal (Tach 2006)	<ul style="list-style-type: none"> • yn is na'r lefelau fyddai o bosibl yn arwain at gynydd mewn crynodiadau halogiad mewn gwaddodau neu fiota • yn is na lefelau sydd o bosibl yn niweidiol i gynnal poblogaethau rhywogaethau'r nodwedd yn yr hirdymor, eu helaethder a'u cyrhaeddiad. <p>Adferiad: Fel rhan o'r amcan yma dylid nodi y byddai system ddyfrffordd Aberdaugleddau yn elwa o gamau adfer, er enghraifft drwy gael gwared â deunydd annaturiol ar y traeth, a gwaredu, amnewid neu well cynnal a chadw ar gaergewyll a lanwyd â cherrig. Hefyd mae angen adfer poblogaethau nifer o rywogaethau nodweddiadol system ddyfrffordd Aberdaugleddau sydd wedi gostwng yn ddifrifol mewn perthynas a lefelau hanesyddol o ganlyniad i ecsbloetio gan ddyn yn bennaf.</p> <p>Yn system dyfrffordd Aberdaugleddau mae'n rhaid i fewnbynnau o faetholion a llygryddion i'r golofn ddŵr a gwaddodau sy'n deillio o weithgaredd dynol aros ar neu yn is na'r lefelai ar yr adeg yr oedd y safle yn ymgeisio i fod yn ACA.</p> <p>Yn achos nodwedd lagwnau arfordirol, mae hynny yn destun gofynion cynnal a chadw strwythur croniat artiffisial a chynnal a chadw'r lagwnau at y diben gwreiddiol neu'n ddiben dilynol oedd yn bodoli cyn dosbarthu'r safle.</p> <p>Yn achos y nodwedd traethellau a baeau, mae hynny yn cynnwys yr angen i adfer poblogaethau nifer o rywogaethau nodweddiadol sydd wedi gostwng yn ddifrifol mewn perthynas a lefelau hanesyddol o ganlyniad i ecsbloetio gan ddyn yn bennaf.</p>
	Dolydd halen yr Iwerydd (Glauco-Puccinellietalia maritima)	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Hydref 2006)	<p>Yn system dyfrffordd Aberdaugleddau mae'n rhaid i fewnbynnau o faetholion a llygryddion i'r golofn ddŵr a gwaddodau sy'n deillio o weithgaredd dynol aros ar neu yn is na'r lefelai ar yr adeg yr oedd y safle yn ymgeisio i fod yn ACA.</p> <p>Rhywogaethau nodweddiadol: Mae presenoldeb, digonedd, cyflwr ac amrywiaeth y rhywogaethau nodweddiadol ar lefelau sy'n golygu nad yw ansawdd y cynefin wedi dirywio. Mae elfennau pwysig yn cynnwys, cyfoeth rhywogaethau, strwythur a deinameg, poblogaeth, iechyd ffisiolegol, capasiti atgenhedlu, recriwtio, cyrhaeddiad symudedd.</p> <p>Fel rhan o'r amcan yma dylid nodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae angen i niferoedd rhywogaethau nodweddiadol sydd yn destun pysgodfeydd masnachol presennol gael lefel o ddigonedd sydd yn hafal i neu yn fwy na'r hyn sydd yn ofynnol er mwyn cynhyrchu'r cnwd cynaliadwy mwyaf posibl a sicrwydd hirdymor, • mae'r ffordd o reoli gweithgareddau neu weithrediadau sydd yn debygol o effeithio'n niweidiol ar nodwedd cynefin yn briodol ar gyfer ei chynnal mewn cyflwr ffafriol a bod hynny yn ddiogel yn yr hirdymor.
	Ogofau morol suddedig neu rannol suddedig	Ffafriol: Wedi eu cynnal (Tach 2006)	<p>Yn system dyfrffordd Aberdaugleddau mae'n rhaid i fewnbynnau o faetholion a llygryddion i'r golofn ddŵr a gwaddodau sy'n deillio o weithgaredd dynol aros ar neu yn is na'r lefelai ar yr adeg yr oedd y safle yn ymgeisio i fod yn ACA.</p> <p>Rhywogaethau nodweddiadol: Mae presenoldeb, digonedd, cyflwr ac amrywiaeth y rhywogaethau nodweddiadol ar lefelau sy'n golygu nad yw ansawdd y cynefin wedi dirywio. Mae elfennau pwysig yn cynnwys, cyfoeth rhywogaethau, strwythur a deinameg, poblogaeth, iechyd ffisiolegol, capasiti atgenhedlu, recriwtio, cyrhaeddiad symudedd.</p> <p>Fel rhan o'r amcan yma dylid nodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae angen i niferoedd rhywogaethau nodweddiadol sydd yn destun pysgodfeydd masnachol presennol gael lefel o ddigonedd sydd yn hafal i neu yn fwy na'r hyn sydd yn ofynnol er mwyn cynhyrchu'r cnwd cynaliadwy mwyaf posibl a sicrwydd hirdymor, • mae'r ffordd o reoli gweithgareddau neu weithrediadau sydd yn debygol o effeithio'n niweidiol ar nodwedd cynefin yn briodol ar gyfer ei chynnal mewn cyflwr ffafriol a bod hynny yn ddiogel yn yr hirdymor.

Atodiad II prif reswm dros ddewis y rhywogaeth	Morlo llwyd Halichoerus grypus	Ffatriol: Wedi eu cynnal (Tach 2006)	<ul style="list-style-type: none"> Poblogaethau: Mae'r niferoedd yn cynnal eu hunain yn yr hirdymor fel cydran hyfyw yn eu cynefin naturiol Yr elfennau pwysig yw maint y boblogaeth, strwythur, cynhyrchiant a chyflwr y rhywogaeth yn y safle. <p>Fel rhan o'r amcan yma dylid nodi, yn achos y dyfrgwn a'r Morlo Llwyd;</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae beichiau halogion sy'n deillio o weithgaredd dynol yn is na lefelau allai achosi niwed ffisiolegol, neu'n imiwn i ataliad atgenhedlol. <p>Yn achos y Morlo llwyd, ni ddylai niferoedd ostwng o ganlyniad i weithgaredd dynol</p> <p>Cyrhaeddiad: Mae niferoedd y rhywogaeth ar y safle yn golygu nad yw cyrhaeddiad naturiol y boblogaeth yn cael ei leihau nac yn debygol o gael ei leihau yn y dyfodol rhaglweadwy.</p> <p>Fel rhan o'r amcan yma dylid nodi, yn achos y dyfrgwn a'r Morlo Llwyd</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid yw eu cyrhaeddiad o fewn y ACA nad ardaloedd rhyng-gysylltiedig cyfagos wedi ei gyfyngu na'i rwystro Mae yna ffynonellau bwyd priodol a digonol yn y ACA a thu hwnt <p>Mae'r safleoedd a faint o gynefin ategol a ddefnyddir gan y rhywogaethau yma yn hygyrch ac mae eu helaethder a'u hansawdd yn sefydlog neu'n cynyddu.</p> <p>Cefnogi cynefinoedd a rhywogaethau: Mae presenoldeb, digonedd, cyflwr ac amrywiaeth cynefinoedd a rhywogaethau sydd eu hangen i gefnogi'r rhywogaeth ar lefelau sy'n golygu bod dosbarthiad, digonedd a deinameg poblogaethau'r rhywogaeth ar y safle a niferoedd y tu hwnt i'r safle yn sefydlog neu'n cynyddu. Mae ystyriaethau pwysig yn cynnwys; dosbarthiad, maint, strwythur, swyddogaeth ac ansawdd cynefin, argaeledd ac ansawdd ysglyfaeth</p> <p>Fel rhan o'r amcan yma dylid nodi;</p>
	Tafolen y traeth Rumex rupestris	Ffatriol: Wedi eu cynnal (Chwef 2006)	<ul style="list-style-type: none"> Mae digonedd rhywogaethau ysglyfaeth sydd yn destun pysgodfeydd masnachol presennol gael lefel sydd yn hafal i neu yn fwy na'r hyn sydd yn ofynnol er mwyn cynhyrchu'r cnwd cynaliadwy mwyaf posibl a sicrwydd hirdymor,. Mae'r ffordd o reoli gweithgareddau neu weithrediadau sydd yn debygol o effeithio'n niweidiol ar nodwedd rhywogaeth yn briodol ar gyfer ei chynnal mewn cyflwr ffatriol a bod hynny yn ddiogel yn yr hirdymor. Dylai halogiad rhywogaethau ysglyfaeth posibl fod yn is na chrynodeiadau sydd o bosibl yn niweidiol i'w iechyd ffisiolegol. Mae aflonyddwch gan weithgaredd dynol yn is na lefelau sydd yn effeithio ar lwyddiant atgenhedlu, iechyd ffisiolegol neu ymddygiad hirdymor Yn achos dyfrgwn mae yna ddigono ffynonellau yn y ACA a thu hwnt o ddŵr croyw o ansawdd uchel ar gyfer yfed ac ymolchi. <p>Adferiad: Yn system dyfrffyrdd Aberdaugleddau mae'n rhaid i fewnbynau o faetholion a llygryddion i'r golofn ddŵr a gwaddodau sy'n deillio o weithgaredd dynol aros ar neu yn is na'r lefelai ar yr adeg yr oedd y safle yn ymgeisio i fod yn ACA.</p> <p>Fel rhan o'r amcan yma dylid nodi, yn achos y dyfrgwn, y dylai niferoedd fod yn cynyddu.</p>
Atodiad II nodweddion gymwys y rhywogaeth	Lampreiod y môr Petromyzon marinus	Anffatriol: Dirywio (Ebrill 2005)	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r ffordd o reoli gweithgareddau neu weithrediadau sydd yn debygol o effeithio'n niweidiol ar nodwedd rhywogaeth yn briodol ar gyfer ei chynnal mewn cyflwr ffatriol a bod hynny yn ddiogel yn yr hirdymor.
	Lampreiod yr afon Lampetra fluviatilis	Anffatriol: Dim Newid (Ebrill 2005)	
	Herlyn Alosa alosa	Heb ei asesu	
	Gwangen Alosa fallax	Heb ei asesu	
	Dyfrgi Lutra lutra	Ffatriol: Heb ei ddsbarthu (Maiwrth2010)	

Enw'r Safle: Tiroedd Comin Gŵyr ACA
 Cyfeirnod Grid y Lleoliad: SS497900
 Cod Safle JNCC: UK0012685
 Maint: 1775.29ha

	Nodweddion Cymwys	Aseiad o Gyflwr	Amcanion Cadwraeth
Atodiad I prif reswm dros ddewis y cynefin	Rhostir gwlyb Gogledd yr Iwerydd Erica tetralix	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Medi 2016)	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y rhostir gwlyb i'w ganfod yn bennaf ar briddoedd llaith a chyffredinol asidig ar draws y tiroedd comin. • Bydd y rhostir gwlyb yn cael ei nodweddu gan yr eithinen fân fydd yn tyfu ymysg y grug croesddail a glaswellt y gweunydd. Bydd yr eithin yn tyfu'n isel ac ni fydd i'w weld yn meddiannu'r rhostir. Mae melyn yr eithin a phonc y grug croesddail yn arddangosiad trawiadol. Bydd melog y cŵn pinc i'w weld yn tyfu ymysg y gymysgedd o eithin a grug, gyda glaswellt a hesg yn gwau eu ffordd drwy'r gymysgedd o rywogaethau, megis plu'r gweunydd, briwydd wen, amlaethai'r waun, hesgen y chwain a'r hesgen lwydlas. • Mae mwsogl Sphagnum yn tyfu o dan y grug, gan ddal lleithder fel sbwng. Hefyd bydd planhigion sydd yn gallu tyfu mewn ardaloedd gwlyb iawn penodol sydd yn gysylltiedig â rhostir gwlyb, megis llafn y bladur a'r gwllithlys sy'n bwyta pryfed i'w canfod hefyd wrth i chi gerdded o gwmpas y rhostir. • Nid yw'r rhostir gwlyb yn cael ei orfwyta gan anifeiliaid sy'n pori, ond caiff ei bori'n wastad a sensitif. Nid oes yna unrhyw rywogaethau ymledol megis Rhododendron neu :Lysiau'r Dial yn tyfu ar y rhostir gwlyb, a gwelir y fedwen yn unig wedi ei gwasgaru'n denau ar y safle drwyddo draw, yn bennaf ar yr ymylon. • Mae'r holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau hyn yn cael eu rheoli.

	Rhostir sych Ewropeaidd	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Medi 2008)	<ul style="list-style-type: none"> • Mae rhostir sych i'w ganfod ar rannau'r tiroedd comin sydd yn draenio'n rhydd. Mewn rhai rhannau o'r ACA, mae rhos sych yn tyfu mewn ardaloedd mawr eang megis Rhosili, mewn rhannau eraill o'r ACA mae'r rhos sych yn tyfu mewn clytwaith gyda rhos gwlyb a glaswelltir asid. Mae grug y mêl a grug croesddail yn tyfu ochr yn ochr ag eithin Ewropeaidd a'r eithinen fân. Mae yna ddiffyg glaswellt y gweunydd a mwsogl sphagnum, sydd yn dweud wrthym fod y rhos yn sychach. Mae amlaethai'r waun, tresgl y moch a briwydd wen i'w gweld yn rheolaidd yn addurno'r rhostir sych. • Mae prysg fel y fedwen ac eithin wedi gordyfu yn brin gyda'r rhos sych, ac eithrio pan fo ynys o brysg yn darparu ychydig o gysgod ar gyfer anifeiliaid sy'n pori. Bydd yr anifeiliaid yma yn cael eu derbyn yn nhirlun y rhostir. • Mae rhedyn yn bresennol yn y rhos sych ac mae'n tyfu ar hyd yr ymylon, ond nid yw fyth yn meddiannu standiau o ros sych asid yw'n tresmasu ar y rhos sych. • Mae llosgi'r ros ond yn cael ei wneud fel techneg reoli er mwyn creu clytwaith o ros o wahanol oedrannau. Nid oes arwyddion bod y llosgi yn achosi difrod neu i redyn ymledu.
	Dolydd Molinia ar briddoedd calchaid, mawnog neu gleiog-llawn-silt (Molinion caeruleae)	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Medi 2016)	<p>Ar y tir gwlypaf, gellir canfod glaswelltir corsiog; yn aml bydd yn tyfu mwn clytwaith gyda rhos gwlyb.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd y glaswelltir corsiog wedi ei feddiannu gan dwmpathau o laswellt y gweunydd. Bydd y twmpathau yn darparu ardaloedd bach cysgodol ble mae blodau yn tyfu ac yn helpu i ddarparu ychydig o gysgod i fritheg y gors. • Mae'r twmpathau yn anghyson o ran maint, ond bydd yna laswellt y gweunydd ifanc bob amser yn ymddangos bob gwanwyn. Dim ond ychydig o'r twmpathau fydd yn cynnwys glaswellt y gweunydd hen a 'rhonec'. • Bydd tamaid y diafol, planhigyn bwyd larfae Britheg y Gors, i'w weld yn tyfu'n gyffredin ymysg glaswellt y gweunydd. Mae'r carwy droellbennog a'r hesgen ddeilen feddal yn blanhigion prin fydd i'w gweld fel arfer yn yr ardaloedd o laswellt corsiog. • Yn aml bydd planhigion iach megis y grug croesddail a'r eithin i'w canfod ar laswelltir corsiog - mae hon yn ardal o bontio rhwng dau gynefin.

Atodiad II prif reswm dros ddewis y rhywogaeth	Mursen Coenagrion mercuriale	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Gorff 2017)	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd diferiadau a chorffrydiau yn Rhosili, Cefn Bryn a Sluxton yn cael eu cynnal yn dda, yn glir ac ni fyddant yn cynnwys llygryddion. • Byddant yn cefnogi niferoedd da o blanhigion dyfrol brodorol. • Ar ddyddiau’r haf bob blwyddyn bydd y fursen i’w gweld yn saethu dros y y diferiadau a’r corffrydiau. • Bob blwyddyn bydd poblogaeth y fursen yn sefydlog neu’n cynyddu.
	Britheg y Gors Euphydryas (Eurodryas, Hypodryas) aurinia	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Medi 2009)	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y safle yn cyfrannu tuag at gefnogi metaboblogaeth gynaliadwy o fritheg y gors yn y Gŵyr. Bydd hynny yn golygu y bydd angen o leiaf 50ha o gynefin addas, ac o leiaf 10ha o hwnnw mewn cyflwr da. Bydd peth ohono ar dir cyfagos o fewn radiws o tua 2km • Bydd y niferoedd yn hyfyw yn yr hirdymor, gan gydnabod amrywiadau eithafol y rhywogaeth o ran niferoedd. • Bydd cynefinoedd ar y safle mewn cyflwr optimaidd er mwyn cefnogi’r metaboblogaeth. • Bydd o leiaf 50ha o gyfanswm ar wynebedd y safle yn y ACA a’r SSSI cysylltiedig yn laswelltir mawnog sydd yn addasi i gefnogi britheg y gors, a bydd <i>Succisa pratensis</i> yn bresennol dim ond gorchudd io brysg. • Bydd o leiaf 10ha yn gynefin bridio da i fritheg y gors, wedi ei feddiannu gan laswellt y gweunydd <i>Molinia caerulea</i>, gyda <i>S. pratensis</i> yn bresennol drwyddi draw ac uchder llystyfiant o 10-20cm yn ystod cyfnod y gaeaf. • Mae cynefin addas i fritheg y gors yn cael ei ddiffinio fel standiau o laswelltir ble mae <i>Succisa pratensis</i> yn bresennol a ble mae prysg dros 1m o dal yn gorchuddio dim mwy na 10% o’r standiau. • Bydd cynefin bridio optimaidd britheg y gors yn cael ei nodweddu gan laswelltir ble mae uchder y llystyfiant yn 10-20 cm gyda digonedd o laswellt y gweunydd <i>Molinia caerulea</i>, tamaid y diafol “deilen fawr” <i>Succisa pratensis</i> yn rheolaidd, sydd yn addas i fritheg y gors ddodwy eu wyau, a phrys yn achlysurol yn unig. Yn ystod y blynyddoedd brig, bydd dwysedd o 200 o weoedd larfae am bob hectar o gynefin optimaidd i’w gweld ar draws y safle. (Fowles 20042) • Bydd y glaswelltir mawnog wedi ei gysgodi’n dda gan wrychoedd a choed aeddfed. • Mae’r holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau uchod yma yn cael eu rheoli.

Enw'r Safle: ACA Afon Gwy Cyfeirnod Grid y Lleoliad: SO109369 Cod Safle JNCC: UK0012642 Maint: 2147.64ha			
	Nodweddion Cymwys	Asesiad o Gyflwr	Amcanion Cadwraeth
Atodiad I prif reswm dros ddeuis y cynefinoedd	Cyrsiau dŵr o lefelau gwastad a mynyddig gyda llystyfiant Ranunculion fluitantis a Callitricho-Batrachion	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Ionawr 2012)	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n rhaid i'r amcan cwrs dŵr a ddiffiniwyd yn 4.1 gael ei gyflawni.. • Dylai'r ystod naturiol o gymunedau planhigion a gynrychiolir yn y nodwedd hon fod yn sefydlog ac yn cynyddu yn y ACA. • Dylai'r ardal a orchuddir gan y nodwedd o fewn ei ystod naturiol yn y ACA fod yn sefydlog neu'n cynyddu • Dylai statws cadwraethol rhywogaethau nodweddiadol y nodwedd fod yn ffafriol.
Atodiad I nodwedd gymwys y cynefin	Llaid pontio a chorsydd crynedig	Anffafriol: Yn dirywio (Gorffennaf 2012)	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n rhaid i'r amcan cwrs dŵr a ddiffiniwyd yn 4.1 gael ei gyflawni.. • Dylai'r ystod naturiol o gymunedau planhigion a gynrychiolir yn y nodwedd hon fod yn sefydlog ac yn cynyddu yn y ACA. • Dylai'r ardal a orchuddir gan y nodwedd o fewn ei ystod naturiol yn y ACA fod yn sefydlog neu'n cynyddu • Dylai statws cadwraethol rhywogaethau nodweddiadol y nodwedd fod yn ffafriol.

Atodiad II prif reswm dros ddewis y rhyogaeth	Cimwch afon crafanec wen (neu nentydd yr Iwerydd) <i>Austropotamobius pallipes</i>	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Medi 2016)	<ul style="list-style-type: none"> Mae'n rhaid i'r amcan cwrs dŵr a ddiffiniwyd yn 4.1 gael ei gyflawni.. Mae niferoedd y nodwedd yn y ACA yn sefydlog neu'n cynyddu dros yr hirdymor. Nid yw ystod naturiol y nodwedd yn y ACA yn lleihau ac nid yw'n debygol o leihau yn y dyfodol rhagweladwy. Mae yna gynefin digon mawr i gynnal niferoedd y nodwedd yn y ACA yn hirdymor, ac mae'n debyg y bydd hynny'n parhau i fod yn wir.
	Dyfrgi <i>Lutra lutra</i>	Ffaffriol: Adferwyd (Mawrth 2010)	<ul style="list-style-type: none"> Mae niferoedd y dyfrgwn yn y ACA yn sefydlog neu yn cynyddu yn ystod yr hirdymor, a c mae hynny yn adlewyrchu capasiti cynnal y cynefin yn y ACA fel y pennir hynny gan lefelau naturiol digonedd ysglyfaeth ac ymddygiad tiriogaethol cysylltiedig. Nid yw ystod naturiol dyfrgwn yn y ACA yn lleihau ac nid yw'n debygol o leihau yn y dyfodol rhagweladwy. Mae symudiad a gwasgariad diogel unigolion o gwmpas y ACA yn cael ei hwyluso gan y ddarpariaeth, pan fo angen, o gynefin torlannol addas, a thanffyrdd, ysgafellau, ffensio etc. ar bontydd ffyrdd a rhwystrau artiffisial eraill.
	Lampreiod y môr <i>Petromyzon marinus</i>	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Ionawr 2012)	<ul style="list-style-type: none"> Mae'n rhaid i'r amcan cwrs dŵr a ddiffiniwyd yn 4.1 gael ei gyflawni.. Mae niferoedd y nodwedd yn y ACA yn sefydlog neu'n cynyddu dros yr hirdymor. Nid yw ystod naturiol y nodwedd yn y ACA yn lleihau ac nid yw'n debygol o leihau yn y dyfodol rhagweladwy. Mae yna gynefin digon mawr i gynnal niferoedd y nodwedd yn y ACA yn hirdymor, ac mae'n debyg y bydd hynny'n parhau i fod yn wir.
	Lampreiod y nant <i>Lampetra planeri</i>	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Ionawr 2012)	
	Lampreiod yr afon <i>Lampetra fluviatilis</i>	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Ionawr 2012)	
	Gwangen <i>Alosa fallax</i>	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Ionawr 2012)	
	Eog yr Iwerydd <i>Salmo salar</i>	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Ionawr 2012)	
Penbwl <i>Cottus gobio</i>	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Rhagfyr 2016)		
Atodiad II nodweddion	Herlyn <i>Alosa alosa</i>	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Ionawr 2012)	

Enw'r Safle: ACA Gweunydd Blaencleddau Cyfeirnod Grid y Lleoliad: SN155317 Cod Safle JNCC: UK0030144 Maint: 149.13ha			
	Nodweddion Cymwys	Aseiad o Gyflwr	Amcanion Cadwraeth
Atodiad I nodweddion cymwys y cynefinoedd	Rhostir gwlyb Gogledd yr Iwerydd Erica tetralix	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Gorff 2016)	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd rhos gwlyb yn meddiannu o leiaf 6% o gyfanswm maint yr ardal. • Bydd y planhigion canlynol yn gyffredin yn y rhos gwlyb: grug croesddail Erica tetralix; glaswellt y gweunydd Molinia caerulea; llafn y bladur Narthecium ossifragum; hesg byr rhywogaethau Carex; mwsogl yn cynnwys rhywogaethau Sphagnum ; tamaid y diafol Succisa pratensis. • Byddir yn cadw llygaid ar rywogaethau cystadleuol sydd yn arwydd o dan-bori, yn arbennig glaswellt y gweunydd Molinia caerulea a'r eithinen fân Ulex gallii. • Hefyd bydd rhedyn a rhywogaethau prysg megis yr Helygen a'r Fedwen y absennol o'r rhos gwlyb.
	Dolydd Molinia ar briddoedd calchaid, mawnog neu gleiog-llawn-silt (Molinion caeruleae)	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Gorff 2016)	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd dolydd Molinia yn digwydd fel lleiniau bach o gwmpas y safle. • Bydd y planhigion canlynol yn gyffredin ar y dolydd Molinia: glaswellt y geunydd Molinia caerulea; hesg bychan yn cynnwys Carex pulicaris a hostiana, a thamaid y cythraul Succisa pratensis. • Bydd y frwynen fawr Juncus effusus rhywofgaethau sydd yn nodweddiadol o addasu amaethyddol, megis rhygwellt parhaol Lolium perenne a'r feillionen wen Trifolium repens, yn absennol bron yn gyfan gwbl. • Hefyd bydd rhywogaethau prysg megis yr Helygen a'r Fedwen y absennol ar y cyfan. • Bydd yr holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau hyn yn cael eu rheoli.
	Gorgorsydd	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Gorff 2016)	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd gorgorsydd yn meddiannu o leiaf 4% o gyfanswm maint yr ardal. • Bydd y planhigion canlynol yn gyffredin yn y gorgors: clwbfrwynen y mynydd Eriophorum vaginatum; grug Calluna vulgaris; grug croesddail Erica tetralix a rhywogaethau migwyn Sphagnum. • Byddir yn cadw llygaid ar rywogaethau cystadleuol sydd yn arwydd o dan-bori, yn arbennig glaswellt y gweunydd Molinia caerulea. • Hefyd bydd rhedyn a rhywogaethau prysg megis yr Helygen a'r Fedwen y absennol o'r gorgors.
	Llaid pontio a chorsydd crynedig	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Gorff 2016)	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd llaid pontio a chorsydd crynedig yn meddiannu o leiaf 2% o gyfanswm maint yr ardal. • Dylai digonedd o hesg cyffredin fod yn gorchuddio carpedi o figwyn, mwsogl 'brown' neu rywogaethau cors megis pumpys y mynydd. • Byddir yn cadw llygaid ar rywogaethau cystadleuol sydd yn arwydd o dan-bori, yn arbennig y frwynen fawr Juncus effusus a glaswellt y gweunydd Molinia caerulea. • Hefyd bydd rhywogaethau prysg megis yr Helygen a'r Fedwen y absennol ar y cyfan.

	Tegeirian alcaliaidd	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Gorff 2017)	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd tyfiannau yn meddiannu o leiaf 10% o gyfanswm maint yr ardal. • Bydd y rhan fwyaf o'r tyfiannau yn naturiol yn cefnogi carpedi o figwyn o dan ganopi o frwyn tal a hesg. • Dylai cyfran (o leiaf 15%) gefnogi llystyfiant byw, agored sydd yn llawn mwsoglau bach, hesg a blodau gwyllt sydd yn nodweddiadol o amodau llai asidig. Mae'r math yma o dyfiant yn cyfateb i nodwedd Tegeirian Alcaliaidd o ddiddordeb Ewropeaidd. • Bydd gan nifer o'r tyfiannau llystyfiant byr, agored sydd yn gweddu i ofynion y fursen Coenagrion mercuriale. • Byddir yn cadw llygaid ar rywogaethau cystadleuol sydd yn arwydd o dan-bori, yn arbennig y frwynen fawr <i>Juncus effusus</i> a glaswellt y gweunydd <i>Molinia caerulea</i>. • Hefyd bydd rhywogaethau prysg megis yr Helygen a'r Fedwen y absennol ar y cyfan.
Atodiad II prif reswm dros ddeuwis y rhywogaeth	Britheg y Gors <i>Euphydryas</i> (<i>Eurodryas</i> , <i>Hypodryas</i>) aurinia	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Gorff 2016)	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd dwysedd gwe larfal yn ystod y sampl yn o leiaf 200 am bob hectar o gynefin mewn Cyflwr Da. • Mae yna o leiaf 50ha o gynefin addas ar y safle neu o fewn radiws o 2km o'i gwmpas. • Mae o leiaf 10ha o'r cynefin addas yn gynefin Cyflwr Da. • Mae cynefin Cyflwr Da yn cynnwys glaswelltir, gyda digonedd o <i>Molinia</i>, ble mae uchder y llystyfiant o fewn ystod o 10 i 20 cm, ac yn o leiaf 80% o'r pwyntiau sampl, mae <i>Succisa pratensis</i> yn bresennol o fewn radiws o 1 m. Ni fydd prysg (> 1 metr o dal) yn gorchuddio mwy na 10% o'r ardal. • Mae glaswelltir corsiog addas yn cynnwys glaswelltir ble mae <i>Succisa pratensis</i> yn bresennol, ond ddim mor rheolaidd, ond byd yn dal wedi ei ddsbarthu'n eang ar llain y cynefin drwyddo draw, a ble mae prysg (>1 metr o dal) yn gorchuddio mwy na 20% o'r ardal. Neu, gall dwysedd uchel o <i>Succisa</i> fod yn bresennol mewn tyweirch wedi eu cropio'n agos. • Mae'r ffactorau sydd yn effeithio ar y cynefin bridio yn cael eu rheoli
Atodiad II nodwedd gymwys y rhywogaeth	Mursen <i>Coenagrion mercuriale</i>	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Gorff 2016)	<ul style="list-style-type: none"> • Mae dwysedd gwrywod aeddfed yn ystod y sampl yn o leiaf 1 gwryw am bob 10 metr sgwâr o gynefin bridio. • Mae maint y cynefin bridio yn o leiaf 1500 metr sgwâr. • Bydd cynefin bridio yn cael ei fapio ble mae lleiniau o blanhigion dodwy yn bresennol fel mwy na 20% o orchudd ar ardaloedd sydd yn fwy na 0.5 metr sgwâr a dim mwy na 20% o gyfanswm y gorchudd yn cynnwys <i>Apium nodiflorum</i> sydd yn fwy na 15cm o dal. Mae Mursen <i>Coenagrion mercuriale</i> benywaidd yn dodwy eu hwyau i'r meinwe o blanhigion dyfrol newydd, ac yng Nghymru y rhywogaethau allweddol yw <i>Menyanthes trifoliata</i> (ffeuen y gors), <i>Hypericum elodes</i> (eurinllys y gors), <i>Potamogeton polygonifolius</i> (dyfrllys y gors) and <i>Apium nodiflorum</i> (dyfrforonen swp-flodeuog). • Mae'r ffactorau sydd yn effeithio ar y cynefin tyfiannol yn cael eu rheoli

Enw'r Safle: Preseli ACA Cyfeirnod Grid y Lleoliad: SN110320 Cod Safle JNCC: UK0012598 Maint: 2701.68ha			
	Nodweddion Cymwys	Asesiad o Gyflwr	Amcanion Cadwraeth
Atodiad I nodweddion cymwys y cynefinoedd	Rhostir gwlyb Gogledd yr Iwerydd Erica tetralix	Anffafriol: Heb ei ddsbarthu (Mehefin 2012)	<p>Bydd rhos gwlyb yn gorchuddio o leiaf 11% o'r safle ac yn arddangos ystod o rywogaethau planhigion sydd yn nodweddiadol o'r cynefin. Bydd gan y rhan fwyaf o ros gwlyb gymysgedd o dwmpathau a laswellt y gweunydd, wedi eu gwahanu gan leiniau wedi eu pori'n agos sydd yn llawn clwbfrwynen y mawn, migwyn a grub megis grub croesddail. Hefyd dylai cyfran gael ystod o hesg byr a phlanhigion sy'n blodeuo megis y gwllithlys.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd y planhigion canlynol yn gyffredin yn y rhos gwlyb: grub croesddail Erica tetralix; glaswellt y gweunydd Molinia caerulea; llafn y bladur Narthecium ossifragum; hesg byr rhywogaethau Carex; mwsogl yn cynnwys rhywogaethau Sphagnum ; tamaid y diafol Succisa pratensis. • Byddir yn cadw llygaid ar rywogaethau cystadleuol sydd yn arwydd o danbori, yn arbennig glaswellt y gweunydd Molinia caerulea a'r eithinen fân Ulex gallii. • Hefyd bydd rhedyn a rhywogaethau prysg megis yr Helygen a'r Fedwen y absennol o'r rhos gwlyb.
